

Bundle Health Board – Welsh 30 May 2024

- 1 MATERION RHAGARWEINIOL
- 2 24/91 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb – Cadeirydd
- 3 24/91.1 Datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda – Cadeirydd
- 4 24/92 Cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2024 i'w cymeradwyo – Cadeirydd
24.92 Cofnodion drafft Y Bwrdd Iechyd BIPBC 28.3.24 v.04
- 5 24/93 Cofnod Camau Gweithredu – Cadeirydd
24.93 Cofnod cyflwyno camau gweithredu_cyhoeddus
- 6 24/94 Iechyd Meddwl: Adroddiad Adolygu Gwasanaethau Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:
Ystyried adroddiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a phrif ganfyddiadau'r adolygiad.
Ystyried safbwyntiau teuluoedd o ran profiad gofal, eu hadborth ar yr adroddiad ac yn hollbwysig, ystyried y ffordd orau o weithredu
Ailddatgan o'r newydd, yr ymddiheuriad i bobl a gafodd eu gadael i lawr gan y bwrdd iechyd a arweiniodd at yr adolygiadau a gynhaliwyd i ganfod methiannau.
Cytuno ar gyfnod ystyried i lunio ymateb ffurfiol i ganfyddiadau'r Adolygiad a safbwyntiau teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llais.
Ystyried yr ymateb mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd, sydd wedi'i drefnu ar gyfer Gorffennaf 2024 ar hyn o bryd
24.94 Iechyd Meddwl Adroddiad Adolygu Gwasanaethau Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
- 7 24/95 Stori Claf – – Tîm Atal Strôc Cymunedol – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/ Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd
nodi'r adroddiad
24.95 Stori'r Claf – Tim Atal Stroc Cymunedol v1.0
- 8 24/96 Adroddiad Profiad Dinasyddion – Cadeirydd
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd
nodi'r adroddiad
24.96 Adroddiad Profiad Dinasyddion
- 9 24/97 Adroddiad y Cadeirydd – Cadeirydd
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd
nodi'r adroddiad
24.97 Adroddiad Cadeirydd Mai 2024 v1.0
- 10 24/98 Adroddiad y Prif Weithredwr – Prif Weithredwr
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd DRAFOD A NODI'R adroddiad
24.98 Adroddiad Y Prif Weithredwr 2024 v1.0
- 11 24/99 Adroddiad yr Is-gadeirydd – Is-gadeirydd
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd
nodi'r adroddiad
24.99 Adroddiad yr Is-Gadeirydd Mai 2024
- 12 AMCAN STRATEGOL 4 – GWELLA ANSAWDD, CANLYNIADAU A PHROFIAD
- 13 24/100 Cronfa Gofal wedi'i Gynllunio – defnydd 2024/25 – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd

nodi'r canlynol

y cyfle i wella perfformiad trwy well cynhyrchiant mewnol, cefnogi'r gwaith o roi dull 'trin cleifion yn eu tro' ar waith a'r cynlluniau a ddisgrifiwyd o ran defnyddio adnoddau Gofal wedi'i Gynllunio y manylir arnynt yn nhabl 8, yn cynnwys;

(a) Cynlluniau gwyrdd i ddechrau fel y'i disgrifiwyd

(b) Cefnogi cynlluniau oren unwaith y cânt eu cymeradwyo gan y Gweithredwr

(c) Cynlluniau wedi'u huwcholeuo mewn melyn wrth gael eu cefnogi sy'n gofyn am achosion busnes ar wahân i'r Bwrdd lechyd cyn cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (oherwydd gwerth).

bod yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at ystyried sut y caiff adnoddau eu defnyddio i ddatblygu modelau galw a chapasiti cadarn (i gynnwys cyfleoedd am effeithlonrwydd). Yn cynnwys taflwybrau perfformiad diwygiedig i gael eu cyflwyno erbyn diwedd Mai 2024, mae perfformiad a aseswyd yn symud tuag at y taflwybrau diwygiedig hyn a lefelau perfformiad wedi'u targedu Llywodraeth Cymru.

14 Egwyl

15 EITEMAU STRATEGOL

16 EITEMAU I'W CYMERADWYO/CADARNHAU/PENDERFYNU

17 24/102 Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023 ac Asesu Strwythuredig – Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Cynrychiolwyr Archwilio Cymru yn bresennol

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

derbyn a chefnogi'r adroddiad archwilio blynyddol;

derbyn a chefnogi'r adroddiad asesu strwythuredig;

cytuno y bydd y tîm gweithredol yn mynd i'r afael â'r cyfleoedd gwella fel y'i hamlinellir yn yr ymateb rheoli i'r asesiad strwythuredig (atodiad 2).

cytuno y bydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i graffu ar gyflawni'r argymhellion

24.102 Adroddiad Archwilio Blynyddol ac Asesiad Ffurfiol v1.0

18 24/103 Cynllun Cyflenwi Blynyddol – Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio

Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd lechyd

nodi'r cynnydd cyffredinol a wnaed ynghyd â'r heriau a amlygwyd.

24.103 Cynllun Cyflawni Blynyddol

19 24/104 System Rheoli Ansawdd – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn ac i gefnogi'r dull o roi System Rheoli Ansawdd ar waith ar gyfer y Bwrdd lechyd.

20 24/105 Adroddiad Blynyddol Ymchwil a Datblygiad 2023/24 – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol

nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol

nodi'r potensial i ddatblygu cyfleoedd ymhellach i gydweithio â phartneriaid masnachol ac anfasnachol

nodi'r cyfle i weithio'n agos gyda'n Prifysgolion ac, yn benodol, gydag Ysgol Feddygol Bangor.

21 24/106 Adroddiad sicrwydd Lefelau Staff Nyrsio – Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol

derbyn yr adroddiad hwn er mwyn cael sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol:

1. Mae Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn bodloni ei "ddyletswydd statudol i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio" ar bob ward sy'n dod o dan feini prawf cynhwysiant Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

2. Mae BIPBC yn cyrraedd ei ddyletswydd statudol i roi Cyflwyniad Blynyddol i'r Bwrdd yn manylu ar lefelau staff nyrsio wedi'u cyfrifo

nodi bod asesiad ariannol yn deillio o ddyletswydd statudol y sefydliad i gyfrifo lefelau staff nyrsio wedi cael ei gyflwyno trwy gynllun IMTP i'w ystyried o fewn cylch cynllunio ariannol 2024/25

24.106 Papur Sicrwydd Lefelau Staffio Nyrsys

22 24/107 Cyfradd Ffi Flynyddol Interim Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu 2024/ 2025 – Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:-

cymeradwyo cyfradd FNC interim arfaethedig ar gyfer cyfraniadau GIG o £213.18 fesul preswlydd bob wythnos o 1 Ebrill 2024 yn amodol ar gymeradwyo Cyfradd genedlaethol FNC 2024/25. cymeradwyo unwaith y bydd dyfarniad cyflog yr Agenda ar gyfer Newid ar gyfer 2024/25 a bod egwyddorion IUM yn cael eu cymhwyso i ffurfio cyfradd FNC genedlaethol derfynol yn cael eu cymhwyso, OS bydd y gyfradd FNC genedlaethol derfynol yn uwch na'r gyfradd interim arfaethedig, dylai'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd interim a'r gyfradd derfynol gael eu cymhwyso'n ôl-weithredol a'u hól-ddyddio i 1 Ebrill 2024.

- 23 24/108 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol – Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol
nodi cynnwys yr adroddiad;
nodi ychwanegu'r sêl gyffredin;
nodi'r materion a ystyriwyd yn y cyfarfod Preifat o'r Bwrdd ar 30 Mawrth 2024; a
nodi'r wybodaeth frifio o'r Cyfarfod Cyd-gomisiynu a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2024; a
cytuno ar y cynnig yn ymwneud â chylchredeg cofnodion y tu allan i gyfarfod y Bwrdd.
24.108a Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol Mai 2024 v1.0
- 24 24/109 Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd
nodi'r cynnwys ac argymhellir cadarnhau Llythyrau Camau Gweithredu blaenorol y Cadeirydd sy'n cynnwys argymhellion i roi cymeradwyaeth neu ail gymeradwyaeth ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ar draws Cymru.
24.109a Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr.. Mai 2024
24.109b Atodiad 1 FV – Data Clinigwyr Cymeradwy – ar gyfer adroddiad bwrdd Mai 2024 Cymru Gyfan
24.109c Atodiad 2 FV – Adran 12(2) Data Meddygon – ar gyfer Cymru Gyfan AC Mai 2024 adroddiad bwrdd
- 25 24/110 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a Chofrestr Risg Gorfforaethol – Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd
nodi'r adroddiad;
derbyn y sicrwydd mewn perthynas â rheoli risg y'i hamlinellir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol;
cefnogi newidiadau a amlygwyd o ran Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'i adlinio ag Amcanion y Bwrdd lechyd, a gafodd eu cymeradwyo yn ddiweddar yn y Bwrdd ym mis Mawrth.
- 26 Cinio
- 27 EITEMAU I'W TRAFOD/SICRWYDD
- 28 24/111 Adroddiad Gwella Ansawdd – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn.
24.111 Adroddiad Gwella Ansawdd Mai 2024 v2.0
- 29 24/112 Adroddiad Perfformiad Integredig 2023/24 Mis 12 – Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Argymhellion
Gofynnir i'r Bwrdd
adolygu cynnwys yr adroddiad hwn a
chynnig unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r adroddiad, neu ganfod unrhyw waith sicrwydd neu gamau gweithredu ychwanegol y byddai'n eu hargymell i gydweithwyr gweithredol ymgymryd â nhw
- 30 24/113 Adroddiad Alldro Ariannol 2023/24 – Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid
Argymhelliad
Gofynnir i'r Bwrdd
adolygu a chraffu'r adroddiad
- 31 ER GWYBODAETH
- 32 24/114 Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori

Y Pwyllgor Archwilio
Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu Gwybodaeth
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
Y Pwyllgor Tâl
Fforwm Partneriaeth Lleol

24.114.1 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio 07.05.2024 V1.0

24.114.2 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor PFIG Ion – Ebrill 2024 v1.0

24.114.3 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor QSE 18.04.24 V1.0

24.114.4 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor PPHP 24.4.24 v2.0

24.114.5 Adroddiad Cadeirydd PC 11.04.24 v2

24.114.7 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Tal 22.03.24 v1.0

24.114.8 Adroddiad Cadeirydd Fforwm Partneriaeth Lleol 26.2.24 v1.0

33 **MATERION ERAILL**

34 24/115 Adolygu effeithiolrwydd y cyfarfod – Cadeirydd (ar lafar)

35 24/116 Unrhyw fater arall – Cadeirydd (ar lafar)

36 24/117 Dyddiad y cyfarfod nesaf

37 Penderfyniad i Wahardd y Wasg a'r Cyhoedd

"Penderfynwyd bod cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i ddiddordeb y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960."

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB)
Cofnodion DRAFFT cyfarfod o'r Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus
ar 28 Mawrth 2024 yn Venue Cymru, Llandudno**

Aelodau Bwrdd yn Bresennol	
Enw	Teitl
Dyfed Edwards	Cadeirydd BCUHB
Karen Balmer	Aelod Annibynnol
Clare Budden	Aelod Annibynnol (rhan o'r cyfarfod)
Russell Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro
Gareth Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd Dros Dro
Urtha Felda	Aelod Annibynnol
Dyfed Jones	Aelod Annibynnol
Yr Athro Mike Larvin	Aelod Annibynnol
Dr Nick Lyons	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr
Phil Meakin	Ysgrifennydd Bwrdd Dros Dro
Dr Jane Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Dros Dro
Mike Parry	Aelod Cyswllt – Cadeirydd y Grŵp Cyfeiriol Rhanddeiliaid
Dylan Roberts	Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth
Fôn Roberts	Aelod Cyswllt – yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Carol Shillabeer	Prif Weithredwr
Helen Stevens-Jones	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
Dr Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Thrawsnewid
Dr Caroline Turner	Aelod Annibynnol
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol
Gareth Williams	Is-gadeirydd BCUHB
Jane Wild	Cyfarwyddwr Cyswllt – Cadeirydd y Fforwm Proffesiynau Gofal Iechyd
Angela Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
Hefyd yn Bresennol	
Jason Brannan	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl
Paolo Tardivel	Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella
Philippa Peake-Jones	Pennaeth Materion Corfforaethol
Sefydliadau / Unigolion yn arsylwi yn y cyfarfod	
Geoff Ryall Harvey	Llais – Gogledd Cymru
Teresa Owen	Cyn-Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus BCUHB

Eitem Agenda Gweithredu
BUSNES AGORIADOL



<p>HB24/36, Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb</p> <p>HB24/36.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Chris Field a Billy Nichols, oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd fel Aelodau Annibynnol, Pam Wenger oedd yn arsylwi ac a fyddai'n ymuno â'r Bwrdd Iechyd fel Cyfarwyddwr Llywodraethu ym mis Ebrill, a Paolo Tardivel a fyddai'n cyflwyno'r eitem ar Fesurau Arbennig. Hysbyswyd y rhai oedd yn bresennol y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bod cyfieithu ar y pryd ar gael. Nodwyd ymddiheuriadau gan Clare Budden (for part meeting).</p> <p>HB24/36.2 Cyflwynodd Chris Field ei hun i aelodau'r Bwrdd gan rannu ei gefndir fel Bargyfreithiwr a phreswlydd lleol. Cyflwynodd Billy Nichols ei hun hefyd gan nodi ei fod wedi dechrau gweithio i UHB Betsi Cadwaladr fel nyrs yn 2002 ac ers 2006 ei fod wedi bod yn Stiward a Chynrychiolydd Iechyd a Diogelwch gyda'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) a hefyd yn Secretariat Pwyllgor Partneriaid Undebol y Bwrdd Iechyd.</p>	
<p>HB24/37 Datgan budd ar yr agenda bresennol</p> <p>HB24/37.1 Roedd Jane Wild, Aelod Cyswllt, wedi datgan budd yn yr adroddiad Llywodraethu Corfforaethol fel Cadeirydd y Fforwm Proffesiynau Iechyd (HPF).</p>	
<p>HB24/38 Cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25.1.24</p> <p>HB24/38.1 Cymeradwywyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024 fel cofnod gwir a chywir.</p>	
<p>HB24/39 Log Gweithredu</p> <p>HB24/39.1 Cytunwyd y diweddariadau a roddwyd yn y log gweithredu.</p>	
<p>EITEMAU AR GYFER TRAFODAETH / SICRWYDD</p> <p>HB24/40 Stori Profiad y Claf – Gwasanaeth Fasgwlaidd</p> <p>HB24/40.1 Diolchodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol i'r rhai a oedd wedi rhannu eu profiadau â'r Bwrdd a dywedodd fod y fideo ar stori'r claf a ddangoswyd yn y cyfarfod yn dangos gwir bwysigrwydd y staff a'r ffordd yr oeddent yn gweithio gyda'i gilydd, gan dynnu sylw at rai o'r materion ansawdd a bod y papur atodol yn rhoi rhywfaint o hyder ar y materion hyn ond gan nodi mai gwrando ar gleifion fyddai'r cymhelliad mwyaf i wneud gwelliannau.</p> <p>HB24/40.2 Cafwyd trafodaeth ar ailwampio'r gwasanaeth ac atgyfeiriadau rhwng yr hyb a safleoedd is-hyb, gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol</p>	



yn diweddu drwy ddweud bod y prosesau'n cael sylw manwl ac na fyddai unrhyw system gymhleth byth yn gweithio'n berffaith a bod profiad y claf yn hynod bwysig.

HB24/40.3 Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol, Tîm Profiad y Claf ac i'r rhai a oedd wedi rhannu eu profiadau. Dywedodd fod nifer o ddarnau o waith allanol wedi eu gwneud a bod un yn digwydd yn bresennol, ac y byddai'r rhain i gyd yn cael eu dwyn ynghyd a'u rhannu fel rhan o drafodaeth ehangach â'r Bwrdd dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol y byddai'r ddau adolygiad gwasanaeth yn cael eu cyhoeddi ar ôl eu derbyn ac y byddai'r Gwasanaeth Fasgwlaidd yn cael ei fonitro drwy lywodraethu arferol. Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd wedi cyfrannu at yr eitem.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn nodi'r** adroddiad.

HB24/41 – Adroddiad y Cadeirydd

HB24/41.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod eisiau tynnu sylw at dri pheth, yn gyntaf bod y newid yn Llywodraeth Cymru wedi gweld Prif Weinidog newydd yn cael ei benodi, y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn aros yr un fath ond y byddai Jayne Bryant yn cymryd drosodd fel y Gweinidog Iechyd Meddwl a Blynyddoedd Cynnar. Roedd yn edrych ymlaen at barhau i weithio'n agos â'r Llywodraeth ac yn croesawu ymweliadau Gweinidogol yn y dyfodol.

HB24/41.2 Yn ail, tynnodd y Cadeirydd sylw at y Mesurau Arbennig a'r hyn oedd wedi'i gyflawni yn y 12 mis diwethaf, bod trafodaethau â phartneriaid yn parhau am yr hyn oedd wedi'i gyflawni a beth oedd y Bwrdd Iechyd yn gobeithio ei gyflawni yn y dyfodol, gan bwysleisio bod budd gwirioneddol i'w ennill o wrando a dysgu a defnyddio'r wybodaeth honno fel adnodd i wella.

Yn olaf, nododd iddo gael y fraint o fynychu dangosiad sinema yn Wrecsam ar ffilm am ddementia. Dywedodd ei fod yn falch iawn o'r rhai oedd wedi cymryd rhan ac wedi dysgu llawer o'r ffilm. Anogodd y Bwrdd i wyllo'r ffilm unwaith y byddai ar gael ar wahanol lwyfannau gan ddiolch i'r tîm a fu'n rhan o gynhyrchiad y ffilm.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn trafod a nodi** cynnwys yr adroddiad.

HB24/42 - Adroddiad y Prif Weithredwr

HB24/42.1 Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y gwaith Ymchwiliadau a wnaed gan nodi bod sesiwn Cymru o Ymchwiliad Covid-19 wedi'i chynnal yng Nghaerdydd ac y byddai'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i weld y cyhoeddiadau o'r Ymchwiliad er mwyn deall beth a ddysgwyd ohono.



HB24/42.2 Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod wedi ymweld â safleoedd ac wedi dysgu mwy am y gwasanaethau drwy ei sgysiau â chleifion a pherthnasau. Dywedodd fod dau dîm wedi cael eu henwebu am wobwr Tyddewi.

HB24/42.3 Nododd y Prif Weithredwr fod y cyfnod hiraf o Weithredu Diwydiannol wedi bod gan effeithio ar gapasiti'r Bwrdd Iechyd i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau i gleifion a'i bod yn awyddus i weld y sefyllfa'n cael ei datrys cyn gynted â phosib drwy weithio'n adeiladol â chydweithwyr.

HB24/42.4 Roedd y cyfarfodydd partneriaeth a gynhaliwyd wedi tynnu sylw at nifer o raglenni ar y cyd fel Ysbyty Brenhinol Alexandra, gyda mwy o'r cyfarfodydd hyn i'w cynnal dros y misoedd nesaf.

HB24/42.5 Nododd y Bwrdd ymweliadau'r Prif Weithredwr a hysbyswyd y Bwrdd bod rhai Gwasanaethau wedi gwneud ceisiadau a bod llawer yn bosib. Rhannwyd un enghraifft o gais am iPad i un o'r gwasanaethau ar safle Ysbyty Maelor Wrecsam, oedd wedi bod yn hawdd i'w ateb.

HB24/42.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am ei holl waith caled.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn trafod a nodi** cynnwys yr adroddiad.

HB24/43 – Adroddiad yr Is-gadeirydd

HB24/43.1 Cyflwynodd yr Is-gadeirydd ei adroddiad yn rhannu ei fod wedi mynychu cyfarfod gwych gyda'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth Gofal Sylfaenol gan bwysleisio, os oedd problemau i gael eu datrys yn yr Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, y byddai'n bwysig gwella'r Gofal Sylfaenol, gyda barn debyg wedi'i rhannu yn ystod ei ymweliad â Ward Iechyd Meddwl a ddywedodd fod y timau Iechyd Meddwl Cymunedol dan ormod o bwysau.

HB24/43.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd am ei waith cyson gan hefyd ddiolch i'r holl Aelodau Annibynnol sy'n mynd y filltir arall o ran oriau eu cytundeb.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn trafod a nodi** cynnwys yr adroddiad.

EITEMAU I'W CYMERADWYO / CADARNHAU / PENDERFYNU

HB24/44 – Adroddiad Mesurau Arbennig – Cam Sefydlogi

HB24/44.1 Cyflwynwyd yr eitem gan y Prif Weithredwr gan dynnu sylw bod y Bwrdd Iechyd bellach wedi cyrraedd y pwynt 12 mis gyda'r Mesurau Arbennig, bod y Bwrdd wedi derbyn diweddariadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac yn diolch i Paolo Tardivel, y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella, am redeg y rhaglen.



HB24/44.2 Dywedodd y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella fod yr adroddiad cynhwysfawr yn cysylltu i adroddiad cau'r cylch 90 diwrnod ac yn dangos bod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf gan gydnabod bod llawer mwy ar ôl i'w wneud. Dywedodd fod y Bwrdd Iechyd wedi cael ei gefnogi gan gynghorwyr annibynnol o Lywodraeth Cymru a bod canfyddiadau eu hadolygiadau wedi cael eu cyhoeddi a'r cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro a'u rhannu â'r Cyfarwyddwr Gweithredwr perthnasol gan symud ymlaen drwy'r llwybr llywodraethu a gytunwyd. Nodwyd bod dull ffocws ar ganlyniadau'n cael ei ddilyn gyda'r trydydd cylch 90 diwrnod yn dangos y lefel fwyaf o gwblhau ond mai'r uchelgais oedd gwella'r darparu wrth symud ymlaen.

HB24/44.3 Trafodwyd pob un o'r wyth maes pryder, Llywodraethu ac Effeithiolrwydd y Bwrdd, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol, Arweinyddiaeth Dosturiol a Diwylliant, Llywodraethu Clinigol, Profiad a Diogelwch y Claf, Darparu Gweithredol, Cynllunio a Thrawsnewid Gwasanaethau, ac Iechyd Meddwl, gyda diweddariad yn cael ei roi ar bob un a'r manylion llawn wedi eu nodi'n glir yn yr adroddiad cysylltiedig.

HB24/44.4 O ran Llywodraethu ac Effeithiolrwydd y Bwrdd, dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd fod 100 o argymhellion a bod 70% wedi cael eu cwblhau gan gyfeirio'n benodol at y newidiadau i'r Cylch Gorchwyl a bod Bwrdd newydd wedi cael ei recriwtio. Roedd yn cydnabod bod mwy ar ôl i'w wneud ond yn ffyddiog y byddai cynnydd pellach yn cael ei wneud gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd.

HB24/44.5 Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro sylw at Lywodraethu a Rheolaeth Ariannol a bod gan y Bwrdd reolaeth a throsolwg drwy'r fframwaith perfformiad oedd yn cael ei wreiddio ar draws y sefydliad. Roedd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau yn eu lle fel fframwaith i gryfhau rheolaeth, roedd adolygiad caffael mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac wedi'i gefnogi gan y Cydwasanaethau, wedi cael ei gynnal ac roedd dros 400 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant ar gaffael. Nodwyd bod llawer iawn ar ôl i'w wneud mewn hinsawdd ariannol bur anodd. Roedd yr Adolygiad Cynllunio wedi'i dderbyn yn hwyrach na'r disgwyl ond roedd cynllun gweithredu drafft ar gael a byddai'n cael ei rannu maes o law.

HB24/44.6 Roeddid yn cydnabod bod arweinyddiaeth gref ac ymgysylltu'n darged tymor hir a rai misoedd yn ôl bod y Bwrdd wedi amlinellu ei fwriad i fod yn sefydliad tosturiol a bod y mesurau perthnasol yn cael eu rhoi yn eu lle fel y gallai hyn ddigwydd. Rhannodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl fod Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol, wedi'i gadeirio gan y Prif Weithredwr, wedi cael ei sefydlu a bod Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd y Bwrdd wedi'i greu ac wedi cael ei gadeirio i ddechrau gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd ond erbyn hyn yn cael ei gadeirio gan un o'r Aelodau Annibynnol. Roedd y Gynhadledd Arweinyddiaeth a gynhaliwyd wedi rhoi arweiniad clir ar ba fath o sefydliad yr oedd yn awyddus i fod, ac er yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud, ei bod yn bwysig sicrhau bod cydweithwyr yn teimlo eu bod yn rhan o'r siwrne.



Nododd y Bwrdd y byddai Fframwaith Arweinyddiaeth Integredig yn cael ei gytuno maes o law a bod ymgysylltu da wedi bod gyda'r arolwg staff.

HB24/44.7 Tynnodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu sylw bod llawer mwy o ffocws allanol wedi bod o ran cyfathrebu, bod y Bwrdd yn mynd i gyfarfod â'r bobl lle'r oedden nhw a bod hyn wedi dechrau gyda'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Llandudno'r llynedd. Rhannodd fod pethau'n llawer mwy agored a thryloyw a blwyddyn yn ddiweddarach bod sesiynau briffio wedi eu cynnal â staff a chymunedau ac o hyn ymlaen y byddai trawsdoriad o'r sefydliad yn dod at ei gilydd i benderfynu sut y dylid ymgysylltu. Nodwyd fel rhan o'r gwaith ar y Model Gweithredu, y byddai llawer o waith ymgysylltu'n cael ei wneud.

HB24/44.8 O ran canlyniadau a phrofiad, roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol yn cydnabod mai ymwneud â chleifion fyddai hyn er bod llawer o staff wedi cymryd rhan. Hoffai ddiolch i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithredu Dros Dro am ei gwaith yn y maes hwn gan nodi bod y rhestri aros hir wedi dod i lawr yn dda ond bod y ffocws bellach ar sut i wneud pethau'n wahanol gan gyfeirio'n benodol at ôl-ddilyn gofal ar gais y claf, oedd yn golygu y gallai cleifion eraill gael eu gweld. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol sylw at y rhestri aros hir am ddermatoleg a bod gwahanol ffyrdd o ddelio â hyn yn cael eu hystyried, fel tele-ddermatoleg. Nodwyd bod y papur yn tynnu sylw at Orthopedeg a'r cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y newidiadau yn Ysbyty Llandudno. Nododd y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella mai'r drafferth fyddai sicrhau bod gan y sefydliad y canlyniadau iawn ond mai'r bwriad, gyda'r gwasanaethau oedd yn cael anhawster, oedd symud o bobl yn dweud wrth y sefydliad beth oedd y broblem i adnabod y broblem yn gyntaf.

HB24/44.9 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, o ran bod yn sefydliad dysgu a hunan-wella, bod cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu a bod y sefydliad ar darged i'w ddarparu. Roedd System Rheoli Ansawdd yn cael ei datblygu oedd i'w chyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Mai. Nododd y Bwrdd fod cryn ymdrech i symud at System Cofnodion Electronig, gyda ffocws ar lechyd y Cyhoedd gan gynnwys diabetes. Roedd fframwaith dysgu'n cael ei ddatblygu gan dimau ar y ddaear a byddai hyn yn cael ei ehangu fel rhan o'r System Rheoli Ansawdd. Roedd adolygiad o ymchwiliadau wedi nodi bod angen gwella'r hyn oedd yn cael ei gyflwyno i'r crwner, i sicrhau bod dysgu'n cael ei weithredu ar draws y sefydliad.

HB24/44.10 Nododd y rhai a oedd yn bresennol y byddai'r Mesurau Arbennig, yn y tymor hirach, yn goleuo datblygu strategaeth sefydliadol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Byddai llai o ffocws ar Fesurau Arbennig oherwydd byddai'n cael ei adrodd fel rhan o'r Cynllun Blynyddol. Roedd y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella wedi cloi drwy ddiolch i bawb ar draws y sefydliad, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd.

HB24/44.11 Cafwyd trafodaeth am y gweithlu gan nodi bod gwelliant mawr wedi bod gyda lleihau nifer y penodiadau interim ar draws y sefydliad. Roeddid yn cydnabod y byddai datblygu cyfleoedd gweithlu i boblogaeth



Gogledd Cymru'n cael ei drafod nes ymlaen ar yr agenda fel rhan o'r cynllun tair blynedd.

HB24/44.12 Cafwyd trafodaeth bellach am y gwaith ar y Model Gweithredu gan nodi fel sefydliad bod llawer o waith i'w wneud a ffordd hir i fynd ond, er mwyn darparu, bod angen cynorthwyo pobl i ddarparu'r hyn yr oeddent i fod i'w ddarparu. Roedd y Prif Weithredwr wedi derbyn llawer iawn o adborth ar y Model Gweithredu; roedd wedi comisiynu gwaith gan yr Archwilwyr Mewnol a'r adroddiad bellach wedi'i dderbyn; y cam nesaf fyddai dechrau llunio casgliadau ar beth oedd yn gweithio'n dda a beth oedd ddim yn gweithio cystal ond ei bod yn bwysig peidio ag achosi aflonyddwch diangen i'r sefydliad. Yr adborth cychwynnol oedd bod angen newid a bod llawer o waith wedi'i raglenni ar gyfer chwarter un ar hyn. Rhannodd yr Aelodau Annibynnol fod fformat a phwyslais y dull yn iawn gan ganmol y gwaith oedd wedi cael ei wneud mewn ffordd dryloyw. Nodwyd bod y Bwrdd wedi penderfynu a chytuno bod angen cofleidio risg a bod yn dryloyw am y problemau'n gyhoeddus, bod mwy o waith i'w wneud ac yn benodol o gwmpas Gofal Wedi'i Gynllunio a Gofal Brys ac Argyfwng.

HB24/44.13 Cafwyd trafodaeth am staffio interim a thros dro gan dynnu sylw bod llawer o waith wedi cael ei wneud mewn nyrsio a bydwreigiaeth o ran recriwtio ac mewn rhai ardaloedd na fyddai unrhyw swyddi gwag. Roedd sgysiau'n cael eu cynnal â staff dros dro i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd. Dywedodd y Cadeirydd fod y ffordd yr oedd pobl yn gweithio heddiw'n wahanol iawn o'i gymharu ag o'r blaen, ac y byddai angen i'r sefydliad newid, bod yn fwy hyblyg a pharod i addasu, lle bynnag y bo'n bosib.

HB24/44.14 Mewn ymateb i'r her o ran beth oedd y Mesurau Arbennig yn ei gyflawni a pha wahaniaeth oedd yn cael ei wneud, dywedodd y Prif Weithredwr fod y sefydliad flwyddyn yn ôl wedi bod mewn sefyllfa bur anodd ac wedi gwneud newidiadau eithaf ysgytwol oedd wedi effeithio ar sut yr oedd y sefydliad yn gweithio. Dywedodd mai ei nod oedd gweld sefydliad a oedd yn gweithio'n dda a bod dull 'dwy lôn' o weithio'n cael ei weithredu gyda ffocws ar y cynllun tymor hir ond ar yr un pryd bod gofal gwell yn dechrau cael ei adnabod. Roedd y sefydliad yn gweithio ddydd a nos i sicrhau gwelliannau ond efallai na fyddai pobl yn gweld y rhain dros nos, dim ond yn y tymor hir.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn derbyn sicrwydd** ar y cynnydd a wnaed yn ystod 12 mis cyntaf y Mesurau Arbennig.

HB24/45 – Adroddiad Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Ymateb

HB24/45.1 Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Bwrdd dderbyn yn ffurfiol yr Adroddiad gan Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd y Bwrdd ac ymateb y sefydliad. Dywedodd ei bod yn ddiolchgar am waith Archwilio Cymru a bod yr adroddiad o ddiddordeb cyhoeddus ac wedi cael ei gyhoeddi gyda sylwebaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol. Dywedodd fod y Bwrdd ar y cyfan yn gwella a



bod perthnasoedd yn gwella ac, at ei gilydd, bod dull mwy positif o weithio ac nad oedd y diffygion gweithredol mwyach yn amlwg ond bod heriau sylfaenol oedd angen eu hateb ac y byddai'r rheini'n cael sylw blaenllaw yn y Cynllun. Nodwyd y byddai Effeithiolrwydd y Bwrdd yn rhan o'r gwaith yn yr Asesiad Strwythurol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn nodi ac ystyried** yr Adroddiad ar Effeithiolrwydd y Bwrdd ac Ymateb BCUHB.

HB24/46 – Cynllun 3 Blynedd Drafft 2024 – 27 a chynllun darparu blynyddol 2024-25

HB24/46.1 Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Thrawsnewid a diolchodd i'r Grŵp Cyfeiriol Rhanddeiliaid (SRG) ac i aelodau'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG) am eu cymorth yn profi'r cynllun cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd. Nodwyd bod y Pwyllgor PFIG wedi cyfarfod yn ffurfiol yr wythnos flaenorol i drafod y cynllun a gyflwynwyd yn y pecyn a bod newidiadau y gofynnodd y cyfarfod amdanynt bellach wedi cael eu cwblhau. Roedd fersiwn Iaith Gymraeg a hawdd darllen o'r cynllun yn cael eu cynhyrchu ac Asesiad Ansawdd o'r Effaith ar Gydraddoldeb terfynol wedi'i gwblhau.

HB24/46.2 Nododd y rhai a oedd yn bresennol ei bod yn ddyletswydd statudol o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, i baratoi cynlluniau 3 blynedd sy'n:

- Gwella iechyd y boblogaeth
- Gwella gwasanaethau gofal iechyd
- Cytbwys dros gyfnod o 3 blynedd
- Y gellid eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

HB24/46.3 Os na allai sefydliad gynhyrchu 'Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) y gellid ei gymeradwyo' yn unol â'r uchod, dylai gyflwyno Cynllun Blynyddol. Derbyniodd y Bwrdd na allai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno cynllun IMTP 3 blynedd, fel yr oedd nifer o Fyrddau Iechyd yn gallu ei wneud, ond bod y Cynllun Blynyddol a gyflwynwyd wedi cael ei rannu yng nghyd-destun cynllun 3 blynedd ac y byddai dull 'dwy lôn' o weithredu'n cael ei ddilyn. Hysbyswyd y Bwrdd bod y pum rhan yn y cynllun tair blynedd yn cyfateb i ganlyniadau'r Mesurau Arbennig ac mai'r teimlad yn ystod yr ymgynghoriad oedd mai hyn oedd y ffordd fwyaf priodol o strwythuro'r cynllun. Cadarnhawyd yr amcanion fel a ganlyn:

- Amcan 1: Creu sefydliad effeithiol
- Amcan 2: Datblygu strategaeth a newid tymor hir
- Amcan 3: Diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol
- Amcan 4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad
- Amcan 5: Amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu.



HB24/46.4 Nododd y Bwrdd fod y cynllun yn trafod y newid yn ystod y flwyddyn a gweithio mewn partneriaeth gan gydnabod mai'r sefydliad oedd y cyflogwr mwyaf yng Ngogledd Cymru. Roedd ffocws ar Amcan 4, Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad, a'r her gyda strwythuro'r rhan yma o'r cynllun oherwydd y byddai ymwahanu'r elfen hon bob amser yn artiffisial, gan rannu'r enghraifft bod Gofal Sylfaenol nid yn unig yn Ofal Sylfaenol ond hefyd yn Ofal Wedi'i Gynllunio, Gofal Canser a Gofal Brys ac Argyfwng, fel gyda Dementia.

HB24/46.5 Oherwydd bod y cynllun yn un integredig, rhannodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro y manylion am sut yr oedd y Cynllun Ariannol wedi cael ei ddatblygu a sut yr oedd y siwrne drwy flwyddyn ariannol 2023/24 wedi mynd. Roedd y cynllun diffyg yn 2023/24 wedi'i osod ar £134m, oedd yn rhan o gynllun diffyg cenedlaethol Cymru Gyfan o £648m. Trafodwyd pa mor fawr oedd yr her ariannol gan nodi'n enwedig bod nifer o brosesau rheoli wedi cael eu rhoi yn eu lle o gwmpas mesurau i reoli taliadau ategol a thaliadau digyflog a hyblygrwydd y fantolen. Nododd aelodau fod incwm o £101m gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddyrannu, bod pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi derbyn ei siâr gyfrannol o'r adnodd a bod cynllun diffyg y Bwrdd Iechyd wedi newid i fod yn ddiffyg terfynol o £33m. Nododd y Bwrdd fod y ffigur hwn yn un cymharol i'r dyraniad ychwanegol o £101m a gymeradwywyd gan y Bwrdd y flwyddyn flaenorol.

HB24/46.6 Wrth benderfynu ar sefyllfa sylfaenol 2024/25, cafodd y dyraniadau untro a dderbyniodd y Bwrdd Iechyd ar gyfer incwm eu dileu, sef dyraniadau ar gyfer perfformiad a thrawsnewid o £82m a'r dyraniad gwreiddiol o £101m a dderbyniwyd yn y flwyddyn flaenorol, er y gallai elfennau ohonynt gael eu hail-ddyrannu'n amodol gan roi diffyg sylfaenol o tua £253m ar gyfer 2024/25. Y prif negeseuon a rannwyd oedd y gellid ond atal y fantolen unwaith a bod hyn wedi cael ei wneud yn 2023/24 a bod y Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n drwm ar ddyraniadau afreolaidd sylweddol i'w gadw'n ariannol gynaliadwy.

HB24/46.7 Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro ddiweddariad ar ragolygon ariannol 2024/25 y Cynllun Integredig gan dynnu sylw bod y diffyg sylfaenol wedi'i addasu'n dechrau ar £253m a bod potiau unigol o gyllid yn newid y sefyllfa; dyraniad cyllid afreolaidd o £82m ar gyfer perfformiad a thrawsnewid, y £74.6m o'r £101m o gyllid gan Lywodraeth Cymru a dyraniad ar gyfer twf nad oedd llawer o sefydliadau wedi ei dderbyn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyllid cynaliadwyedd, er mwyn mynd i'r afael â rhestri aros hir ar gyfer gofal a gynlluniwyd. Yna tynnodd sylw at bwysau chwyddiant oedd yn gadael y Bwrdd Iechyd â tharged arbedion o 2.8% am y flwyddyn, sef targed o £48m. Nodwyd mai'r cyfarwyddyd oedd cael targed o 2%, a fyddai wedi golygu her bellach. Nododd y Bwrdd y byddai hyn ond yn digwydd drwy wneud y gwaith cynnal gwerthoedd i wella gwasanaethau, nid drwy dorri gwasanaethau ond defnyddio'r hyn oedd ar gael yn fwy effeithlon. Er popeth a gyflwynwyd, roedd yn gadael y Bwrdd Iechyd gyda diffyg o £19.7m oedd yn debyg i swm y flwyddyn flaenorol, gan olygu na fyddai'r ddyletswydd ariannol allweddol i adennill costau'n cael ei chyflawni. Byddai



gwaith yn parhau i gael ei wneud ar gynnal gwerthoedd fel y gallai'r Bwrdd Iechyd greu cynllun adennill costau yn y dyfodol.

HB24/46.8 Tynnodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl sylw at elfen gweithlu'r cynllun gan nodi y byddai angen i'r atebion gweithlu fod yn gynaliadwy a bod angen ystyried y cymysgedd sgiliau, y cyfuniad o sgiliau, technoleg a chynhyrchedd ar gyfer gwasanaethau ac y byddai angen adolygu'r gweithlu. O ran sylfaen y sefydliad, roedd adolygiadau sefydliad wedi eu gwneud yn 2023-24 ac adolygiad ehangach yn 2024. Roedd cynigion y cynllun wedi cael eu profi yn erbyn pa mor debygol y byddai'r broses recriwtio ac adleoli'n llwyddo. Nodwyd bod angen ystyried opsiynau eraill, er enghraifft prentisiaethau, byw'n dda, gweithio'n dda a bod angen cysoni'r cyllid gyda niferoedd y gweithlu.

HB24/46.9 Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Thrawsnewid sut y byddai'r cynllun yn cael ei ddarparu gan nodi y byddai naratif y ddogfen yn cael ei droi'n egwyddorion CAMPUS, gyda ffocws ar ganlyniadau ac a fyddai hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth o effaith a darparu. Byddai'r broses o ddarparu'r cynllun yn cael ei 'raeadru' i gynlluniau lleol ac yna i amcanion personol i'w hamlinellu yn y Fframwaith Perfformiad Integredig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a'r Bwrdd pob chwarter.

HB24/46.10 Cafwyd trafodaeth am ymgysylltu gan ddeall bod y Bwrdd wedi gweithio'n hyblyg a thrwy weithdai a oedd wedi trafod y Cynllun a bod gwelliant sylweddol wedi bod yn y Cynllun ers y drafft cychwynnol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro fod y targed mewn golwg rhwng £20m - £33m. Nodwyd y byddai defnyddio AI yn cael ei ddatblygu ymhellach fel rhan o amcan 5 gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth Ddigidol gan nodi bod diwrnod astudio gyda'r clinigwyr yn cael ei drefnu. Cafwyd trafodaeth bellach am gyllid sector cyhoeddus a bod mwy o waith oedd angen ei wneud mewn rhai meysydd o ran canlyniadau i gleifion.

HB24/46.11 Diolchodd y Prif Weithredwr i'w chyd-aelodau am eu gwaith a dywedodd, er bod y swyddogaeth gynllunio wedi cydlynu'r gwaith, bod llawer o feysydd eraill wedi cyfrannu a bod y cynllun yn llawer gwell o'i gymharu ag un y flwyddyn flaenorol. Byddai fersiwn hawdd darllen yn sicrhau dealltwriaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud ac y byddai'r cynllun yn arwain at ddarparu gan sicrhau nad yw'r cyfyngiadau ariannol yn troi ein sylw o'r canlyniadau a'r profiad y dylai'r claf eu derbyn.

HB24/46.12 Diolchodd y Cadeirydd i'w gyd-aelodau am eu gwaith gan ddweud bod y broses, fel bob amser, wedi bod yn un o ddysgu. Canolbwyntiodd ar y rhai a fyddai'n darparu'r cynllun ac roedd yn awyddus i sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r darparu a bod ganddynt uchelgais cyffredin. Dywedodd y Cadeirydd y gallai'r Cynllun rŵan gael ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn derbyn** y cynllun tair blynedd a chymeradwyo'r amcanion corfforaethol a'r blaenoriaethau yn y cynllun;

CS



- **Yn nodi** bod gwaith helaeth wedi'i wneud ar ddatblygu'r cynllun ond gan dderbyn mai cynllun diffyg ydoedd o hyd a bod angen rhoi ffocws cryf ar drefniadau atebolrwydd clir ar gyfer darparu;
- **Yn cefnogi** cyflwyno'r Cynllun Blynyddol a'r dogfennau ategol oedd angen eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Mawrth 2024 yn unol â'r amserlen a gytunwyd.

HB24/47 – Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

HB24/47.1 Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd fod tair elfen i'r adroddiad, y gyntaf oedd Risg gyda 17 o risgiau corfforaethol a diweddariad ar 9 a'r gweddill yn anorffen gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol perthnasol. Cafwyd trafodaeth bellach am lefel y sgôr risg am beidio â chyflawni cynllun ariannol gan nodi y byddai'r naratif yn cael ei adolygu yn y Grŵp Rheoli Risg ar gyfer ei adolygu yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol.

HB24/47.2 O ran penodiadau, roedd Jane Wild wedi cael ei hail-benodi fel Cadeirydd y Fforwm Proffesiynau Iechyd (HPF) ac roedd Caroline Turner wedi cael ei phenodi fel Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

HB24/47.3 Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi ategu'r cynnydd a wnaed gyda rheoli risg a dywedodd ei fod yn cael ei adolygu yn y Pwyllgor Risg ond nodwyd nad oedd y Pwyllgorau'n cynnig unrhyw sicrwydd ac nad oeddent ychwaith yn amddiffyniad.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn nodi'r** Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn dilyn yr adolygiad ym mhwyllgorau'r Bwrdd;
- **Yn cymeradwyo** atodi'r sêl gyffredinol fel y nodir yn yr adroddiad
- **Yn cadarnhau'r** camau a gymrodd y Cadeirydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd
- **Yn nodi'r** diddordeb a fynegwyd ar gyfer aelodaeth o'r HPF a'r SRG

HB24/48 – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

HB24/48.1 Cyflwynwyd y papur gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl gan dynnu sylw ei fod yn disgrifio bwriad strategol y sefydliad a'i fod yn seiliedig ar nifer o gonglfeini allweddol ac wedi'i gynhyrchu drwy ymgynghori. Cytunwyd yn y dyfodol y byddai'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dod o dan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Ar ôl i'r Bwrdd ystyried hyn, y camau nesaf fyddai rhannu'r ddogfen gan nodi bod peth o'r iaith yn dod o'r cynllun cenedlaethol a gofynion statudol. Byddai'r ddogfen yn parhau i gael ei diwygio'n barhaus oherwydd dogfen gwmpasu gychwynnol oedd hi am 4 blynedd gyda'r nod o'i chysylltu i'r Cynllun Blynyddol ac i'r gwaith diwylliant ac ymgysylltu. Diolchwyd i Ceri Harris – Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, am ei gwaith ar y cynllun, oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

HB24/48.2 Roedd un o'r Aelodau Annibynnol wedi croesawu'r adroddiad gan nodi ei fod yn dangos yr ymrwymiad o gofio bod y Bwrdd Iechyd yn cynrychioli



tua 700,000 o bobl a 20,000 o staff ac yna cafwyd trafodaeth am ymgysylltu ar y Cynllun Cydraddoldeb a'r broses ymgynghori.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn cymeradwyo'r chwe amcan cydraddoldeb** arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Iechyd rhwng 2024-28
- **Yn cymeradwyo** bod pob un o'r rhain yn feysydd gwaith blaenoriaeth uchel. Byddai'r gwaith o ddatblygu a darparu gweithredu i bob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn yn gorwedd gyda'r staff arweiniol perthnasol ar draws y Bwrdd Iechyd a chynnydd yn cael ei adrodd drwy'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac adrodd blynyddol drwy'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

HB24/49 – Diweddariad ar Achos Busnes Ysbyty Brenhinol Alexandra

HB24/49.1 Esboniodd y Prif Weithredwr hanes hirsefydlog prosiect Ysbyty Brenhinol Alexandra, ei fod wedi cael ei gyflwyno'n flaenorol i Lywodraeth Cymru fel achos busnes llawn ond heb gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru oherwydd ei fod yn ariannol gostus. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn edrych o'r newydd ar beth allai fod yn bosib a diolchodd i gydweithwyr o Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru am eu gwaith yn helpu i gynhyrchu opsiwn llai costus ond gan sicrhau bod y rhan fwyaf o elfennau'r achos busnes gwreiddiol yn parhau i gael eu cynnwys.

HB24/49.2 Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Thrawsnewid iddo fod yn rhan o'r prosiect gyntaf fel meddyg teulu tua deg mlynedd yn ôl ac er ei fod yn brosiect llai, roedd hefyd yn fwy realistig ac roedd gweithio mewn partneriaeth yn gwbl allweddol, yn enwedig wrth symud tuag at ddi-feddygaethu gofal a deall gwahanol fodelau gofal. Atgoffodd ei gyd-aelodau fod y Rhyl yn un o'r ddwy ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

HB24/49.3 Cafwyd trafodaeth bellach am sut y byddai'r broses yn symud ymlaen a sicrhau bod y boblogaeth a'r staff yn rhan o hynny gan gytuno na fyddai'r rhaglen yn llwyddo heb gyfraniad gan bawb. Rhannwyd brwdfrydedd am yr uned mân ddamweiniau ac anhwylderau a chydweithio gyda'r awdurdodau lleol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn nodi a chymeradwyo'r** nodyn briffio, ac yn dilyn trafodaeth breifat, penderfynodd **gymeradwyo'r** ddogfen Arfarnu Opsiynau er mwyn ei hanfon ymlaen i gael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru.

HB24/50 – Adroddiad Sicrwydd Tair Blynedd ar Gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

HB24/50.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr adroddiad Cydymffurfio Tair Blynedd ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) gan nodi bod adolygiadau'n cael eu rhannu â'r Bwrdd pob chwe mis. Rhannodd yr adroddiad grynodedd o'r gwaith oedd wedi'i wneud ac a rannwyd



<p>yn flaenorol â'r Tîm Gweithredol. Roedd cyllid wedi cael ei ddyrannu i sicrhau bod adolygiadau sefydliad yn cydymffurfio. Nodwyd ar ôl ei dderbyn gan y Bwrdd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p> <p>HB24/50.2 Cafwyd trafodaeth am bwy oedd y Ddeddf Staff Nyrsio'n berthnasol iddynt ac a oedd y byrddau gwybodaeth i gleifion sy'n dod o dan y Ddeddf yn cael eu cynnal yn wael. Roedd asesiad wedi cael ei wneud gan y Coleg Brenhinol a heb gael ei wneud yn ystod Covid ond roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi gofyn i hyn gael ei adolygu a'i ddiwygio. Roedd yr aelodau'n deall y byddai'r Bwrdd yn dal i adolygu lefelau staffio'n flynyddol ar y wardiau lle nad oedd y Ddeddf yn berthnasol.</p> <p>Penderfynwyd bod y Bwrdd</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn derbyn yr adroddiad er mwyn cael sicrwydd ar y canlynol:<ul style="list-style-type: none">• Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) yn cwrdd â'i ddyletswydd statudol i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio ar bob ward oedd yn dod o dan feini prawf cynhwysiant Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.• Bod BCUHB yn cwrdd â'i ddyletswydd statudol i gyflwyno adroddiad Sicrwydd Tair Blynedd ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i Weinidogion Cymru.	AW
<p>HB24/51 Diweddariad ar y Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) a Diweddariad ar Gofrestr Cymru o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2)</p> <p>HB24/51.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol gan rannu cefndir y rhesymau pam oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r broses gymeradwyo hon ar gyfer Cymru gyfan. Nodwyd bod awdurdod dirprwyol wedi'i roi iddo, cyd-rhwng cyfarfodydd y Bwrdd.</p> <p>Penderfynwyd bod y Bwrdd</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn nodi'r cynnwys ac yn argymhell cadarnhau'n ffurfiol Lythyrau Gweithredu blaenorol y Cadeirydd yn cynnwys argymhellion i gymeradwyo neu ail-gymeradwyo Clinigwyr a Meddygon Adran 12(2) Cymeradwy ar draws Cymru.	
EITEMAU AR GYFER TRAFODAETH / SICRWYDD	
<p>HB24/52 Adroddiad Gwella Ansawdd</p> <p>HB24/52.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth gan nodi o hyn ymlaen y byddai'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cynnwys y data ansawdd ac felly bod adroddiad eithriadau'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Tynnodd sylw at godymau a heintiau sy'n cael eu dal wrth gael gofal iechyd, briwiau pwysu a'r tri digwyddiad 'byth' a rannwyd yn y papur. Nodwyd bod y Crwner yn dal i godi materion yn ymwneud â Chofnodion Iechyd Electronig, oedi'r gwasanaeth ambiwlans ac ansawdd</p>	



<p>ymchwiliadau. Nododd y Bwrdd fod dadansoddiad manwl o gwestau'n cael ei wneud drwy weithio â'r Cymunedau Iechyd Integredig.</p> <p>HB24/52.2 Nododd yr aelodau fod nifer y cwynion unwaith eto'n cynyddu a bod proses fapio o'r 'llwybr' yn cael ei chyflawni er mwyn symleiddio'r broses a sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu gwreiddio. Roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu'r System Rheoli Ansawdd a fyddai'n cael ei hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd fis Mai. Nododd aelodau fod 88% o gleifion a oedd wedi ymateb i'r arolwg cleifion yn dweud eu bod yn fodlon â'u gofal.</p> <p>HB24/52.3 Trafododd y Bwrdd ansawdd dogfennau a'r cwynion annatrys a'u bod yn poeni bod yr ôl-waith cwynion yn cynyddu. Cytunwyd y byddai'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cynnwys y 'taflwybrau' o fis Mai. Trafodwyd yr Adroddiad ar Effeithiolrwydd Clinigol a sut y byddai'n bwydo mewn i'r agenda Ansawdd cyn casglu bod yr adroddiad Ansawdd yn ôl-weithredol ond y byddai Effeithiolrwydd Clinigol yn edrych i'r dyfodol. Awgrymwyd y gellid sefydlu grŵp ffocws i adolygu'r broblem ac edrych ar ateb.</p> <p>HB24/52.4 Casglodd y Prif Weithredwr fod ansawdd yn gyfrifoldeb cyfunol ac wrth feddwl am ansawdd y dylai fod yn fater o sefydlu systemau, 'llwybrau' a thimau i sicrhau bod ansawdd yn rhan o bob un ohonynt ac mai hyn a fyddai'r ffordd y byddai'r System Rheoli Ansawdd yn gweithio fel y cam cyntaf i systemeiddio ansawdd.</p> <p>Penderfynwyd bod y Bwrdd</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn nodi'r adroddiad	RC
<p>HB24/53 Adroddiad Partneriaethau</p> <p>HB24/53.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu, gan dynnu sylw at waith y fforymau ar y cyd, yn cynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</p> <p>Penderfynwyd bod y Bwrdd</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn nodi'r adroddiad	
<p>HB24/54 Ymateb BCU i'r Ymgysylltu gan EMRTS</p> <p>HB24/54.1 Roedd y Prif Weithredwr wedi crynhoi'r papur a hanes llunio'r cynigion. Nodwyd dros y cyfnod ymgynghori bod pryder wedi cael ei leisio gan gymunedau yng Ngogledd Cymru, a gan Llais, am effaith bosib y cynigion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn dilyn trafod y manylion a rannwyd am resymau'r newid oedd yn cael ei awgrymu a'r hyn oedd orau i Ogledd Cymru, ynghyd â'r pryderon a leisiwyd gan y gymuned, cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn cynnal cyfarfod eithriadol yr un fath â Byrddau Iechyd eraill ar draws Cymru i ystyried yr eitem hon, o gofio nad oedd digon o wybodaeth i ystyried yr argymhellion a roddwyd gerbron yn y cyfarfod.</p>	PM



<p>Penderfynwyd bod y Bwrdd</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn nodi a thrafod yr adroddiad; ac• Yn cytuno i gynnal cyfarfod rhithiol eithriadol i ystyried y cynigion	
<p>HB24/55 Sefydlu Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru fel Cyd-bwyllgor o Fyrddau Iechyd Lleol yn GIG Cymru</p> <p>Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar sefydlu Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru gan ofyn am fabwysiadu ei fframwaith llywodraethu, fel Cyd-bwyllgor o'r Bwrdd. Eglurodd un o'r Aelodau Annibynnol y broses gan esbonio mai Gweinidogion Cymru a wnaeth y penderfyniad i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu.</p> <p>Penderfynwyd bod y Bwrdd</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn nodi'r adroddiad a sefydlu Cyd-bwyllgor Comisiynu (JCC) GIG Cymru o'r 1 Ebrill 2024 ymlaen, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru;• Yn nodi y byddai'r JCC yn disodli cydbwyllgorau presennol y Bwrdd, sef Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC), o'r 1 Ebrill 2024 ymlaen• Yn nodi datblygiad fframwaith llywodraethu'r JCC fel un o elfennau allweddol fframwaith llywodraethu'r Bwrdd Iechyd• Yn mabwysiadu'r diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a'r broses Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol; a'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, fel y cawsant eu cyhoeddi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Mawrth 2024• Yn mabwysiadu'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, fel y cawsant eu cyhoeddi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Mawrth 2024• Yn nodi Map Atebolrwydd y JCC, er gwybodaeth	
<p>HB24/56 Adroddiad Perfformiad Integredig</p> <p>HB24/56.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro gan nodi bod y Bwrdd Iechyd ar siwrne i ddatblygu fersiwn derfynol o'r adroddiad hwn a bod angen newid ffocws yr adroddiad i fod ar asesu perfformiad yn y dyfodol. Y disgwyl oedd y byddai metrigau lleol yn cael eu cyflwyno a fyddai'n mynd drwy'r Grŵp Perfformiad Integredig er mwyn penderfynu beth oedd angen i Bwyllgorau ei adolygu.</p> <p>HB24/56.2 Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth sylw at yr ystadegau rheoli haint a bod gwaith pellach yn cael ei wneud i edrych ar yr ystadegau gwladol ynghyd â chodau clinigol.</p> <p>HB24/56.3 Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl fod y darlun yn gymysg o safbwynt y gweithlu, ac er bod cyfarfodydd Rheoli Sefydliad yn cael eu cynnal bod heriau'n parhau o gwmpas cydymffurfio â'r Adolygiad Datblygu ac Arfarnu Perfformiad (PADR) a bod y Bwrdd Iechyd yn y trydydd safle yng Nghymru.</p>	



HB24/56.4 O ran Gofal a Gynlluniwyd a Gofal Heb Ei Drefnu, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol fod rhestri aros hir wedi gwella ac y byddai'r ffocws presennol ar ddeall y bwch rhwng galw a capasiti a sut y gellid ateb hynny mewn ffordd amserol. Lleisiodd un o'r Aelodau Annibynnol bryderon am y llwybr canser a'r diffyg capasiti.

HB24/56.5 Casglodd y Prif Weithredwr fod angen bod yn fwy cynhyrchiol mewn nifer o feysydd ac y gellid llwyddo i wneud hyn drwy fodelu'r galw a'r capasiti. Nodwyd mai'r cam nesaf fyddai datblygu'r System Rheoli Ansawdd er mwyn gallu cynllunio'n fwy effeithiol ac edrych ar elfennau ansawdd a'r 'taflwybrau'.

HB24/56.6 Diweddarwyd y Bwrdd ar y problemau'n ymwneud â staff a oedd yn gweithio ar godio, gan nodi ei bod yn broblem drwy Gymru.

[Ymunodd Clare Budden, Aelod Annibynnol, â'r cyfarfod]

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn nodi'r** adroddiad

HB24/57 Adroddiad Perfformiad Ariannol 2023/24 Mis 11

HB24/57.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro gan nodi bod cynllun ariannol gwreiddiol y Bwrdd Iechyd wedi'i addasu ar i lawr o £134.1m i £33.0m o ganlyniad i gyllid ychwanegol o £101.1m yn dilyn Adolygiad Cyllideb Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd hefyd wedi cael ei hysbysu gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd wella ei gynllun diffyg o 10%, o'r £134.1m gwreiddiol, gan arwain at ffigur diffyg terfynol o £20m am y flwyddyn ariannol.

HB24/57.2 O ran cyfalaf, adroddwyd bod y Terfyn Adnoddau Cyfalaf ar gyfer 2023/24 yn £33m, gyda'r gwariant hyd yma'n £26m a'r gweddill terfynol o £5m i gael ei dderbyn yn y pedair wythnos olaf.

HB24/57.3 Roedd yr Aelodau Annibynnol yn cydnabod bod yr amgylchedd rheolaeth dynn wedi cynorthwyo i gadw o fewn y gyllideb ond ar gyfer y dyfodol y byddai'n bwysig iawn i'r Bwrdd Iechyd dorri ei gôt yn ôl ei frethyn, gan hefyd wella gwasanaethau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro ei fod yn awyddus i weithredu mewn amgylchedd wedi'i reoli gan weithio tuag at fod yn gynaliadwy a dysgu oddi wrth Fyrddau Iechyd eraill o ran sut i wreiddio dysgu a chynlluniau yn Betsi Cadwaladr.

Penderfynwyd bod y Bwrdd

- **Yn derbyn** a chraffu'r adroddiad hwn
- **Yn nodi'r** dyraniadau cyfalaf ychwanegol a dderbyniwyd hyd yma
- **Yn cymeradwyo** diffyg terfynol disgwylidig gwell o £27m o leiaf, hyd nes y gellid cadarnhau unrhyw gyfleoedd a risgiau eraill a fyddai'n ymddangos ym mis olaf y flwyddyn ariannol.

ER GWYBODAETH



<p>24/58 Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori</p> <p>24/58.1 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Gadeiryddion y Pwyllgor a'r Grŵp Cyngori godi unrhyw faterion yn eu hadroddiadau. Roedd Cadeirydd y QSE eisiau nodi'r ymgysylltu gan y Cymunedau Iechyd Integredig a'i bod yn teimlo iddi dderbyn cymorth parod dros y deuddeg mis diwethaf fel Cadeirydd. Diolchodd yr Aelodau i gyn-Gadeirydd y QSE am ei gwaith caled dros y 12 mis diwethaf a oedd wedi o gymorth mawr i'r Pwyllgor.</p> <p>24/58.2 Dywedodd Gadeirydd yr SRG fod y grŵp mewn cyfnod o bontio gan ymgysylltu mwy ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â recriwtio aelodau newydd ac roedd yn edrych ymlaen at fwy o ymgysylltu â'r Bwrdd.</p>	
<p>24/59 Crynodeb o fusnes preifat y Bwrdd i'w adrodd yn gyhoeddus</p> <p>24/59.1 Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd fod y Bwrdd wedi cael trafodaethau preifat yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2024 i drafod:</p> <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Drafft Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd y Bwrdd• Diweddariad ariannol• Y Gofrestr Risg Gorfforaethol gyfrinachol• Hawliad Gwerth Uchel• Adroddiad preifat Cadeirydd y QSE	
<p>24/60 Effeithiolrwydd y cyfarfod</p> <p>24/60.1 Bu'r rhai a oedd yn bresennol yn trafod pa mor effeithiol oedd y cyfarfod. Yn ymarferol, byddai bwrdd arall wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn cael digon o le. Nodwyd bod rhaniad da iawn ar yr agenda rhwng eitemau strategol a rhai gweithredol ond bod bwndel yr agenda'n drwm gyda 790 o dudalennau a llawer o'r adroddiadau wedi bod drwy Bwyllgor yn barod.</p> <p>24/60.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a fu'n cefnogi'r Bwrdd ac yn arbennig i Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd am ei holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf gan nodi mai hwn a fyddai ei gyfarfod olaf yn y rôl bresennol.</p>	
<p>24/61 Unrhyw fusnes arall</p> <p>Nid oedd unrhyw fusnes arall.</p>	
<p>24/62 Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>30 Mai 2024 yn Venue Cymru, Llandudno a thrwy livestream</p>	
<p>Penderfyniad i Gau Allan y Wasg a'r Cyhoedd</p> <p>"Bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn cael eu cau allan o weddill y cyfarfod a fyddai'n cael ei gynnal ar ôl cyfarfod yr Ymddiriedolwyr oherwydd natur gyfrinachol y busnes a oedd i'w drafod, oherwydd y byddai</p>	



cyhoedduswydd yn ei gylch yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.”	
---	--

DRAFFT

**Cofnod cyflwyno camau gweithredu – yn deillio o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn gyhoeddus
Y Bwrdd Iechyd
23.5.24**

Cyf	Gweithredwr / Aelod Arweiniol	Cyfeirnod cofnod a cham gweithredu cytunedig	Terfyn Amser Gwreiddiol	Diweddariad (dyddiad)	Statws y cam gweithredu	Statws RAG
Camau gweithredu sydd ar agor						
HB24/52.3	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid	Darparu taflwybrau o ran ôl-groniadau cwynion hwyr mewn Adroddiadau Perfformiad Integredig o fis Mai.	16.5.24	RC 21.5.24 Cytunwyd ar daflwybr gwella, caiff gwelliant wedi'i dargedu ei sicrhau erbyn 14 Hydref 2024. Bydd Adroddiad Perfformiad Gorffennaf 2024 y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu'r taflwybrau diwygiedig hyn.	Yn dal ar agor tan gwblhau yn y Bwrdd ym mis Gorffennaf (I'w gyflwyno erbyn 11.7.24)	
Camau gweithredu yr awgrymir eu cau						
HB24/46.11	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Gwella	Cynllun Cyflenwi Blynyddol Cyflwyno Cynllun Blynyddol a dogfennau ategol i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Mawrth 2024 yn unol â therfynau amser cytunedig	28.3.24	CS 21.5.24 Cwblhawyd y cam gweithredu. Cyflwynwyd y cynllun i Lywodraeth Cymru yn unol â'r terfynau amser gofynnol.	Caewyd	

Cyf	Gweithredwr / Aelod Arweiniol	Cyfeirnod cofnod a cham gweithredu cytunedig	Terfyn Amser Gwreiddiol	Diweddariad (dyddiad)	Statws y cam gweithredu	Statws RAG
HB24/50.1	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Lefelau Staff Nyrsio Cyflwyno adroddiad cydymffurfio Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) bob tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn unol â'r terfynau amser cytunedig	28.3.24	AW 21.5.24 Cwblhawyd y cam gweithredu. Mae'r adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gyda'r cafeat i'w gymeradwyo'n derfynol ym mis Hydref	Caewyd	
HB24/54.1	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	Ymateb PBC i Ymgysylltu ag EMRTS Cynnull cyfarfod eithriadol o'r Bwrdd i drafod cynnig EMRTS	11.5.24	Cwblhawyd y cam gweithredu. Cynhaliwyd y cyfarfod Eithriadol o'r Bwrdd lechyd ar 11.4.24	Caewyd	

RAG	
Cam gweithredu ar gau	
Cam gweithredu'n parhau	
Cam gweithredu heb ei gwblhau	



Teitl yr adroddiad: <i>Report title:</i>	Iechyd Meddwl: Adroddiad Gwasanaethau Adolygiad Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion			
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Y Bwrdd Iechyd			
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	Dydd Iau, 30 Mai 2024			
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg i Fwrdd Gwasanaeth Adolygiad Gwahoddedig (IRS) Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, a gefnogir gan archwiliad Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru o'r graddau y mae argymhellion o adroddiadau blaenorol wedi cael eu gweithredu a'u gwreiddio yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth. Mae'n amlinellu ymhellach y dull arfaethedig o ddatblygu'r ffordd ymlaen mewn ymateb i'r adroddiad hwn gan ystyried safbwyntiau ac ystyriaethau ehangach.			
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Ystyried adroddiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a chanfyddiadau allweddol yr adolygiad.• Ystyried barn teuluoedd sydd â phrofiad o ofal, eu hadborth ar yr adroddiad ac ystyried yn feirniadol y ffordd orau ymlaen• Ailddatgan o'r newydd, yr ymddiheuriad i bobl a gafodd eu siomi gan y bwrdd iechyd a arweiniodd at yr adolygiadau a gynhaliwyd i nodi methiannau.• Cytuno ar gyfnod o ystyriaeth i lunio ymateb ffurfiol i ganfyddiadau'r Adolygiad a barn teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llais.• Ystyried yr ymateb mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd, sydd wedi'i drefnu ar hyn o bryd ar gyfer mis Gorffennaf 2024.			
Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i>	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr			
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr			
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input checked="" type="checkbox"/>	Am sicrwydd <i>For Assurance</i> <input type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: <i>Assurance level:</i>	Arwyddocaol <i>Significant</i> <input type="checkbox"/> <small>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol</small>	Derbyniol <i>Acceptable</i> <input checked="" type="checkbox"/> <small>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol</small>	Rhannol <i>Partial</i> <input type="checkbox"/> <small>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol</small>	Dim Sicrwydd <i>No Assurance</i> <input type="checkbox"/> <small>Dim hyder/tystiolaeth o ran darparu <i>No confidence / evidence in delivery</i></small>

	High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives	General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives	Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives	
<p>Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gael sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:</p> <p><i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i></p>				
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:	4: Gwella Ansawdd, Canlyniadau a Phrofiad			
Link to Strategic Objective(s):				
Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:	Dim			
Regulatory and legal implications:	Dim			
<p>Yn unol â WP7, a oedd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</i></p>	Amherthnasol			
<p>Yn unol â WP68, a oedd Aseiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</i></p>	Amherthnasol			
<p>Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)</p> <p><i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</i></p>	Blaenoriaethau Strategol P18, Ansawdd, Arloesi a Gwella			
<p>Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Dim i'w nodi ar hyn o bryd			
<p>Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Dim i'w nodi ar hyn o bryd			
<p>Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori</p> <p><i>Feedback, response, and follow up summary following consultation</i></p>	Paratowyd y papur gan y Prif Weithredwr yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad â theuluoedd.			
Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:	CRR 24-04 Methu ag Ymgorffori Dysgu			

<p>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)</p> <p>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</p>	
<p>Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)</p> <p>Reason for submission of report to confidential board (where relevant)</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Y Camau Nesaf: Bydd y Bwrdd lechyd yn llunio ymateb ffurfiol i ganfyddiadau'r Adolygiad a barn teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llais. Bydd yr ymateb yn cael ei ystyried mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd, sydd wedi'i drefnu ar hyn o bryd ar gyfer mis Gorffennaf 2024.</p>	
<p>Rhestr o Atodiadau: Atodiad 1: Adroddiad Gwasanaethau Adolygiad Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Atodiad 2: Adroddiad Cryno</p>	

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg i Fwrdd Gwasanaeth Adolygiad Gwahoddedig (IRS) Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, a gefnogir gan archwiliad Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru o'r graddau y mae argymhellion o adroddiadau blaenorol wedi cael eu gweithredu a'u gwreiddio yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth. Mae'n amlinellu ymhellach y dull arfaethedig o ddatblygu'r ffordd ymlaen mewn ymateb i'r adroddiad hwn gan ystyried safbwyntiau ac ystyriaethau ehangach.

Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i croesawyd gan y bwrdd iechyd fel rhan o'r gwaith asesu ac ymyrryd sy'n ymwneud â'r Fframwaith Mesurau Arbennig.

Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar bedwar adroddiad, gan gynnwys:

- Adroddiad Holden (2013)
- Adroddiad Cyntaf Ockenden (2014)
- Adroddiad y Gwasanaeth Cyngori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) (2018)
- Ail Adroddiad Ockenden (2018)

Roedd y Tîm Adolygu yn cynnwys Seiciatrydd Ymgynghorol Cyffredinol Oedolion; Seiciatrydd Ymgynghorol Henoed sy'n gweithio yng Nghymru; adolygydd lleig sydd hefyd wedi'i leoli yng Nghymru; adolygydd nyrsio annibynnol (sy'n cynrychioli'r Coleg Nyrsio Brenhinol); ac adolygydd nyrsio arbenigol sy'n gweithio ym maes gwella iechyd meddwl yn Lloegr. Cefnogwyd y Tîm Adolygu gan gynghorwyr yng Ngholeg Brenhinol y Seiciatryddion. Cynhaliwyd yr adolygiad hyd at fis Rhagfyr 2023.

2. Y Dull

Aeth y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ati i wneud eu gwaith mewn tri cham:

1. Adolygu tystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd, gyda chyfanswm o dros 370 o ddogfennau.
2. Cyfweliadau ag ystod eang o staff, cyrff allanol a grwpiau cleifion a gofalwyr.
3. Ymweliadau â nifer o unedau iechyd meddwl, cwrdd â staff a chynnig sesiynau galw heibio i staff, cleifion a gofalwyr.

Nododd y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol mai mewn ychydig iawn o achosion y byddai'n bosibl dweud yn bendant bod argymhelliad wedi cael ei roi ar waith neu heb gael ei roi ar waith. Cyflwynodd yr IRS eu canfyddiadau gan ddefnyddio dull sgorio coch, oren a gwyrdd, gyda'r canllaw canlynol:

- a. Rhoddwyd sgôr gwyrdd os oedd tystiolaeth dda neu gref bod yr argymhelliad wedi cael ei fodloni a'i integreiddio i ymarfer.
- b. Rhoddwyd sgôr oren os oedd rhywfaint o dystiolaeth, ond nid tystiolaeth dda, bod yr argymhelliad wedi'i fodloni.
- c. Rhoddir sgôr coch pan mai ychydig iawn o dystiolaeth, os o gwbl, a ddarparwyd i gefnogi'r gwaith o roi'r argymhelliad ar waith.

Aseswyd 84 o argymhellion, ac roedd rhywfaint o orgyffwrdd, felly roedd y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol yn grwpio'r argymhelliad o dan themâu.

3. Prif Ganfyddiadau'r Adolygiad

1. Thema un: **Gofal sy'n canolbwyntio ar y claf a'r defnyddiwr**

Cafodd pump o'r saith argymhelliad sgôr oren, a chafodd dau sgôr gwyrdd. Nid oedd y Tîm Adolygu yn credu bod y bwrdd wedi'i strwythuro mewn ffordd a oedd yn diwallu anghenion pobl hŷn yn y ffordd orau. Nid oeddent yn gweld digon o dystiolaeth o weithio mewn partneriaeth go iawn ac roeddent yn bryderus bod diffyg cofnodion electronig yn gwneud parhad gofal yn anodd. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o waith partneriaeth da ac arferion arloesol, yn enwedig yn yr uned ddiogel ranbarthol.

2. Thema Dau: **Deddfwriaeth a chanllawiau clinigol**

Rhodddwyd sgôr gwyrdd i chwech o'r wyth argymhelliad a dau oren. Nododd tîm yr adolygiad fod pecynnau hyfforddi cynhwysfawr ac archwiliadau rheolaidd ar waith yn gyffredinol. Fodd bynnag, ni chanfu tîm yr adolygiad dystiolaeth gref o sut roedd dysgu ehangach yn cael ei ledaenu ar draws y bwrdd iechyd.

3. Thema Tri: **Llywodraethu**

Barnwyd bod wyth o'r deg argymhelliad yn oren, un yn wyrdd ac un yn goch. Roedd tîm yr adolygiad yn arbennig o bryderus ynghylch diffyg cofnodion iechyd electronig. Dangoswyd tystiolaeth i'r tîm o'r system 'rhoi pethau'n iawn' a sgrymiau diogelwch ond dywedodd staff fod llawer o ddyblygu ac ailadrodd mewn gwahanol gyfarfodydd. Ar ben hynny, roedd rhai cleifion y siaradodd tîm yr adolygiad â nhw yn anfodlon ar sut yr ymdriniwyd â chwynion, ac roedd nifer o gwynion hwyr. Nid oedd yn glir bod y dysgu wedi'i ledaenu ar draws y bwrdd nac wedi cyrraedd staff mewn meysydd clinigol. Roedd y nifer fawr o swyddi dros dro hefyd yn bryder penodol i'r tîm.

4. Thema Pedwar: **Staffio**

Cafodd dau o'r saith argymhelliad eu sgorio'n wyrdd, roedd pedwar yn oren ac roedd un yn goch. Nid oedd nyrs ymgynghorol gyda chyfrifoldeb penodol dros ddementia yn y gyfarwyddiaeth wedi cael ei phenodi. Roedd tîm yr adolygiad yn bryderus ynghylch y diffyg mewnbyn seicolegol a gwaith amlddisgyblaethol yn uned Hergest. Roedd anawsterau parhaus o ran sicrhau lefelau staffio, ond cafwyd llawer o fentrau o ran recriwtio a chadw staff a chafodd y rhaglen Steamliners dderbyniad da.

5. Thema Pump: **Strwythur rheoli**

Roedd dau o'r tri argymhelliad yn goch ac roedd un yn oren. Roedd y nifer fawr o swyddi dros dro yn bryder penodol i'r tîm adolygu. Nid oeddent yn glir bod mewnbyn amlddisgyblaethol llawn ar lefel uwch reolwyr ac nid oeddent yn credu bod y gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion hŷn wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y strwythurau rheoli.

6. Thema Chwech: **Trefnu gwasanaethau clinigol**

Roedd saith o'r deg argymhelliad yn y thema hon yn oren, un yn goch a dau yn wyrdd.

Nododd tîm yr adolygiad ei bod yn dal yn anodd llenwi swydd barhaol mewn seiciatreg henoed, yn enwedig yn y sector gorllewinol ac roedd diffyg gwaith amlddisgyblaethol yn yr uned cleifion mewnol ym Mangor. Roedd diffyg mynediad at therapiau seicolegol a

galwedigaethol yno hefyd. Roedd tîm yr adolygiad yn bryderus nad oedd y nyrs ymgynghorol ar gyfer dementia wedi'i phenodi ac nad oedd y nyrs datblygu ymarfer yn canolbwyntio'n benodol ar ofal dementia. Nid oedd model clir y cytunwyd arno o ofal clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd.

7. Thema Saith: **Hyfforddi a datblygu**

Cafodd pedwar argymhelliad eu sgorio'n wyrdd, roedd tri yn oren ac roedd un yn goch. Roedd tîm yr adolygiad yn bryderus nad oedd llawer o ymgysylltu â rhwydweithiau allanol. Mae angen gwneud rhagor o gynnydd o ran recriwtio staff nyrsio ymgynghorol a datblygu ymarfer ym maes dementia. Roedd tîm yr adolygiad yn falch o weld y bwrdd yn cefnogi cynorthwywyr gofal iechyd i hyfforddi fel staff nyrsio.

8. Thema Wyth: **Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu â Staff**

Rhodddwyd sgôr gwyrdd i bedwar o'r chwe argymhelliad ac roedd dau yn oren. Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth o well ymgysylltu â staff, ond nid oedd hyn yn gyson ar draws y bwrdd iechyd.

9. Thema Naw: **Adnoddau**

Rhodddwyd sgôr gwyrdd i ddau o'r pedwar argymhelliad ac roedd dau yn oren. Roedd tîm yr adolygiad yn poeni am y diffyg mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer cleifion mewnol yn y sector gorllewinol, gan ddod i'r casgliad bod angen datblygu mwy ar waith amlddisgyblaethol yno a bod angen datblygu rôl fferylliaeth ymhellach.

10. Thema Deg: **Amgylchedd ffisegol**

Roedd dau o'r tri argymhelliad yn oren ac roedd un yn wyrdd. Mae tîm yr adolygiad yn argymhell bod sylw brys yn cael ei roi i sicrhau bod yr holl waith adfer sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch cleifion yn cael ei gwblhau, ac mae hyn yn berthnasol i risgiau clymu. Nid oedd llinell amser glir i sicrhau bod yr argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol yn ystod arolygiadau diweddar wedi cael eu cyflawni.

4. **Trafodaethau gyda theuluoedd sydd â phrofiad o wasanaethau**

Cynhaliwyd trafodaethau gyda theuluoedd sydd â phrofiad o wasanaethau. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod y rhai a oedd wedi profi gofal gwael yn y gorffennol yn gallu dylanwadu ar y ffordd y mae'r bwrdd iechyd yn ystyried y Gwasanaeth Adolygu Gwahoddedig a'r camau gweithredu posibl a'r camau nesaf ar gyfer gwella. Galluogwyd y trafodaethau hyn gan Llais sydd wedi bod yn gysylltiedig ers blynyddoedd lawer â gwaith ynghylch y pryderon a godwyd, yn ei rôl fel y cyn Gyngor Iechyd Cymuned. Roedd hi'n amlwg yn y trafodaethau hyn bod nifer o sylwadau a safbwyntiau gan y teuluoedd mewn perthynas â'r adroddiad IRS. Roedd siom nad oedd pob teulu â phrofiad wedi cyfrannu at yr adolygiad, ond croesawyd y cyfarfod i ystyried y ffordd ymlaen.

Yn ystod y trafodaeth, trafodwyd nifer o themâu allweddol gan gynnwys:

- Atebolrwydd
- Pwrpas wardiau/unedau
- Safonau – gwybod sut beth yw da
- Diwylliant – gan gynnwys amgylchedd sy'n croesawu ac yn cefnogi staff sy'n dweud eu dweud

- Arweinyddiaeth
- Safoni
- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Uchelgais – gosod y bar yn rhy isel.

Teimlwyd yn gryf bod y ffordd yr oedd teuluoedd wedi cael eu trin yn y gorffennol yn dibrisio eu barn a'u sylwadau am y gofal a gafodd eu hanwyliaid. Yn gryno, nid oeddent yn cael eu credu. Credwyd yn gryf hefyd bod HASCAS yn anghywir yn eu hasesiad nad oedd unrhyw gam-drin sefydliadol gan gyfeirio at yr achos Nyrsio a Bydwreigiaeth fel tystiolaeth allweddol.

Roedd y trafodaethau hefyd yn ystyried y ffordd ymlaen, gyda rhai themâu a chamau gweithredu allweddol yn cael eu hawgrymu, gan gynnwys:

1. Bod y bwrdd iechyd yn defnyddio'r arferion gorau o fannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, ac yn cyflwyno hynny i Ogledd Cymru.
2. Bod y Bwrdd yn cymryd peth amser i ystyried canfyddiadau'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, yn hytrach na symud yn rhy gyflym at 'gynllun gweithredu'.
3. Bod pobl 'y tu allan' i'r bwrdd iechyd yn helpu i roi cyngor i'r Bwrdd a throsolwg o sut mae gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u darparu.
4. Bod y Bwrdd yn tynnu allan rhai o'r elfennau o waith pellach sy'n ofynnol yn yr adroddiad, ac yn bwrw iddi 'cyn gynted â phosibl'.

5. Gwybodaeth allweddol arall

Mae gwrandawriad Addaswydd i Ymarfer gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi dod i ben yn ddiweddar. Roedd hyn yn edrych ar yr honiadau a oedd yn canolbwyntio ar Nyrs Gofrestredig o Ward Tawel Fan. Cafodd yr atgyfeiriad i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei wneud yn 2014 gan y bwrdd iechyd a chynhaliwyd y prif wrandawriad yn ystod mis Ebrill 2024. Canlyniad y gwrandawriad oedd bod amhariad ar Addaswydd yr unigolyn i Ymarfer a bod honiadau wedi'u profi ar sail tebygolrwydd. Roedd yr honiadau a brofwyd yn ymwneud â defnyddio grym yn ddiangen i drin pen-glin claf wrth ei gynorthwyo i mewn i gadair olwyn; bod y claf wedi cael ei gicio sawl gwaith i'w annog allan o swyddfa'r nyrs; a bod meddyginiaeth wedi cael ei rhoi'n orfodol.

Cafodd yr unigolyn ei dynnu oddi ar gofrestr nyrsys y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

6. Ymateb Cychwynnol

Mae llawer i'w ystyried mewn perthynas â'r adroddiad IRS, gan gynnwys barn rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys teuluoedd sydd â phrofiad o wasanaethau. Awgrymir bod cyfnod o 4 – 6 wythnos yn cael ei ddefnyddio i ystyried y camau nesaf yn ofalus, gan gynnwys barn teuluoedd sydd â phrofiad o wasanaethau, a ddisgrifiwyd uchod.

Dylai'r ystyriaeth hon ystyried y cynlluniau gwella sydd eisoes ar waith, gan flaenoriaethu nodi'n benodol y camau hynny lle gellid bwrw iddi 'cyn gynted â phosibl'.

Mewn perthynas â rhai agweddau ar y canfyddiadau, mae camau gweithredu'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Un enghraifft yw defnyddio cofnodion electronig ar gyfer iechyd meddwl. Mae hyn wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd ac mae trafodaethau sylweddol wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y ffordd ymlaen i gaffael a gweithredu system o'r fath. Rhagwelir y bydd yr achos yn cael ei gyflwyno yn y misoedd

nesaf ar gyfer penderfyniad. Mae'r gwasanaeth eisoes yn gweithio ar baratoi ar gyfer gweithredu.

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd gynnig ymddiheuriad cyhoeddus pellach i rai gan Fyrddau blaenorol ynghylch y gofal gwael a ddarparwyd yn y gorffennol ac am brofiad y rhai a oedd yn mynegi'r pryderon.

Mae'n amlwg bod y GIG yng Ngogledd Cymru, ac yn benodol y bwrdd iechyd, wedi siomi cleifion a'u teuluoedd ar adeg pan oeddent fwyaf agored i niwed. Rhaid i'r digwyddiadau sydd wedi bod yn destun adolygiad sylfaenol a phwysig barhau i fod yn destun edifeirwch sylweddol, a bod yn rheswm dros wneud gwelliannau.

Mae angen ailddatgan ymrwymiad y bwrdd iechyd i ddarparu'r gwasanaeth iechyd a gofal gorau posibl i bobl sydd â dementia yn benodol, yn ogystal â phobl y mae angen gwasanaethau iechyd meddwl ehangach arnynt. Mae'r gwaith i gyrraedd y nod hwn bellach yn symud i'r cam nesaf ac mae'r adroddiad a ddarperir gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion yn cynnig pwynt pwysig i'w ystyried ynghylch y camau pellach sy'n ofynnol.

7. Y ffordd ymlaen a'r camau nesaf a gynigir

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- **Ystyried** adroddiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a chanfyddiadau allweddol yr adolygiad.
- **Ystyried** barn teuluoedd sydd â phrofiad o ofal, eu hadborth ar yr adroddiad ac ystyried yn feirniadol y ffordd orau ymlaen
- **Ailddatgan** o'r newydd, yr ymddiheuriad i bobl a gafodd eu siomi gan y bwrdd iechyd a arweiniodd at yr adolygiadau a gynhaliwyd i nodi methiannau.
- **Cytuno** ar gyfnod o ystyriaeth i lunio ymateb ffurfiol i ganfyddiadau'r Adolygiad a barn teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llais.
- **Ystyried** yr ymateb mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd, sydd wedi'i drefnu ar hyn o bryd ar gyfer mis Gorffennaf 2024.

Teitl adroddiad: <i>Report title:</i>	Stori'r Claf - Tîm Atal Strôc Cymunedol			
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Y Bwrdd			
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	30 Mai / May 2024			
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	Cyflwynir hanes claf neu hanes gofalwr i'r Bwrdd er mwyn dod â llais y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu yn uniongyrchol i'r cyfarfod. Bydd y stori ddigidol yn cael ei chwarae yn y cyfarfod. Mae crynodeb byr wedi'i gynnwys yn y papur sydd wedi'i atodi.			
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn.			
Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i>	Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth			
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Mandy Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Leon Marsh, Pennaeth Profiad Cleifion Rachel Wright, Rheolwr Arweiniol Profiad Cleifion a Gofalwyr Hannah Hughes, Rheolwr Prosiect Profiad Cleifion a Gofalwyr			
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Am sicrwydd <i>For Assurance</i> <input checked="" type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: <i>Assurance level:</i>	Arwyddocaol <i>Significant</i> <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol <i>Acceptable</i> <input checked="" type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol <i>Partial</i> <input type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd <i>No Assurance</i> <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>No confidence / evidence in delivery</i>
<p>Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gael sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn: <i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i></p>				
Yn unol â'r arferion gorau, mae stori claf neu ofalwr yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd er mwyn dod â llais y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu, yn uniongyrchol i'r cyfarfod, ond nid yw'n cael ei chyflwyno fel eitem sicrwydd. Fodd bynnag, mae'r papur cysylltiedig yn disgrifio rhywfaint o'r dysgu a'r camau a gymerwyd i ymateb i'r stori.				
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: <i>Link to Strategic Objective(s):</i>	Ansawdd			
Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol: <i>Regulatory and legal implications:</i>	Amherthnasol			
Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal? <i>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</i>	Amherthnasol			
Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?	Amherthnasol			



<i>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</i>	
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol) <i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</i>	BAF21-10 – Gwrando a Dysgu
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith <i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i>	Amherthnasol
Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith <i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i>	Amherthnasol
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori <i>Feedback, response, and follow up summary following consultation</i>	Amherthnasol
Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) <i>Links to BAF risks:</i> (<i>or links to the Corporate Risk Register</i>)	BAF21-10 – Gwrando a Dysgu
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) <i>Reason for submission of report to confidential board (where relevant)</i>	Amherthnasol
Y Camau Nesaf: Gweithredu'r argymhellion <i>Y Camau Nesaf: Implementation of recommendations</i> Amherthnasol	
Rhestr o Atodiadau: <u>Stroke Prevention Patient Story Stori Claf Atal Stroc.mov</u> <u>Welsh Subtitles - Community Stroke Prevention Patient Story.mov</u> <u>English Subtitles - Community Stroke Prevention Patient Story.mov</u> <i>Rhestr o Atodiadau:</i> Atodiad A - Crynodeb o Stori'r Claf	

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Stori'r claf – Tîm Atal Strôc Cymunedol

Bydd stori sain yn cael ei chwarae yn y cyfarfod.

Trosolwg o Stori'r Claf

Fe wnaeth y storiwr gyfarfod â'r Tîm Atal Strôc Cymunedol mewn digwyddiad atal strôc yng Ngorsaf Drenau y Rhyl mewn cydweithrediad â Mind sy'n elusen iechyd meddwl. Cafodd y storiwr gynnig archwiliad pwysedd gwaed ac fe wnaeth yr archwiliad ganfod bod ganddi bwysedd gwaed uchel. Cafodd y storiwr wybodaeth ymyriad byr am arwyddion strôc, ffyrdd iach o fyw a llythyr i'w rhoi ar 'drac cyflym' i'r meddyg teulu am gymorth, cefnogaeth a meddyginiaeth barhaus. Fe wnaeth ECG roi diagnosis o guriad calon afreolaidd a churiad calon cyflym i'r storiwr, na fyddai'n ymwybodol ohono fel arall.

Yn ôl y Gymdeithas Strôc, mae tua 100,000 o bobl yn y DU yn cael strôc bob blwyddyn. Mae tua 7,676 o'r rheini yng Nghymru. Mae gan y Bwrdd Iechyd 711, 489 o gleifion cofrestredig, ac mae 15,540 ohonyn nhw wedi cael strôc neu TIA (pwl o isgemia dros dro). Cost gyfartalog gofal claf strôc, o'i dderbyn i'r ysbyty i'w ryddhau, yw £23, 315. Credir bod modd atal 90% o strociau. Dyma ffocws gwaith y Tîm Atal Strôc Cymunedol.

Negeseuon Allweddol

- Fe wnaeth y storiwr gyfarfod â'r Tîm Atal Strôc Cymunedol mewn digwyddiad atal strôc yng Ngorsaf Drenau y Rhyl mewn cydweithrediad â Mind.
- Gan fod ganddi bwysedd gwaed uchel, cafodd y storiwr wybodaeth ymyriad byr am arwyddion strôc, ffyrdd iach o fyw a llythyr i'w rhoi ar 'drac cyflym' i'r meddyg teulu am gymorth a chefnogaeth barhaus.
- Cafodd y storiwr feddyginiaeth pwysedd gwaed yn gyflym gan y meddyg teulu a chafodd ei hatgyfeirio am Electrocardiogram (ECG). Cafodd y storiwr ddiagnosis o guriad calon afreolaidd a churiad calon cyflym i'r storiwr, na fyddai'n ymwybodol ohono fel arall.
- Fe wnaeth cwrdd â'r Tîm Atal Strôc Cymunedol alluogi'r storiwr i gael gafael ar yr help yr oedd ei angen arni a hynny yn gyflym. Fe wnaeth y storiwr gydnabod caredigrwydd staff y tîm a phwysigrwydd y digwyddiadau yn y gymuned.
- Mae'r tîm Atal Strôc Cymunedol yn cynnwys 3 Ymarferydd Atal Strôc Cymunedol ac mae eu gwaith yn canolbwyntio ar dri nod:
 - Atal Strôc Sylfaenol ac Ymwybyddiaeth o Iechyd y Cyhoedd
 - Atal Strôc Eilaidd
 - Addysg i Staff, y Cyhoedd a Gofalwyr.
- Mae'r tîm yn aelodau gweithgar o Fforwm Nyrsys Strôc Cymru a nhw yw'r unig dîm atal strôc penodol yng Nghymru.

Crynodeb o Ddysgu a Gwelliannau

Yn 2021/22, cafodd y Cynllun Gwella Strôc ei roi ar waith i wella gwasanaethau strôc ar draws Gogledd Cymru yn unol â Strategaeth 'Byw'n Iachach, Aros yn Iach' y Bwrdd Iechyd i wella'r llwybr strôc cyfan ar draws Gofal Sylfaenol, Gofal Aciwt a Gwasanaethau Cymunedol, o ffyrdd iach o fyw i ymyriadau arbenigol, ac roedd ganddo 4 maes allweddol:

1. **Gwasanaeth Rhyddhau Cynnar gyda Chymorth (ESD)** i helpu cleifion cymwys i wella gartref, yn hytrach nag mewn ysbyty neu leoliad clinigol gydag ailsefydlu strôc arbenigol gan dîm amlddisgyblaethol.
2. **Canolfannau Adsefydlu Cleifion Mewnol Arbenigol Strôc (SSIR)** ar gyfer cleifion oedd ddim angen triniaeth mewn ysbyty aciwt, ond a oedd yn dal i fod angen gwasanaeth adsefydlu strôc arbenigol nad oedd modd ei ddarparu gartref yn Ysbyty Eryri, Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy.
3. **Datblygiadau yn y Gwasanaeth Aciwt** yn Ysbyty Glan Clwyd (Ward 14), Ysbyty Gwynedd (Ward Prysor) ac Ysbyty Maelor Wrecsam (Ward Bersham) i wella ymateb clinigol a sgoriau Rhaglen Archwilio Cenedlaethol Sentinel Strôc (SSNAP), perfformiad a llif cleifion a chyflwyno 'e-Stroke' Brainomix i ddarparu cymorth cyflym a manwl i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhoi diagnosis ac yn trin strôc.
4. **Atal Strôc Cymunedol** i wreiddio ataliad fel rhan hanfodol o'r Llwybr Strôc. Cafodd y Tîm Atal Strôc Cymunedol ei adfywio yn 2023 gyda thri Ymarferydd Atal Strôc Cymunedol newydd sy'n gweithio ar draws Cymunedau Iechyd Integredig y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, nhw yw'r unig Dîm Atal Strôc penodol yng Nghymru ac maen nhw'n arwain yr agenda iechyd ataliol yng Ngogledd Cymru. Mae eu gwaith yn canolbwyntio ar dri phrif nod:

Nod 1 – Atal Strôc Sylfaenol ac Ymwybyddiaeth o Iechyd y Cyhoedd:

Mae Atal Strôc Sylfaenol yn canolbwyntio ar atal digwyddiad strôc cyntaf unigolyn. Y nod yw canfod pobl sydd â Ffibriliad Atriaidd heb ddiagnosis (arhythmia'r galon), pwysedd gwaed uchel a hyperlipidaemia (colesterol uchel) a darparu ymyriad cynnar i addasu'r risgiau hyn. Mae atal strôc hefyd yn edrych ar ddiabetes sy'n gysylltiedig â'r ffactorau risg hyn ac yn helpu i newid ffyrdd aniach pobl o fyw.

Mae'r tîm yn mynd i ddigwyddiadau hybu iechyd ac yn cysylltu â chanolfannau a grwpiau cymunedol i gynig archwiliadau iechyd cyflym i'r grwpiau hynny sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar ofal sylfaenol, fel y rheini sy'n gofalu am rywun sydd wedi cael diagnosis o Dementia a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Bydd y tîm yn mynd i ddigwyddiadau wedi'u trefnu, gweithleoedd, canolfannau cymunedol a mannau cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cynnig archwiliadau pwysedd gwaed a phwls, cyngor ar roi'r gorau i ysmegu, cyngor ar leihau alcohol a ffyrdd iach o fyw, cymorth ac atgyfeiriadau i wahanol wasanaethau fel Gofal Sylfaenol lle bo angen. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi mynd i dros 40 o ddigwyddiadau ac wedi ymgysylltu â dros fil o aelodau o'r gymuned.

Mae'r camau nesaf o ran Atal Strôc Sylfaenol yn cynnwys cynnal adolygiad tri mis gyda Gofal Sylfaenol yn dilyn cleifion gydag ymyrraeth wedi'i gynghori a chyflwyno Profion

Colesterol Pwynt Gofal mewn digwyddiadau i ddarparu asesiad mwy trylwyr i aelodau o'r cyhoedd gan gynnwys pob ffactor risg strôc.

Nod 2 – Atal Strôc Eilaidd:

Mae'r ail nod yn canolbwyntio ar Atal Strôc Eilaidd, sy'n helpu goroeswyr strôc a'u hanwyliaid i reoli risg barhaus. Mae gan y grŵp hwn risg uwch oherwydd eu bod eisoes wedi cael strôc.

Mae'r tîm wedi canolbwyntio ar greu cysylltiadau gyda grwpiau goroeswyr strôc lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o atal strôc eilaidd, atgyfeirio at wasanaethau perthnasol sydd ar gael yn y gymuned a chasglu adborth cleifion ar sut y byddai modd gwella gofal ar ôl strôc. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn gweithio gyda Gofal Sylfaenol i wella cydymffurfiaeth â'r Adolygiadau Strôc Blynyddol ar gyfer cleifion strôc ac wedi rhoi sgwrsiau ar risg i unigolion sydd â chlefyd cardiofasgwlaidd. Mae'r tîm yn cynnig sesiynau cymorth rheolaidd i deuluoedd a gofalwyr goroeswyr strôc. Mae'r tîm yn treialu hyn ar y cyd â'r Unedau Adsefydlu Arbenigol Strôc yng Nghymuned Iechyd Integredig y Canolbarth ac yn gobeithio ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.

Mae'r camau nesaf o ran Atal Strôc Eilaidd yn cynnwys datblygu Rhaglen Hunanofal Strôc. Mae'r tîm hefyd wrthi'n datblygu Grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd i wella darpariaeth y gwasanaeth Atal Strôc ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae cyfranogiad yn golygu rhoi adborth a rhannu barn. Mae croeso i bawb ac mae'r tîm wrthi'n recriwtio aelodau sydd â diddordeb mewn gofal strôc, gan gynnwys goroeswyr strôc, gofalwyr strôc, pobl y mae strôc wedi effeithio arny'n nhw ac unigolion sy'n gweithio ym maes gofal strôc.

Nod 3 - Addysg i Staff, y Cyhoedd a Gofalwyr:

Y trydydd nod yw addysg ynglŷn â risg a rheoli strôc.

Mae'r tîm wedi datblygu Rhaglen Hyfforddiant Atal Strôc ar gyfer holl staff y Bwrdd Iechyd gyda Hyfforddiant Cofnod Staff Electronig (ESR) yn dechrau ym mis Ionawr 2024. Mae'r tîm yn cynnig sesiynau wyneb yn wyneb a sesiynau Microsoft Teams i staff er mwyn cynyddu eu cymhwysedd a'u gwybodaeth am strôc a risg. Mae sesiynau wedi'u teilwra ar gael i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd a Nyrsys Cofrestredig. Mae'r sesiynau'n para rhwng 1-2 awr ac yn ymdrin â phynciau priodol, gan gynnwys diffinio strôc, ffactorau risg, Ffibriliad Atriaidd, pwysedd gwaed uchel, gwirio pwls ac effaith gwella ffyrdd o fyw. Hyd yma, mae'r tîm wedi hyfforddi dros 100 o staff a myfyrwyr o gefndiroedd gwahanol ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm hefyd ar gael i roi cyngor a chymorth ynglŷn â risg strôc.

Mae'r tîm hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu diogel, effeithiol a phroffesiynol i fyfyrwyr nyrsio. Gall myfyrwyr nyrsio drefnu diwrnod gyda'r tîm i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu deilliannau dysgu ymarferol sy'n cyd-fynd â'u cwrmpas ymarfer.

Mae'r camau nesaf o ran Addysg Strôc yn cynnwys cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant, ehangu sesiynau addysg i sefydliadau'r trydydd sector a'r cyhoedd a chreu pecyn E-ddysgu Atal Strôc i'w orfodi bob 3 blynedd.

Canolbwyntio ar wella profiadau cleifion:

Ar lefel genedlaethol, mae'r tîm yn aelodau gweithgar o Fforwm Nyrsys Strôc Cymru. Mae'r fforwm yn cynnwys nyrsys cofrestredig sydd mewn rolau ar draws y llwybr strôc. Mae'n lle ar gyfer rhannu profiadau a dysgu ar y cyd, gan arddangos datblygiadau ac arloesedd, rhwydweithio a rhannu arferion gorau gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau strôc a phrofiadau cleifion ledled Cymru.

Ar ddiwedd 2023, gweithiodd y Bwrdd Iechyd gyda GIG Cymru i gynnal Arolwg Cenedlaethol o Brofiad Cleifion Strôc. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i adolygu'r Llwybrau Strôc er mwyn sicrhau bod llais y claf yn ganolog i'r gwasanaethau. Mae'r Tîm Atal Strôc Cymunedol hefyd yn gweithio ar y cyd â'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr i gasglu adborth rheolaidd gan gleifion, perthnasau a gofalwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau i gefnogi datblygiadau gwasanaeth parhaus.

Bydd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn rhannu'r adborth hwn ac yn gofyn am sicrwydd gan bob adran drwy dystiolaeth bod y dysgu wedi ei wreiddio. Bydd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn rhannu Stori'r Claf hwn yn eang yn ystod mis Mai fel rhan o Fis Ymwybyddiaeth Strôc i ledaenu'r gair am atal, cydnabod a thrin strôc. Drwy godi ymwybyddiaeth, gallwn ni helpu mwy o bobl i ddeall y ffactorau risg, y rhybuddion a'r camau i'w cymryd os bydd rhywun yn cael strôc. Yn y pen draw, gall yr wybodaeth hon achub bywydau a gwella canlyniadau i oroeswyr strôc. Rydym ni'n annog staff ar draws y Bwrdd Iechyd i rannu'r hashnod **#makemaypurple** yn ystod Mis Ymwybyddiaeth Strôc.

Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn estyn eu diolch a'u gwerthfawrogiad i'r storïwr am rannu ei phrofiad.



Teitl adroddiad: <i>Report title:</i>	Adroddiad Profiad Dinasyddion			
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr			
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	Dydd Iau 30 Mai 2024			
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	<p>Dyma'r ail adroddiad i'r Bwrdd yn crynhoi themâu ein hymwneud â dinasyddion. Mae'n cwmpasu'r tri mis diwethaf o amrywiaeth o ffynonellau.</p> <p>Mae'n cynnwys y ffordd rydym yn rhyngweithio o ddydd i ddydd â chleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd, y sgysiau rydym yn eu cael â'r cyhoedd a phartneriaid yn eu cymunedau ac mewn digwyddiadau, gohebiaeth gan Aelodau Senedd Cymru a Senedd y DU, a gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â dinasyddion a gynhelir gan Llais.</p> <p>Mae'n adrodd ar y themâu allweddol o'r rhyngweithio a'r sgysiau hynny. Nid yw'n manylu ar sut mae Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r materion ond mae'n cyfeirio at y papurau hynny yng nghyfarfod y Bwrdd lle maent yn cael eu datblygu.</p> <p>Bydd yr holl gwestiynau i'r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd yn parhau i gael eu hateb a gall pobl ddisgwyl atebion uniongyrchol i'w hymholiadau.</p>			
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad.			
Cyflwynwyd yr adroddiad gan:	Dyfed Edwards, Cadeirydd			
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Helen Stevens Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu			
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input checked="" type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Am sicrwydd <i>For Assurance</i> <input checked="" type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: <i>Assurance level:</i>	Arwyddocaol Significant <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol Acceptable <input checked="" type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol Partial <input type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd No Assurance <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>No confidence / evidence in delivery</i>

<p>Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gael sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:</p> <p><i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i></p>	
<p>Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:</p> <p><i>Link to Strategic Objective(s):</i></p>	<p>Mae cynnwys a deall profiad ein dinasyddion yn ganolog i holl amcanion a chynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd</p>
<p>Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:</p> <p><i>Regulatory and legal implications:</i></p>	<p>Nid oes goblygiadau cyfreithiol ar wahân i nodi bod gan bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion. Mae hyn wedi cael ei gryfhau drwy amrywiaeth o bolisiâu a deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, fel Deddf y GIG (Cymru) 2006</p>
<p>Yn unol â WP7 (sydd bellach yn cynnwys WP68), a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP7 (which now incorporates WP68) has an EqIA been identified as necessary and undertaken ?</i></p>	<p>Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.</p>
<p>Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)</p> <p><i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</i></p>	<p>Nid oes risgiau penodol yn deillio o'r papur hwn.</p>
<p>Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	<p>Nid oes goblygiadau ariannol penodol yn deillio o'r adroddiad hwn</p>
<p>Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	<p>Nid oes goblygiadau penodol i'r gweithlu yn deillio o'r papur hwn.</p>
<p>Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori</p> <p><i>Feedback, response, and follow up summary following consultation</i></p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:</p>	<p>Amherthnasol</p>

<p>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)</p> <p>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</p>	
<p>Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)</p> <p><i>Reason for submission of report to confidential board (where relevant)</i></p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Y Camau Nesaf: Gweithredu'r argymhellion</p> <p>Y Camau Nesaf: <i>Implementation of recommendations</i></p>	
<p>Rhestr o Atodiadau: Dim</p> <p>List of Appendices: None</p>	

MAI 30 2024

ADRODDIAD PROFIAD DINASYDDION

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r themâu o'n cysylltiad â dinasyddion dros y ddau fis diwethaf. Mae'n cynnwys y ffordd rydym yn rhyngweithio o ddydd i ddydd â chleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd, y sgysiau rydym yn eu cael â'r cyhoedd a phartneriaid yn eu cymunedau ac mewn digwyddiadau, gohebiaeth gan Aelodau Senedd Cymru a Senedd y DU, a gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â dinasyddion a gynhelir gan Llais.

1.2 Mae gwrando ar brofiadau dinasyddion Gogledd Cymru a'u deall yn hanfodol er mwyn gwella'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn darparu gofal a gwasanaethau. Mae casglu'r wybodaeth hon yn ein galluogi ni i ddeall y materion sy'n bwysig i'n poblogaeth. Rydym yn benderfynol o wneud gwelliannau parhaus ac mae ein staff a dinasyddion Gogledd Cymru yn dod at ei gilydd yn fwy rheolaidd i ddatrys ein problemau parhaus.

2. Themâu gan gleifion, gofalwyr a theuluoedd drwy ein timau mewnol

2.1 Mae ein Gwasanaeth Cleifion, Cyngor a Chyswllt yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddatrys problemau a phryderon am ein gwasanaethau. Bob wythnos maen nhw'n siarad â channoedd o gleifion, gofalwyr a theuluoedd.

2.2 Rhwng 1 Chwefror 2024 a 30 Ebrill 2024, cofnododd PALS 1564 o achosion. Roedd 1334 ohonynt yn ymholiadau, roedd 198 yn ganmoliaethus ac roedd 32 yn awgrymiadau. Mae'r themâu allweddol a nodwyd o ymholiadau PALS yn ystod y cyfnod adrodd hwn, sy'n cyd-fynd â'r tri phrif faes cwynion, yn cynnwys:

- Oedi o ran apwyntiadau / amseroedd aros
- Oedi/diffyg triniaeth neu asesiad
- Cyfathrebu â theuluoedd

2.3 O 1 Chwefror 2024 i 30 Ebrill 2024, cafwyd 13,077 o ymatebion i arolwg Adborth Amser Real Cymru Gyfan.

Mae prif ganfyddiadau adborth yr arolwg amser real yn cynnwys:

- Roedd 81.13% o'r ymatebwyr yn fodlon â'u profiad cyffredinol
- Roedd 80.53% o'r ymatebwyr bob amser yn cael yr holl wybodaeth oedd ei hangen
- Roedd 83.62% o'r ymatebwyr bob amser yn teimlo bod rhywun yn gwrando arny'n nhw
- Roedd 80.27% o'r ymatebwyr yn teimlo bod staff bob amser wedi rhoi o'u hamser i ddeall beth oedd yn bwysig iddyn nhw fel unigolyn ac wedi ystyried hyn wrth gynllunio a darparu eu gofal.

Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud:

“Hoffwn ddiolch o galon i wasanaeth GIG Betsi Cadwaladr. Wythnos yn ôl, cafodd un o'm hwyron godwm yn ein gardd, gyrrais ef yn fy nghar yn syth i'r Adran Achosion Brys ac aeth drwodd yn syth gan fod y gweithredwr 999 eisoes wedi rhoi gwybod iddynt ein bod ni ar ein ffordd. Cafodd belydr-x a'i asesu ar gyfer llawdriniaeth frys, a ddigwyddodd dim ond 2 awr a hanner ar ôl i ni gyrraedd. Roedd pob aelod o staff a helpodd yn wych. Alla' i ddim diolch digon i chi. Mae gennych chi bobl wych yn gweithio yn eich timau”

“Ers i mi gael fy nghyfeirio, mae'r tîm cyn-adsefydlu yn Wrecsam wedi gwneud cymaint o argraff arnaf. Cefais alwad ffôn gyfeillgar a chroesawgar yn trefnu fy apwyntiadau, a wnaeth i mi deimlo'n gyfforddus yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cefais asesiad trylwyr a oedd yn teilwra fy rhaglen ymarfer corff, cyngor arbenigol ar ddeiet a hyfforddiant seicolegol cefnogol a chymorth sydd wedi paratoi mwya'r hyn y gallwn ei gyflawni fy hun ar gyfer fy llawdriniaeth. Mae'r tîm wedi mynd yr ail filltir i'm cefnogi ac alla i ddim diolch digon iddyn nhw”

2.4 Rhwng 1 Chwefror 2024 a 30 Ebrill 2024, cafwyd 106 o ymatebion i arolwg Adborth Adrannau Achosion Brys Amser Real Cymru Gyfan. Mae'r cyfraddau ymateb yn isel ar hyn o bryd ac mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn gweithio gyda Phenathiaid Nyrsio a thimau Gwasanaethau Brys i wella'r gyfradd ymateb ac adborth, er mwyn gallu nodi patrymau a thueddiadau a dysgu cysylltiedig, a rhoi cynlluniau gwella ar waith.

2.5 Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr hefyd yn bwrw ymlaen â gweithredu arolygon adborth SMS i gleifion sydd wedi bod yn yr Adran Achosion Brys. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gleifion roi adborth ar eu profiad diweddar yn dilyn eu hymweliad â'r Adran Achosion Brys.

Mae prif ganfyddiadau'r adborth amser real yn cynnwys:

- Roedd 91.53% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn aros yn llawer rhy hir ar sail yr amser yr oedd arnynt ei angen i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn
- Roedd 46.23% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael gofal da weithiau
- Roedd 21.90% o'r ymatebwyr bob amser yn teimlo bod rhywun yn gwrando arny'n nhw
- Roedd 15.09% o'r ymatebwyr yn cael cymorth pan oedd angen
- Roedd 20.75% o'r ymatebwyr bob amser yn teimlo bod pethau'n cael eu hegluro mewn ffordd y gallent ei deall.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gyflwyno'r system adborth amser real i bob ward ac ardal yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) ac o fewn Gwasanaethau Canser.

3. Sgyrsiau yn y gymuned

3.1 Mae sgyrsiau cymunedol yn cynnwys ymgysylltu a thrafodaethau ffurfiol ac anffurfiol gyda'r cyhoedd, staff cleifion a phartneriaid. Mae gweithgareddau ymgysylltu allweddol yn ystod y tri mis diwethaf wedi cynnwys “sgyrsiau iechyd” y Bwrdd Iechyd, Cnoi Cil ar Iechyd, digwyddiadau llesiant a rhwydweithiau.

3.2 Mae pedair sesiwn ymgysylltu â'r gymuned gan y Bwrdd wedi cael eu cynnal mewn canolfannau cymunedol yn Ninbych, Wrecsam, Bangor a Chaerdybi. Roedd pob digwyddiad yn gyfle i gymunedau lleol glywed gan y Bwrdd lechyd am ddatblygiadau yn eu hardal a siarad ag aelodau'r Bwrdd lechyd am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn a allai fod yn well.

Roedd themâu cyffredinol a phenodol i ardaloedd yn dod i'r amlwg o'r sgysiau hyn.

Roedd y materion cyffredinol yn cynnwys gwrando ar a chynnwys pobl yn eu gofal a'u triniaeth, mynediad at apwyntiadau, amseroedd aros hir, cyfathrebu gwael a chyfeirio pobl at y gwasanaeth a'r wybodaeth iawn.

Roedd y themâu a oedd yn benodol i Ddinbych yn cynnwys dim uned mân anafiadau yn yr ardal, gofynnwyd am ddiweddariad ar y datblygiadau arfaethedig yn Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl a'r anhawster i gael apwyntiad meddyg teulu mewn meddygfa ym Mhrestatyn

Roedd y themâu a oedd yn benodol i Wrecsam yn cynnwys y sefyllfa wael o ran parcio yn Ysbyty Maelor Wrecsam, yr angen am gyfathrebu agored a thryloyw ynghylch practisau meddygon teulu sy'n cael eu rhedeg gan BIPBC a gofal offthalmoleg brys rhagorol gydag optegydd cymunedol.

Roedd y themâu a oedd yn benodol i Fangor yn cynnwys cais am well ymgysylltiad â'r cyhoedd a phartneriaid wrth gynllunio datblygiad Canolfan lechyd a Llesiant Bangor. Tynnwyd sylw at Feddygfa Nefyn fel un o'r meddygfeydd sy'n gweithio'n dda, ysbytai cymunedol sy'n gweithredu yn yr ardal yn darparu gwasanaethau da a'r heriau sy'n wynebu'r gymuned fyddar fel cleifion mewnol ac mewn apwyntiadau.

Roedd y themâu a oedd yn benodol i Gaerdybi yn cynnwys diffyg deintyddion y GIG yn ardal Caerdybi a chael apwyntiadau meddygon teulu amserol. Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried datblygu Ysbyty Penrhos Stanley, gan greu cyfleuster mwy integredig gyda mwy o gyfle i drin pobl. Ar thema debyg, mae awydd am ganolfan iechyd "un stop" wedi ei hadeiladu'n bwrsol yng Nghaerdybi a allai ddarparu mwy o wasanaethau na'r hyn mae meddygfeydd meddygon teulu yn ei gynnig ar hyn o bryd.

3.3 Mae themâu cyffredinol ein holl sgysiau parhaus yr un fath, fwy neu lai:

- Amseroedd aros
- Mynediad
- Cyfathrebu

3.4 **Amseroedd aros** - mae llawer o bobl yn parhau i nodi amseroedd aros fel pryder allweddol. Gellir rhannu hyn yn amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Profion diagnostig
Pryderon ynghylch faint o amser mae'n ei gymryd i blant gael eu hatgyfeirio am ADHD, diagnosis o awtistiaeth, gyda rhai rhieni'n dweud eu bod wedi bod yn aros dros bedair blynedd am gymorth. Roedd canlyniadau amseroedd aros hir am brofion diagnostig hefyd yn codi pryderon os oedd claf yn profi cyflwr difrifol, e.e. canser, y gallai fod yn rhy hwyr i'r GIG ddarparu triniaeth effeithiol. Roedd pryderon eraill yn cynnwys yr amser i gael canlyniadau'n ôl.
- Gofal wedi ei gynllunio
Mae'r preswylwyr yn dal i dynnu sylw at y ffaith eu bod yn aros am weithdrefnau. Er bod pobl yn aros am amrywiaeth o driniaethau, fel triniaethau canser y croen, cyfeirir at orthopaedeg fel mater o drefn, yn enwedig yr aros hir am lawdriniaeth ar y glun a'r

pen-glin. Roedd rhai pobl yn poeni bod aros am ddyddiad llawdriniaeth wedi golygu bod eu cyflwr yn gwaethygu a bod lefel y boen yn parhau.

Unwaith y bydd pobl yn cael dyddiad ar gyfer eu llawdriniaeth, mynegwyd pryderon am y driniaeth yn cael ei chanslo neu ei gohirio. Mae rhai pobl yn dweud bod hyn wedi digwydd sawl gwaith.

Dyma rai o'r prif ddyfyniadau o'n trafodaethau ynghylch gofal wedi ei gynllunio:

Roedd y rhai a oedd **eisoes wedi cael clun/gliniau newydd** yn llawn canmoliaeth i'r gofal a dderbyniwyd a'r staff.

"gofal gwych, doedd dim modd ei guro..."

"...roedd y staff yn wych..."

"...roedd y gofal yn Abergele o'r radd flaenaf..."

Fodd bynnag, roeddent yn feirniadol o'r amser a gymerodd iddynt gael y llawdriniaeth:

"...Fe wnes i aros bron i bedair blynedd, ac erbyn i mi gael y llawdriniaeth doeddwn i ddim yn gallu cerdded ac roeddwn i mewn poen cyson..."

"...roedd yr amser y bu'n rhaid i mi aros yn golygu bod fy nghlun arall wedi gorfod cymryd y baich i gyd, a nawr mae angen i mi gael llawdriniaeth ar yr ochr honno, ac rwy'n dal i aros..."

Yn achos y **rhai a oedd yn aros**, roeddent yn sôn am yr effaith ddifrifol a gafodd hynny ar eu bywyd, a rhwystredigaeth o beidio â gwybod ble roedden nhw yn y 'ciw' (dim syniad pryd byddai'r llawdriniaeth yn digwydd)

"Roeddwn i'n arfer bod yn egnïol, nawr rydw i'n dibynnu ar declyn cymorth cerdded. Mae pethau'n gwaethygu, a dydw i ddim yn gwybod pryd bydda i'n cael y llawdriniaeth..."

"...Dwi'n ffonio ac yn gofyn pryd fydda i'n cael fy mhen-glin newydd a dydyn nhw ddim yn gallu dweud wrtha i, maen nhw'n dweud wrtha i nad oes ganddyn nhw syniad, mae'n rhwystredig iawn..."

O ran **pa mor bell roedd pobl yn barod i deithio**, dywedodd pawb y byddent yn teithio i unrhyw le pe bai'n golygu y byddent yn cael eu clun/pen-glin newydd:

"Byddwn i'n mynd i Dundee fory pe bai hynny'n golygu y byddwn i'n cael y llawdriniaeth..."

"...nid yw unrhyw le yn rhy bell os ydych chi angen y llawdriniaeth..."

"...Rydw i yn fy saithdegau, doeddwn i ddim yn gallu aros felly es i Lithwania i gael y llawdriniaeth, dyna pa mor bell rydw i'n barod i deithio..."

Wrth drafod y posibilrwydd o **ddod â mwy o wasanaethau at ei gilydd**, fel profion diagnostig, endosgopi, offthalmoleg, a mwy o lawdriniaeth ddewisol ar wahân i'r glun a'r pen-glin, roedd pobl yn gefnogol:

"...mae'n swnio fel syniad gwych - symud pethau draw o'r ysbyty prysur..."

"...mae'n gwneud synnwyr ei symud i un man lle gallwch chi fynd sydd ddim mor brysur..."

Yr un cafeat a ddefnyddiwyd gyda'r ardystiad hwn oedd na ddylai hyn arwain at le gorlawn lle mae'n anodd cael mynediad, gan ganolbwyntio'n benodol ar barcio ceir:

"...cyn belled nad yw'n mynd mor orlawn â'r ysbytai eraill yn yr ardal lle mae'n amhosibl parcio..."

Pan holwyd am **amgylchedd y cyfleusterau**, canolbwyntiwyd yn bennaf ar y gwasanaeth a dderbyniwyd a'r cyfeiriad y dylid gwario adnoddau'r GIG ar ddarparu yn hytrach na'r adeiladau:

"...cyn belled â'i fod yn lân a bod y staff yn ofalgar..."

"...peidio â gwastraffu arian ar adeiladau ffansi, dim ond gwneud y gwaith..."

3.5 Mynediad - mae mynediad at wasanaethau yn ymwneud yn bennaf â gofal sylfaenol a gofal wedi ei gynllunio.

- **Meddygon Teulu**

Mae amrywiaeth o bryderon wedi cael eu codi ynghylch mynediad at wasanaethau meddygon teulu, sy'n cynnwys cyswllt cychwynnol â'r feddygfa. Mae rhai pobl wedi tynnu sylw at faint o amser mae'n ei gymryd i gyrraedd eu meddygfa pan fyddant yn ceisio ffonio am apwyntiad.

Mae cael apwyntiad hefyd yn fater sy'n cael ei godi gan lawer o bobl. Gallai hyn gynnwys cael gwybod nad oes apwyntiadau y diwrnod hwnnw a ffonio eto y diwrnod wedyn, neu gael apwyntiad sawl wythnos ymlaen llaw.

Codwyd yr anghysondeb yn y modd mae meddygfeydd meddygon teulu unigol yn cynnig apwyntiadau. Er bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiad, roedd eraill yn ei chael hi'n hawdd mynd i'w meddygfa a chael apwyntiad ar gyfer y diwrnod hwnnw.

- **Parcio**

Mae parcio yn thema a godwyd gan bobl. Mae parcio mewn ysbytai yn anodd i lawer o bobl ac mae rhai pobl wedi awgrymu nad oes digon o fannau parcio i bobl anabl.

Mae llai o lefydd parcio yn aml yn digwydd oherwydd bod safleoedd yn cael eu datblygu ac mae angen sefydlu manau parcio ychwanegol cyn i'r gwaith gael ei wneud

- **Iaith**

Nid yw'n ymddangos bod rhai staff mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, Meddygon Teulu Lleol a deintyddfeydd wedi eu hyfforddi'n ddigonol, nac yn ymwybodol o'u dyletswyddau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu. Mae hyn wedi bod yn rhwystr ac yn destun rhwystredigaeth enfawr i rai cymunedau nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

3.6 Cyfathrebu – codwyd nifer o faterion y gellid eu categoreiddio dan thema cyfathrebu. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Adrannau/wardiau ddim yn ateb eu ffonau
- Cleifion yn cael trafferth cyrraedd y Bwrdd Iechyd i ganslo / newid eu hapwyntiadau
- Hyrwyddo gwybodaeth am bethau sy'n tarfu ar iechyd
- Diweddariadau rheolaidd i gleifion a phartneriaid cyhoeddus
- Mwy o addysg a defnyddio apiau fel ["askmyGP"](#)

4. Sgyrsiau digidol

4.1 Dros y ddau fis diwethaf, ymatebodd y tîm cyfathrebu digidol i 385 o negeseuon uniongyrchol. Lle bo modd, rydym yn ceisio datrys eu problemau gyda negeseuon sy'n ymwneud â gwybodaeth gyswllt ar gyfer gwasanaethau penodol neu gymorth i ddod o hyd

i wybodaeth ar ein gwefan. Lle nad yw hyn yn bosibl ac mae hyn yn ymwneud â phrofiad negyddol, byddwn yn eu hatgyfeirio at y tîm Cyngor a Chyswllt Cleifion. Dyma rai o themâu allweddol y negeseuon:

- Ymholiadau am frechiadau Covid
- Cwestiynau recriwtio neu wybodaeth am swyddi
- Profiadau o ymweld ag ysbytai
- Negeseuon cymdeithasol o ganmoliaeth i wardiau ar draws pob safle

4.2 Rydym yn cynnal cyfres o bostiadau a hysbysebion organig ar draws ein sianeli i dynnu sylw at wasanaethau eraill fel fferyllfeydd, Unedau Mân Anafiadau a gwasanaethau GIG111 Cymru, fel y gwiriwr symptomau ar-lein. Dyma gipolwg ar rai themâu allweddol ar ein cynnwys ar draws ein sianeli ynghyd â rhywfaint o adborth a gafwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Beth mae pobl yn ei ddweud:

“Mae'n drueni nad yw GIG111 pwysu 2 yn sgwrs ar-lein – weithiau mae'n anodd iawn lleisio eich problemau”

Er bod angen tynnu'r pwysau oddi ar y meddygon teulu, a oes unrhyw un wedi meddwl am y pwysau sydd ar y fferyllwyr yn barod? Ac rydych chi eisiau rhoi mwy o bwysau arnyn nhw eto?

Nid oes gwasanaethau iechyd meddwl ar gael. Byddai'r canlyniadau yr un fath pe na baen nhw yno. Dim triniaeth, dim gofal, dim ond difaterwch a mwy o drawma i bobl sydd eisoes yn sâl iawn.

Lleihau amseroedd aros? Wedi bod yn aros am ganlyniadau mri sgrinio canser y fron am bedair wythnos a'ch rheswm chi yw staffio? Mae pethau'n gwaethygu os unrhyw beth, nid gwella

Mae'r ddau apwyntiad diwethaf mae fy ngŵr wedi eu cael yn Ysbyty Maelor wedi bod yn anhygoel. I mewn ac allan yn gyflym iawn ac yn gwbl brydlon, os nad yn gynnar.

5. Gohebiaeth gan Aelodau Senedd Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig

5.1 Mae 24 aelod etholedig Gogledd Cymru yn ysgrifennu atom ar ran eu hetholwyr yn wythnosol. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol o tua 35% yn nifer y cwestiynau a godwyd yn ystod pedwar mis cyntaf 2024.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, rydym wedi cael 371 o ymholiadau gan Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Senedd y Deyrnas Unedig, o'i gymharu â 271 ar gyfer yr un cyfnod yn 2023. Dyma'r prif faterion a godwyd gan wleidyddion ers mis Ionawr 2024:

- Amseroedd aros, yn enwedig orthopedeg, offthalmoleg, llawdriniaeth gyffredinol ac asesiadau niwro amrywiaeth.
- Mynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl.
- Mynediad at ddeintyddiaeth y GIG.
- Profiad gwael mewn Adrannau Achosion Brys.

Mae amrywiaeth o faterion eraill, o fynediad at gofnodion iechyd i drefniadau rhyddhau a gofal parhaus, ond mae'r rhain yn y ffigurau sengl isel.

Mae'r datganiadau a ganlyn wedi wu casglu o rai o'r materion difrifol a godwyd gan wleidyddion ar ran eu hetholwyr. Maent yn rhoi cipolwg ar y problemau a brofir gan gleifion ar draws ein gwasanaethau, ac maent naill ai yng ngeiriau'r claf ei hun neu mewn gohebiaeth a dderbyniwyd gan wleidyddion.

Yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud:

Arosiadau orthopaedig

"Mae angen clun newydd arnaf a ffoniais yr adran a chael gwybod y byddai'n 10 mis cyn y byddaf yn gweld ymgynghorydd ac ar ôl hynny y dylwn ddisgwyl aros dwy flynedd arall. Rydw i'n 80 oed eleni ac mae'r posibilrwydd o aros bron i dair blynedd a minnau mewn poen dirdynnol yn anghredadwy."

"Dyweddodd ymgynghorydd wrth glaf ei fod wedi torri cyhyrau a gewynnau ac y gallai fod angen llawdriniaeth i newid ei ysgwydd. Trefnwyd apwyntiad dilynol chwe mis yn ddiweddarach i drafod y posibilrwydd hwn ymhellach, er ei fod mewn poen cyson. Oherwydd yr arhosiad hir am driniaeth, gwnaeth y penderfyniad anodd i fynd yn breifat a thalu am y llawdriniaeth yr oedd ei hangen arno."

"Roeddwn i'n agosáu at y gobaith y byddai'r llawdriniaeth yn cael ei chynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024, fel yr awgrymwyd yn fy ymgynghoriad ym mis Hydref. Pan ddes i oddi ar y ffôn, fe wnes i grïo – mae'n anodd dychmygu aros hyd yn oed yn hirach, mewn poen cronig."

Mynediad at wasanaethau lechyd Meddwl

"Mae'n ymddangos ei bod wedi cael ei hatgyfeirio at Nant-y-Glyn tua 12 mis yn ôl gan ei meddyg teulu ond heb gael ei gweld wyneb yn wyneb eto gan aelod o'r tîm, ar ôl cael ychydig o asesiadau byr dros y ffôn yn unig cyn cael cynnig cwrs gorbryder. Mae hi wedyn yn honni ei bod hi wedi cael ei rhyddhau'n amhriodol gan y gwasanaeth. Mae fy etholwr yn dweud ei bod hi wedi bod yn meddwl am ladd ei hun ac mae ei meddyg teulu wedi gwneud atgyfeiriad pellach i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, ond mae'n ymddangos bod methiannau o ran cyfathrebu gyda'r tîm, gyda llythyrau a galwadau ffôn yn ôl heb gael eu cyflawni."

"Mae ei fywyd cyfan yn dioddef oherwydd diffyg ymyriadau. Mae ei berthynas dan straen ac mae'n credu y bydd ei wraig yn ei adael os na all wella ei iechyd meddwl. Mae ei ddau blentyn yn dibynnu arno, ond mae'n cael ffræ yn y gwaith oherwydd ei broblemau ac mae'n poeni na fydd yn ddigon da i weithio os bydd pethau'n parhau fel hyn. Allwch chi gadarnhau pam na all weld seiciatrydd, neu seicolegydd hyd yn oed? Allwch chi egluro pam nad yw wedi cael ei atgyfeirio ar gyfer unrhyw therapi mewn saith mlynedd? Byddwn yn ddiolchgar pe baech hefyd yn egluro beth rydych chi'n ei wneud i leihau'r rhestr aros am asesiad ADHD, gan ei bod yn hysbys bod ADHD heb ei drin yn gallu achosi gorbryder ac iselder."

"Mae fy etholwr yn rhentu llety ar hyn o bryd ac mae'n cael cymorth gan ei landlordiaid a ddaeth gyda hi heddiw i Ysbyty Gwynedd fel mater o frys. Cafodd ei throi ymaith o'r ysbyty hwn yn gynharach heddiw er gwaethaf ei hanymataliaeth ddwbl a'i chwydu cyson. Mae hi'n glaf agored i niwed sydd angen cymorth iechyd meddwl brys. Rwy'n deall bod ganddi symptomau rhoi'r gorau i sylweddau sydd â sgil-ffeithiau gwael iawn. Mae hi wedi cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn ac mae hi'n cymryd 19 tabled bob dydd."

Arosiadau Offthalmoleg

“Mae fy etholwr yn rhannol fyddar ac yn dibynnu ar ddarllen gwefusau er mwyn gallu deall a chyfathrebu â'r bobl o'i chwmpas. Yn anffodus, mae hi wedi datblygu cataractau sydd wedi lleihau ei gallu i weld yn arw, ac, o ganlyniad, ei gallu i gyfathrebu, gan nad yw'n gallu darllen gwefusau mwyach.”

“Mae ganddo ddiabetes math 1, a chafodd ddiagnosis 51 mlynedd yn ôl a chafodd ddiagnosis o retinopathi am y tro cyntaf ym 1990. Dywed fod ei apwyntiad diwethaf ym mis Ionawr 2022 gyda sesiwn ddilynol mewn chwe mis arall. Nid yw wedi cael apwyntiad eto, ac o ystyried cyflwr ei lygad ac effeithiau posibl hyn, mae hyn yn destun pryder mawr.”

“Mae etholwr wedi cysylltu ynghylch llawdriniaeth cataractau. Dywedwyd wrtho y gallai fod yn rhaid iddo aros hyd at 18 mis am lawdriniaeth. Nid yw'n gallu darllen na gyrru mwyach, ac mae wedi egluro bod ansawdd ei fywyd wedi dirywio'n sylweddol.”

Mynediad at ddeintyddiaeth y GIG

“Rydw i bron i 70 ac yn ddiweddar rydw i wedi cael diagnosis o Polymyalgia. Dywedwyd wrthyf fod yn rhaid i mi gadw golwg ar fy iechyd deintyddol yn rheolaidd, ac rwyf yn gwneud hynny, ond pan geisiais drefnu apwyntiad gyda'm deintydd dywedwyd wrthyf ei fod wedi mynd yn breifat. Rwyf yn awr yn wynebu'r cyfyng-gyngor o golli fy dannedd o bosibl a dim ffordd o ddarganfod a oes gennyf broblemau deintyddol fel canser y geg. Neu dalu ymhell dros £300 y flwyddyn gyda chynllun yswiriant i gael archwiliad sylfaenol bob chwe mis, gyda phelydrau-x a glanhau'r dannedd. Os oes bydd angen i mi gael llenwadau, rhaid i mi ddod o hyd i'r isafswm o £145, sy'n cynnwys disgownt o ddeg y cant. Rydw i ar bensiwn ac yn ceisio byw bywyd annibynnol yn fy nghartref fy hun, dydw i ddim yn cael budd-daliadau oherwydd rydw i'n rhoi popeth sydd gen i tuag at fyw'n annibynnol. Rydw i'n byw ar fy mhen fy hun ac yn gofyn i mi fy hun ac i chithau hefyd. Ai dyma'r ffordd y dylai pethau fod?”

“Cysylltodd mam i ddwy ferch â'm swyddfa i fynegi pryder am ei hanallu i ddod o hyd i ddeintydd GIG ar eu cyfer - un ohonynt yn 13 oed ac angen gwaith deintyddol helaeth ar frys; tynnwyd 10 o'i dannedd pan oedd hi'n naw oed ac mae dirywiad difrifol wedi bod yng nghyflwr nifer o'r rhai sy'n weddill. Mae hi mewn poen sylweddol, ac mae hyn hefyd yn achosi pryder sylweddol i'w mam a'i chwaer.”

Aros am lawdriniaeth Gyffredinol a Gastroberfeddol

“Mae fy etholwr wedi codi pryderon ar ran ei wraig, a fydd yn 81 oed yr wythnos nesaf, ac sydd wedi bod ar restr aros am bedair blynedd i gael tynnu coden y bustl. Dywedodd ei bod mewn cymaint o boen ym mis Rhagfyr 2023 fel y bu'n rhaid iddi fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ddwywaith a bod y boen mor ddifrifol fel iddi gael dosau o forffin drwy'r geg.”

“Mae dorgest yn achosi llawer o boen iddo, mae'n dal i geisio trefnu apwyntiad yn Ysbyty Gwynedd ond nid yw'n gallu gwneud hynny. Mae hyn wedi bod yn digwydd ers 2 flynedd”

Aros am asesiad ND

“Mae hi'n dweud ei bod hi wedi cael trafferth gydag ymddygiad ac emosiynau ei mab ers pan oedd hi'n ifanc ac wedi ei atgyfeirio ef ei hunan ar gyfer diagnosis ar 20 Rhagfyr 2018, 11 Tachwedd 2019 a 30 Tachwedd 2021. Mae hi bellach yn bryderus iawn na fydd yn cael ei asesu cyn ei arholiadau TGAU ac felly na fydd wedi cael yr addasiadau rhesymol y mae arno eu hangen yn yr ysgol, yn ystod gwersi nac arholiadau.”

“Mae wedi bod ar y rhestr aros am asesiad gyda’r tîm Niwroddatblygiadol ers dwy flynedd, a chafodd wybod yn ddiweddar y gallai’r aros ymestyn i 24-36 mis arall. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu aros am bum mlynedd neu fwy am ddiagnosis hanfodol.”

“Am sawl blwyddyn bellach, pan fyddwn ni’n ffonio Tîm Niwroddatblygiadol Wrecsam Maelor, rydyn ni’n cael gwybod nad oes modd rhoi dyddiad i ni, ond ein bod ni’n uchel ar y rhestr. Mae hyn wedi bod yn mynd rhagddo ers blynyddoedd; siawns na ellir gwneud rhywbeth mwy i gefnogi ein merch - atgyfeiriad preifat ar gyfer asesiad, neu atgyfeiriad i’w hasesu ar un o fyrddau’r GIG sy’n gallu ei gweld? Mae’n wynebu llawer o heriau bob dydd, yn addysgol, yn gorfforol ac yn emosiynol. Mae hi’n dioddef o orbryder, gorlwytho synhwyraidd, yn cau popeth allan, mae ganddi anawsterau cydlynu, ac er bod ei theulu, ei ffrindiau a’i hathrawon yn ei chefnogi hyd eithaf eu gallu, sut ydyn ni’n gwybod a ydyn ni’n gwneud y peth iawn neu’n darparu a chael gafael ar y cymorth iawn, heb asesiad niwroddatblygiadol?”

5. Gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â dinasyddion a gynhaliwyd gan Llais

5.1 Mae Llais yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

5.2 Wrth i Llais Gogledd Cymru ryngweithio o ddydd i ddydd â dinasyddion, drwy ddiwyddiadau ymgysylltu a chyfryngau cymdeithasol, nodwyd y themâu canlynol:

- Ymarfer clinigol (diagnosis, triniaeth)
- Oedi o ran triniaeth/amseroedd aros
- Aros yn hir a thriniaeth wael mewn Adrannau Achosion Brys
- Cyfathrebu (ymddygiad ac agwedd, cydsyniad, gwybodaeth, ansensitif)
- Mynediad

Yr hyn mae pobl wedi ei ddweud/ei adrodd:

“Es i i Alltwen, ar ôl ffonio 111. Roedd hi’n fore Sadwrn, tua 12.30pm. Roedd yn rhaid i mi aros 30 munud i gael fy ngweld. Doedd dim ots gen i gan eu bod nhw’n brysur. Cefais fy ngweld gan feddyg a chefais y feddyginiaeth yr oedd arnaf ei hangen. Cefais ofal da a chael fy nhrin yn dda.”

Cafodd claf anaf i’w ben mewn damwain a chafodd ei ryddhau o’r Adran Achosion Brys heb gael sgan. Gwaethygodd symptomau’r claf dros amser a 18 mis yn ddiweddarach cafodd ddiagnosis o anaf i’r ymennydd.

Dywedodd un unigolyn ei fod wedi ei gofrestru’n ddall ond ei fod yn dal i gael llythyrau ar gyfer apwyntiadau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac nad yw’n gallu eu darllen. Cofnodir y ffaith ei fod wedi ei gofrestru’n ddall ar ei gofnodion meddygol.

Cafodd y claf sgan MRI ond ni chafodd y canlyniadau erioed. Dim ond wrth fynd i’r Adran Achosion Brys gyda chlot gwaed y daethpwyd o hyd i’r canlyniadau ar hap.”

6. Gweithredu ar yr hyn rydym yn ei glywed

6.1 Yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd y mis hwn byddwn yn trafod yn fanwl ein cynlluniau i wella mynediad, ansawdd a phrofiad **gofal wedi ei gynllunio a chanser**.

6.2 Mae cleifion, teuluoedd a gofalwyr wedi bod yn rhannu eu profiadau presennol o **wasanaethau fasgwlaidd** gyda ni, sy'n rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw. Roedd llawer o'r cleifion a'r teuluoedd/gofalwyr y buom yn siarad â nhw yn sôn pa mor werthfawrogol oeddent o'r gofal a gawsant, gan nodi nifer o feysydd arfer da yn ogystal â gofal tosturiol. Fodd bynnag, roedd rhai o'r profiadau a rannwyd â ni yn tynnu sylw at feysydd lle gellid gwneud gwelliannau.

Mae llyfryn gwybodaeth sy'n cynnwys crynodeb o brif ganfyddiadau ein gwaith gwella wedi cael ei ddatblygu, ac mae'n cynnwys y camau y byddwn ni'n eu cymryd er mwyn gwella'r ffordd rydym yn darparu gofal.

Rydym yn sefydlu grŵp o gleifion, teuluoedd a gofalwyr a allai fod â diddordeb mewn parhau i weithio gyda ni a rhannu eu barn a'u profiadau ar yr hyn sydd bwysicaf, sut bydd gofyn i wasanaethau fod yn y dyfodol, a pha newidiadau y mae angen eu gwneud i'r ffordd mae gwasanaethau fasgwlaidd yn cael eu darparu ledled gogledd Cymru.



Teitl yr Adroddiad	Adroddiad y Cadeirydd			
Adrodd i:	Bwrdd Iechyd			
Dyddiad y Cyfarfod:	Mai 30, 2024			
Crynodeb Gweithredol:	<p>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am faterion allweddol o fewn y sefydliad a gwaith allanol gyda'r Llywodraeth a phartneriaid eraill</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Etholedig • Manylion • ymweliadau a chyfarfodydd 			
Argymhellion:	Bod y Bwrdd yn trafod ac yn nodi cynnwys yr adroddiad			
Arweinydd Gweithredol:	Cadeirydd			
Awdur yr Adroddiad:	Cadeirydd			
Pwrpas yr adroddiad:	I'w Nodi <i>To Note</i> <input checked="" type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Ar gyfer sicrwydd <i>For Assurance</i> <input type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd:	Arwyddocaol <i>Significant</i> <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol <i>Acceptable</i> <input type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol <i>Partial</i> <input checked="" type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd <i>No Assurance</i> <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>No confidence / evidence in Delivery</i>
<p>Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:</p> <p><i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i></p>				
Cyswllt ag Amcan/Amcanion strategol:	Mae'r cyfarfodydd yn ymdrin ag amrywiaeth o flaenoriaethau strategol.			
Goblygiadau rheoleiddio a lleol:	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn deillio o'r adroddiad hwn.			
<i>Regulatory and legal implications:</i>				

<p>Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</i></p>	Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.
<p>Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</i></p>	Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.
<p>Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)</p> <p><i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</i></p>	Cododd y materion effaith ar draws ystod o risgiau.
<p>Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn deillio o'r adroddiad hwn.
<p>Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn deillio o'r adroddiad hwn.
<p>Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori</p> <p><i>Adborth, ymateb, a chrynodeb dilynol yn dilyn ymgynghoriad</i></p>	Amherthnasol.
<p>Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)</p> <p><i>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</i></p>	Cododd y materion effaith ar draws ystod o risgiau.
<p>Rheswm dros gyflwyno adroddiad i bwyllgor cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)</p> <p><i>Reason for submission of report to confidential Committee (where relevant)</i></p>	Amherthnasol.
<p>Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion nad ydynt yn berthnasol i'r adroddiad hwn.</p>	

Adroddiad Cadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Mai 30, 2024

Mae peth o'r gwaith rwyf wedi'i wneud ers fy adroddiad i Fwrdd Mawrth wedi'i grynhoi isod.

Bwrdd a Phwyllgorau

Rwyf wedi cael cyfle i arsylwi ar waith ein pwyllgorau amrywiol dros y cyfnod diwethaf. Rwy'n mynychu pan rwy'n gallu ac yn gweld yn uniongyrchol y gwaith manwl y mae'r pwyllgorau'n ei wneud. Maent yn rhan sylweddol o'n llywodraethu fel sefydliad ac rydym yn cydnabod y gallwn ddatblygu eu rôl ymhellach, ynghyd â rôl y Bwrdd. Bydd Pam, fel ein Cyfarwyddwr Llywodraethu Corforaethol newydd, yn gallu cefnogi'r gwaith hwn a dod â mewnwleidiad pellach i ni gan sefydliadau eraill. Yn yr un modd, mae ein sesiynau Datblygu'r Bwrdd yn mynd rhagddynt yn dda, gyda mwy o amser bellach yn cael ei neilltuo ar gyfer sesiynau briffio ychwanegol. Ein bwriad yw datblygu rhaglen Datblygu'r Bwrdd a fydd yn helpu i gefnogi ein twf fel Bwrdd Iechyd.

Datblygu'r Sefydliad

Bydd y Fforymau Mesurau Arbennig deufisol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet bellach yn canolbwyntio ar feysydd penodol yn ogystal â throsolwg cyffredinol o'r cynnydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni nodi ein datblygiad o dan Fesurau Arbennig ac mae hefyd yn rhoi'r manylion sydd eu hangen ar yr Ysgrifennydd Cabinet i fonitro cynnydd mewn meysydd sy'n peri pryder. Mae'r ffocws newydd yma yn y cam hwn o Fesurau Arbennig yn tanlinellu'r angen am ein holl weithgarwch fel Bwrdd Iechyd i hyrwyddo gwell cyflawniad. Mae Carol, fel Prif Weithredwr, yn arwain gwaith yn ymwuned â strwythur y sefydliad a fydd yn ein galluogi i sicrhau eglurder o ran rolau ac atebolrwydd, a fydd, yn ei dro, yn ein helpu i wella perfformiad. Bydd y recriwtio presennol i rolau Cyfarwyddwr Gweithredol allweddol yn gam arwyddocaol pellach i ni fel sefydliad. Mynychais 2 sesiwn o'r Gweithdy Tîm Gweithredol ar Ofal wedi'i Gynllunio fel arsylwr. Rhoddodd hyn gipolwg i mi ar y materion sy'n ein hwynebu a rhywfaint o'r atebion sydd angen i fynd i'r afael â pherfformiad.

Ymgysylltu ag eraill

Ymhlith yr amrywiaeth o ymweliadau yr wyf wedi'u cynnal yn ddiweddar oedd gweld yr Uned Rhagsefydlu yn Wrecsam. Rhoddodd Neil Agnew daith o amgylch y cyfleuster i Carol a minnau a chawsom gyfle i drafod y gwasanaeth gyda chleifion a'u teuluoedd. Rhoddodd Neil gyflwyniad i ni hefyd yn tynnu sylw at y dystiolaeth sy'n dangos canlyniadau iechyd sylweddol gwell i'r rhai sy'n ymrwymo i'r rhaglen rhagsefydlu cyn unrhyw llawdriniaeth. Roedd yr ymweliad hwn, ynghyd â'm hymweliad â chlwb ymarfer 'Nifty 60s' yng Nghaergybi, yn enghreifftiau gwych sy'n dangos yr effaith gadarnhaol y gall ymyrraeth ei chael ar gleifion. Mae cyfleoedd i ni ar draws gogledd Cymru weithio gyda grwpiau cymunedol ac eraill i hyrwyddo ymagwedd ragweithiol tuag at iechyd a lles. Cefais wahoddiad i Gymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru sy'n cyfarfod ym Mangor ar fore Sadwrn. Mae'r gymdeithas yn cefnogi nifer o unigolion o wledydd Affrica sydd bellach yn byw yng ngogledd Cymru, a nifer dda ohonynt yn cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd. Roeddwn yn falch iawn i ddysgu am y ffordd y mae aelodau'n cefnogi ei gilydd ac yn rannu eu profiadau.

Isod mae crynodeb o rai o'm cyfarfodydd ac ymweliadau am y cyfnod hyd Mai 17 2024

Dyddiad	Cyfarfod/Ymweliad
Mawrth 18 2024	Cyfarfod misol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Mawrth 18 2024	Cyngor Sir Y Fflint
Mawrth 21 2024	Sesiwn Datblygu'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau
Mawrth 21 2024	Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Mawrth 21 2024	Hosbis Dewi Sant
Mawrth 22 2024	Katie Hender, Profiad y Claf, Ysbyty Glan Clwyd
Mawrth 22 2024	Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Mawrth 22 2024	Trafodaeth Bwrdd Crwn, Prosiect Ysbyty Brenhinol Alexandra
Mawrth 25 2024	Pwyllgor Taliadau
Mawrth 27 2024	Hyfforddiant ymwybyddiaeth Llywodraethu Gwybodaeth
Mawrth 27 2024	Cyfarfod chwarterol Aelodau Annibynnol
Mawrth 28 2024	Sesiwn Datblygu'r Bwrdd
Mawrth 28 2024	Bwrdd Iechyd
Ebrill 2 2024	Grŵp Cadeiryddion Cymru Gyfan
Ebrill 4 2024	#BetterByBetsi Gweithdy Cymunedol
Ebrill 5 2024	Canolfan Feddygol Cei Connah, Cei Connah
Ebrill 5 2024	Adran Patholeg gyda Yee Ping, Ysbyty Wrecsam Maelor
Ebrill 5 2024	Digwyddiad ymddeol i Gareth Davies, Ysbyty Maelor Wrecsam
Ebrill 5 2024	Hosbis Tŷ'r Eos, Wrecsam
Ebrill 5 2024	Uned Rhagsefydlu gyda Neil Agnew, Wrecsam
Ebrill 8 2024	Judith Hardisty, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ebrill 8 2024	Cyfarfod Cadeiryddion Bwrdd Cymru Gyfan
Ebrill 9 2024	Ymgyrchwyr Ambiwlans Awyr a Llais Gogledd Cymru
Ebrill 10 2024	Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Llys Prifysgol Bangor
Ebrill 11 2024	Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Ebrill 11 2024	Cyfarfod Bwrdd Anarferol
Ebrill 12 2024	Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, Cadeirydd a Phrif Weithredwr GIG Cymru
Ebrill 23 2024	Pwyllgor Cynllunio, Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau
Ebrill 24 2024	Cyfarfod misol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Ebrill 25 2024	Datblygu'r Bwrdd
Ebrill 26	Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cabinet dros y Gogledd - derbyniad Gyda'r Nos Gogledd Cymru, Wrecsam
Ebrill 27 2024	Cymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru, Bangor
Ebrill 30 2024	Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Mai 1 2024	Dilyniant i'r cyfarfod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Mai 2 2024	Gweithdy Gofal wedi'i gynllunio gyda'r Tim Gweithredol
Mai 3 2024	Digwyddiad Ymgysylltu'r Bwrdd - Caergybi
Mai 7 2024	Pwyllgor Archwilio
Mai 9 2024	Dilyniant i'r gweithdy Gofal wedi'i gynllunio gyda'r Tim Gweithredol
Mai 9 2024	Ysbyty Tywyn
Mai 10 2024	Lesley Griffiths MS, Wrecsam
Mai 13 2024	Pwyllgor Taliadau anarferol
Mai 13 2024	Prif Weithredwr, Arweinydd ac Aelodau Cabinet Cyngor Conwy
Mai 14 2024	Cynhadledd gwasanaethau iechyd claf-gyfeillgar, Wrecsam
Mai 15 2024	Fforwm Mesurau Arbennig
Mai 17 2024	Ysbyty Bryn y Neuadd gyda Janet Finch Saunders AS



Teitl yr adroddiad: <i>Report title:</i>	Adroddiad y Prif Weithredwr			
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Bwrdd BIPBC			
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	Dydd Iau, 30 Mai 2024			
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	<p>Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddatblygu i roi trosolwg o'r prif weithgareddau, y cynnydd a'r materion gan y Prif Weithredwr. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o ddiwedd Mawrth i ganol Mai 2024. Mae rhywfaint o'r cynnwys yn cael ei ehangu ymhellach mewn adroddiadau eraill ar agenda'r Bwrdd.</p> <p>Mae'r adroddiad yn amlinellu rhai o'r prif weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd yn y bwrdd iechyd ac yn ehangach gyda phartneriaid a'r cyhoedd.</p>			
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	Gofynnir i'r Bwrdd DRAFOD A NODI'R adroddiad.			
Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i>	Prif Weithredwr			
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Prif Weithredwr			
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input checked="" type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Am sicrwydd <i>For Assurance</i> <input type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: <i>Assurance level:</i>	Arwyddocaol <i>Significant</i> <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol <i>Acceptable</i> <input type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol <i>Partial</i> <input type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd <i>No Assurance</i> <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran darparu <i>No confidence / evidence in delivery</i>
<p>Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gael sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:</p> <p><i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i></p>				
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:	Yn ymwneud â phob amcan			
Link to Strategic Objective(s):				
Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:				
Regulatory and legal implications:				
Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?	Amherthnasol			

<i>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</i>	
Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?	Amherthnasol
<i>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</i>	
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)	
<i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</i>	
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith	Nid oes unrhyw argymhelliad yn arwain at benderfyniad neu oblygiad ariannol
<i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i>	
Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith	Nid oes unrhyw argymhelliad yn arwain at benderfyniad neu oblygiad gan y gweithlu
<i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i>	
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori	Amherthnasol
<i>Feedback, response, and follow up summary following consultation</i>	
Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)	
<i>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</i>	
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)	Amherthnasol
<i>Reason for submission of report to confidential board (where relevant)</i>	
Y Camau Nesaf: Gweithredu'r argymhellion Y Camau Nesaf: Mae amrywiaeth o gamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw sy'n ymwneud â chynnwys yr adroddiad. <i>Implementation of recommendations</i> Mae argymhellion i'w trafod a'u nodi.	
Rhestr o Atodiadau:	

1.0 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddatblygu i roi trosolwg o'r prif weithgareddau, y cynnydd a'r materion gan y Prif Weithredwr, yn ogystal â materion pwysig i dynnu sylw atynt a allai fod yn destun adroddiadau manylach eraill neu beidio. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o ddiwedd Mawrth i 22 Mai 2024.

2.0 Datblygiadau/Diweddariadau Allweddol

Mae nifer o eitemau allweddol ar brif agenda'r Bwrdd. Er y bydd yr adroddiadau manwl yn cael eu cyflwyno, rhoddir pwyslais penodol ar y canlynol:

2.1 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Gwaed Heintus ddydd Llun, 20 Mai 2024 yn dilyn ymchwiliad statudol cyhoeddus annibynnol i'r defnydd o waed heintiedig. Sefydlwyd yr ymchwiliad yn 2017 i ymchwilio i sut y daeth miloedd o bobl ledled y Deyrnas Unedig i gael eu heintio â HIV a/neu Hepatitis C drwy gynhyrchion gwaed halogedig rhwng 1970 a 1991.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymddiheuro i'r bobl y mae'r drasiedi hon yn effeithio arnynt. Mae'n amlwg y bydd angen cryn dipyn o fyfyrion a dysgu i sicrhau bod y gweithredir ar y gwelliannau sydd eu hangen, hyd yn oed rhai degawdau ar ôl y methiannau. Bydd y Weithrediaeth, ynghyd â chydweithwyr eraill, yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad, gan archwilio'r cyfle ar gyfer camau i wella yn lleol.

Mae'r adroddiad yn uchel ei broffil, a rhagwelir y bydd rhai cleifion, neu eu perthnasau/gofalwyr, yn troi at staff gofal iechyd am gyngor a chefnogaeth. Yn benodol, efallai y bydd cleifion sydd wedi cael trallwysyadau gwaed yn ystod y cyfnod hwn am gael cyngor a/neu am ofyn am brofion gwaed. Ar draws y GIG yng Nghymru, mae trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig i helpu i reoli ymholiadau cleifion a chyfeirio cleifion yn ôl yr angen.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan. [Ymchwiliad Gwaed Heintiedig – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru/ymchwiliad-gwaed-heintiedig-bwrdd-lechyd)

2.2 Siarter Rhianta Corfforaethol – Addewid Cymru

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn gofal. Mae gan GIG Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu pobl sy'n gadael gofal drwy ddarparu mynediad at wasanaethau iechyd, addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r [Siarter](#) hon yn gyfres o egwyddorion ac addewidion ac fe'i datblygwyd ar y cyd â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae'r Siarter yn set o addewidion y gall unrhyw gorff yn y sector cyhoeddus eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac mae'n nodi egwyddorion cyffredin y dylai pob corff a'u harweinwyr eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Drwy gofrestru i fod yn rhiant corfforaethol, bydd y Bwrdd Iechyd yn cytuno i ystyried yr [egwyddorion canlynol](#) wrth ddarparu ein gwasanaethau a'n cymorth presennol, cynllunio gwasanaethau newydd a/neu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

2.3 Y diweddaraf am y Gwasanaeth Adalw Meddygol Brys – penderfyniad y Cyd-bwyllgor Comisiynu

Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu (JCC) newydd am y tro cyntaf ar 23 Ebrill 2024, gan ystyried mater y Gwasanaeth Adalw Meddygol Brys (EMRTS), yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth a gynhaliwyd gan y cyn Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC). Roedd y Bwrdd Iechyd eisoes wedi ystyried yr argymhellion arfaethedig a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad a'r gwahanol gamau ymgysylltu a oedd wedi cael eu cynnal, er mwyn helpu i hysbysu'r penderfyniad ar y cyd a fyddai'n cael ei wneud gan y JCC. Daeth i'r casgliad nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cefnogi'r argymhellion yn llawn. Gwnaed penderfyniad y JCC yn gyffredinol i gefnogi'r argymhellion ac i fwrw ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu Argymhelliad 4. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei dracio a'i adolygu gan y JCC a bydd adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu darparu i'r Bwrdd.

2.4 Mesurau Arbennig

Mae nifer o Adolygiadau Annibynnol bellach wedi cael eu cwblhau ac wedi cael eu hystyried drwy Bwyllgorau a mecanweithiau eraill. Ceir trosolwg isod:

2.4.1 Cafodd yr *Adolygiad o Reoli Contractau a Chaffael* ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd a'i gynnal gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl gyda Llywodraeth Cymru, a bydd yn cynnwys

- o Asesiad o ddigonolrwydd a chydymffurfriad â fframwaith rheoli contractau a chaffael y Bwrdd Iechyd (ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf), gan gynnwys:
 - Sicrwydd, lle bo'n briodol, ynghylch y trefniadau a'r rheolaethau presennol sydd ar waith.
 - Nodi meysydd o arfer da
 - Nodi meysydd gwan neu lle mae angen gwella, ac argymhellion cysylltiedig.

Datblygodd yr adroddiad bedwar ar hugain o gamau gweithredu i'w hystyried gan y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Llywodraeth Cymru (wedi'u hatodi yn Atodiad 1)

Roedd y prif themâu yn cynnwys:

- Polisi, gweithdrefn a chanllawiau i staff ar gaffael a rheoli contractau, a'r gweithdrefnau cyllid cyffredinol i'w diweddarau.
- Rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd a Chaffael NWSSP i fod yn glir, a gwella'r broses adrodd ac uwchgyfeirio yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael golwg gynnar ar faterion sy'n ymwneud â chaffael.
- Sicrhau bod contractau'n cael eu cymeradwyo a bod contractau'n cael eu llofnodi, yn unol â'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SoRD).
- Dogfennau hyfforddi ac arweiniad i gefnogi staff sy'n gyfrifol am reoli contractau.
- Cynnal rhestr ddiffiniol o gontractau ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau bod y system eWaiver yn cydymffurfio â'r SFIs a SoRD, adolygu rhyngddibyniaeth â'r system e-Financials, a lleihau'r defnydd o hepgorion a gyflwynir, er mwyn sicrhau gwerth am arian a chystadleuaeth yn y farchnad.
- Hyfforddiant Caffael Darparwyr i Swyddogion Gweithredol a'r holl staff sy'n ymwneud â chaffael, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o gyfrifoldebau a gofynion.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd, a hynny mewn cydweithrediad llawn â chydweithwyr yn Nhimau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG

Cymru. O'r tri ar ddeg o gamau gweithredu ar gyfer y bwrdd iechyd, mae un ar ddeg o'r rheini wedi'u cwblhau, gyda dau yn dal ar agor ac ar waith.

2.4.2 Mae *Adolygiad o Drefniadau Cynllunio Integredig* annibynnol wedi'i gwblhau erbyn hyn. Roedd nodau ac amcanion yr adolygiad yn cynnwys:

- 1) Darparu asesiad o gapasiti a gallu cynllunio integredig o fewn y bwrdd iechyd o ran cynllunio strategol, partneriaeth a gweithredol.
- 2) Asesu dull y sefydliad o ddatblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a'r mecanweithiau gwneud penderfyniadau cysylltiedig.
- 3) Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu fframwaith cynllunio integredig lleol sy'n ymgorffori strategaeth a chynllunio (yn fewnol ar draws y sefydliad ac yn allanol gyda phartneriaid).

Roedd y bwrdd iechyd wedi datblygu, cymeradwyo a dechrau gweithredu Fframwaith Cynllunio Integredig cyn i'r adolygiad gael ei gynnal yn llawn a chyhoeddi'r adroddiad. Roedd cymeradwyo'r Fframwaith ym mis Medi 2023 yn golygu bod modd datblygu'r Cynllun ar gyfer 2023/24 gan ddefnyddio dull gweithredu cryfach.

Amlinellir prif argymhellion yr Adroddiad fel a ganlyn:

1. Cydweithio ar **ddyluniad system gynllunio** ar gyfer y bwrdd iechyd gan gynnwys ei safonau, llywodraethiant a phrosesau gweithredu. Dylai hyn fynd i'r afael â'r materion capasiti a gallu sy'n cael sylw yn yr adolygiad ac, yn benodol, ystyried cynnig tymor hir ar gyfer capasiti cynllunio strategol ar draws y sefydliad.
2. Datblygu **trywydd strategol sefydliadol** – i ddangos y mewnbynnau sefydliadol strategol dros y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn helpu cynlluniau a chynllunwyr i ddeall yr amgylchedd yn y dyfodol yn y tymor canolig ac i wneud darpariaeth briodol yn y cynlluniau presennol. Mae'n debygol o gynnwys cynhyrchion cerrig milltir cynnar fel: y model clinigol y cytunwyd arno, rhaglen OD, pan fydd fersiwn arall o'r strategaeth hirdymor yn cael ei lansio. Byddai cerrig milltir y flwyddyn gyntaf yn cael eu cynllunio'n fanwl a byddai adnoddau ar gael ar eu cyfer cyn cyhoeddi'r trywydd.
3. Datblygu **cynllun sylfaenol** i gofnodi a deall yn llawn ymrwymadau presennol y Bwrdd Iechyd o ran newid. Mae angen i hyn gynnwys amcangyfrifon o'r cyllid, gweithlu, sgiliau a'r amser sydd eu hangen. Bydd y cynllun sylfaenol hwn yn darparu sail gadarn ar gyfer dichonoldeb, asesu risg a rheoli'r portffolio.

Derbyniodd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Rheoli Gwybodaeth yr adroddiad terfynol a'r cynllun gweithredu ar 30 Ebrill 2024. Mae'r adroddiad ar gael [yma](#) :

2.4.3 Fel rhan o'r cam paratoi Mesurau Arbennig, comisiynodd Llywodraeth Cymru *Asesiad o Feysydd Allweddol y Gweithlu*, a oedd yn cynnwys:

- Arweinyddiaeth, diwylliant ac ymgysylltu â staff.
- Lles gweithwyr.
- Cynllunio'r gweithlu a systemau.
- Rhoi polisïau gweithlu allweddol ar waith.

Ystyriodd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, sy'n Bwyllgor sydd newydd ei sefydlu, yr adroddiad, sydd ar gael [yma](#), yn eu cyfarfod ym mis Ebrill 2024. Mae'n bwysig nodi bod y Bwrdd wedi cymeradwyo Bwriad Strategol o ran Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu ym mis Medi 2023, gan ganolbwyntio ar naw cam gweithredu allweddol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

Arweinyddiaeth a Diwylliant:

1. Model gweledol o werthoedd ac ymddygiadau arweinyddiaeth dosturiol gan y Bwrdd. Mae hyn yn golygu egluro beth mae arweinyddiaeth dosturiol yn ei olygu i'r Bwrdd lechyd a'r ymddygiadau sy'n sail i hyn.
2. Adolygu ac (os oes angen) ailosod diwylliant, pwrpas a gwerthoedd BIPBC gan ddefnyddio detholiad o offer diagnostig diwylliant ac arweinyddiaeth sydd ar gael.
3. Cryfhau datblygiad unigolion, rheolwyr canol ac arweinwyr tîm drwy adolygu'r hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd, a'i ail-alinio ag ymddygiadau arwain tosturiol.

Lles gweithwyr:

1. Mae angen strategaeth hirdymor ynghylch iechyd a lles sefydliadol. Byddai hyn yn nodi'r cyfeiriad, y blaenoriaethau a'r meysydd gwaith ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, a hefyd yn cynnwys cynllunio tymor byr a thymor canolig.
2. Mae angen egluro'r berthynas rhwng y gwasanaeth lechyd a Lles Galwedigaethol a SWSS mewn perthynas â lles sefydliadol ac iechyd gweithwyr. Gellid helpu hyn drwy ystyried cysyniad "meta" cyffredinol gan gynnwys y ddau faes e.e. "profiad gweithwyr".
3. Dylai'r Grŵp Arwain lechyd a Lles chwarae rôl fwy gweladwy a gweithredol yn llywio'r agenda, a dylid gofyn i Aelod Annibynnol ymuno â'r grŵp i hyrwyddo'r agenda lles ar lefel y Bwrdd

Cynllunio'r Gweithlu:

1. Adeiladu Tîm Cynllunio Gweithlu canolog pwrpasol gyda sgiliau a gwybodaeth arbenigol i gefnogi a gwreiddio cynllunio gweithlu strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y Bwrdd lechyd.
2. Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n glir a meithrin gallu a sgiliau drwy raglen ddatblygu strwythuredig.
3. Datblygu fframwaith cynllunio'r gweithlu ar draws y gweithlu, cynllunio a chyllid. Creu amserlen wedi'i halinio â'r fframwaith cynllunio a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Polisiau Cyflogaeth:

1. Mae angen adolygu'r broses ymchwilio mewn achosion disgyblu i sicrhau mai dim ond achosion priodol sy'n cael eu symud ymlaen drwy lwybr ffurfiol. I gefnogi hyn, mae angen datblygu coeden benderfynu ffurfiol a'i rhoi ar waith mewn partneriaeth â phartneriaid Undebau Llafur a'r LNC.
2. Dylid cynnal adolygiad llawn o holl achosion y Tribiwnlys Cyflogaeth er mwyn deall yn well pam y caniatawyd iddynt gyrraedd y cam hwn. Dylid cynnal yr adolygiad mewn partneriaeth â phartneriaid Undebau Llafur a'r LNC.
3. Mae Partneriaid Busnes WOD angen hyfforddiant ar y model partner busnes i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn cefnogi meysydd gwasanaeth.

2.4.4 Comisiynodd Llywodraeth Cymru waith i adolygu dull y sefydliad o ymgysylltu. Cynhaliwyd y gwaith, o'r enw *Gwrando ar Ddinasyddion, Cleifion, Staff a Phartneriaid*, gan Cath Broderick. Gwnaeth yr Adroddiad argymhellion mewn pedwar maes allweddol:

1. Rôl a swyddogaeth y Gyfarwyddiaeth Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu:
 - Adeiladu ar gryfderau'r tîm
 - Diffinio Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu
 - Datblygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen
 - Meithrin partneriaethau a sgysiau strategol gwell
2. Profiad y Claf, Ymgysylltu a Dealltwriaeth ar draws y Sefydliad:
 - Profiad, ymgysylltiad a mewnwelediad cydlynol a chydlynus
 - Datrys cwynion a phryderon
 - Lleisiau llyeg a phartneriaethau

3. Canfod y Patrymau
 - Creu swyddogaeth Gwybodaeth a Dealltwriaeth
 - Strwythur llywodraethu a mecanweithiau adrodd
4. Gwerthfawrogi Staff
 - Blaenoriaethu pwysigrwydd ymgysylltu â staff
 - Diffinio cyfrifoldeb dros ymgysylltu â staff

Trafodwyd canlyniad yr adolygiad yn sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024 a darparwyd diweddariad yn y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ym mis Ebrill 2024.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu ystyrlon, perthnasoedd, partneriaethau a chyfathrebu cadarn. Dylai pob elfen o waith y bwrdd iechyd roi cleifion, dinasyddion a staff wrth galon gwaith y bwrdd iechyd.

Fel rhan o'r argymhellion a restrir uchod, roedd y camau allweddol a argymhellwyd yn cynnwys: datblygu grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio dull sefydliadol; asesu effeithiolrwydd ac effaith profiad cleifion, ymgysylltu â dinasyddion a chydgyhyrchu mewn gwasanaethau traws-sefydliadol ac arbenigol; adolygu'r seilwaith ar gyfer llais llewyg yn systemau pwyllgor a chraffu'r Bwrdd Iechyd; edrych ar y strwythur llywodraethu a'r mecanweithiau adrodd.

Bydd y cynnydd o ran cyflawni yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.

2.4.5 Yn olaf yn yr adran hon mae'r *Fframwaith Mesurau Arbennig a'r meini prawf isgyfeirio* wedi'i ddiweddarau sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru. Bydd pob bwrdd iechyd yn cael Fframwaith ar gyfer isgyfeirio fel rhan o drefniadau diwygiedig yn Llywodraeth Cymru. Mae amser Cynghorwyr Annibynnol, a noddwyd gan Lywodraeth Cymru, bellach wedi dod i ben, a mater i'r bwrdd iechyd yw ystyried unrhyw ymgysylltu pellach ar y mater hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn awr yn sicrhau Ymyriadau a Chymorth gan Weithrediaeth y GIG, swyddogaeth newydd a sefydlwyd i weithio gyda'r GIG yng Nghymru. Mae'r Fframwaith a'r meini prawf ar gyfer isgyfeirio sydd wedi'u diweddarau wedi'u hatodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn. Bydd proses o ailosod y llinell sylfaen bresennol yn erbyn y meini prawf yn cael ei chynnal dros yr wythnosau nesaf a bydd pob Pwyllgor yn derbyn elfennau penodol o'r broses isgyfeirio er mwyn gallu olrhain a sicrhau cynnydd.

3.0 Ymweliadau a Digwyddiadau Allweddol

3.1 Gweithdy Cymunedol BetterbyBetsi: cyflwynwyd anerchiad agoriadol i gynhadledd o gydweithwyr o bob rhan o'r bwrdd iechyd, y mae pob un ohonynt yn bwrw ymlaen â phrosiectau a rhaglenni gwella. Mae dull gweithredu mudiad cymdeithasol BetterbyBetsi wedi bod yn codi momentwm ac mae'n agored i unrhyw un ar draws y bwrdd iechyd sy'n dymuno datblygu eu sgiliau o ran gwella.

3.2 Cyfres o ymweliadau â gwasanaethau ysbytai cymunedol gan gynnwys

- Ysbyty Cefni – ymweld â chleifion a staff mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Ysbyty Penrhos Stanley – ymweld â chleifion a staff ar draws y llu o wasanaethau a ddarperir yn yr ysbyty, dysgu am y Tîm Adnoddau Cymunedol a'r cynlluniau sydd ar waith i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain gan dderbyn gofal a chymorth
- Ysbyty Cymuned Bae Colwyn – ymweld â staff a chleifion, siarad â pherthnasau, deall y gwaith sy'n digwydd gan gynnwys rhai o'r heriau a'r cyfleoedd.

3.3 Ymweliad â Chanolfan Feddygol y Cei: cwrdd â phartneriaid y Practis yn Y Cei, yn ogystal â chydweithwyr yn y bwrdd iechyd o amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd.

- 3.4 Ymweliadau Gwasanaethau Patholeg: Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Glan Clwyd, yn gweld y prosesau a'r offer trawiadol sydd ar waith sy'n rheoli'r nifer cynyddol o brofion diagnostig sy'n cael eu cynnal ar draws y rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys dangos y defnydd o ddeallusrwydd artifisial fel rhan o weithdrefnau diagnostig ar gyfer cancer.
- 3.5 Ymweliad â Hosbis Tŷ'r Eos: cyfarfod â Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr i drafod datblygiad trefniadau partneriaeth ac i weld y cyfleusterau trawiadol sydd wedi'u hadnewyddu.
- 3.6 Gwasanaeth Rhagsefydlu, Wrecsam: roedd yr ymweliad yn cynnwys agoriad swyddogol y Gwasanaeth, un a gefnogwyd gan elusen o gyn-gydweithwyr yn y bwrdd iechyd. Mae Anesthetydd Ymgynghorol wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r gwasanaethau newydd, gan rannu'r canlyniadau trawiadol i gleifion sy'n cael llawdriniaeth cancer dwysedd uchel. Gallai hwn fod yn gyflwyniad y gallai'r Bwrdd ehangach fod â diddordeb arbennig ynddo.
- 3.7 Trafodaeth bwrdd crwn ar Effeithlonrwydd Safle Oer Abergele gyda chynrychiolwyr y Tîm Orthopedig. Gan fod y datblygiad newydd yn Ysbyty Llandudno ar y gweill, mewn perthynas â'r Ganolfan Gofal wedi'i Gynllunio/Canolfan Orthopaedeg, roedd y cyfarfod bwrdd crwn yn gyfle i drafod cynnydd a heriau o ran cyflawni nodau'r rhaglen waith. Mae'r gwaith o recriwtio i'r swyddi ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer y datblygiad bellach wedi cael ei roi ar waith wrth i'r amserlen adeiladu fynd rhagddi. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn Llandudno yn weithredol yn gynnar yn 2025.
- 3.8 Croesawodd y bwrdd iechyd ddau o swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod yr agenda ddigidol. Mae'n hanfodol bod modd sicrhau cefnogaeth ar gyfer y prif ddatblygiadau allweddol a fydd yn helpu i drawsnewid gofal, gan gynnwys y Cofnod Iechyd Electronig ar gyfer iechyd meddwl ac yna'r bwrdd iechyd ehangach. Roedd deall y prosesau asesu cleifion yn yr Adran Achosion Brys yn rhan o'r ymweliad ar gyfer cydweithwyr, gan gyflwyno cymhlethdodau'r systemau presennol sydd ar waith.
- 3.9 Ymweliad ag Ystafell Adran 136 yn Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd: i weld y gwaith adnewyddu sydd wedi digwydd, gan wella diogelwch yr amgylchedd i staff a chleifion.
- 3.10 Cartref Gofal Tŷ Marleyfield: ymweliad i ddysgu am y gwasanaeth sy'n cefnogi pobl sy'n gadael yr ysbyty sy'n darparu gofal yn nes at eu cartref, gan ganolbwyntio'n benodol ar ailalluogi. Ariannwyd yr estyniad drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o waith cynyddu capasiti gofal cymunedol yn yr ardal. Mae datblygiadau pellach ar waith ar hyn o bryd, o ganlyniad i lwyddiant Marleyfield.
- 3.11 Ymweliad â Hosbis Kentigern: Cyfarfod gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr yr Elusen a thaith o amgylch y cyfleusterau. Mae'r Hosbis yn darparu gwasanaethau hanfodol i bobl Gogledd Cymru ac, ynghyd â'r Hosbisau eraill yn y Rhanbarth, mae'r bwrdd iechyd yn awyddus i ddatblygu ei bartneriaeth ymhellach.
- 3.12 Cynhadledd Nyrsio: cyfle i siarad â siaradwyr gwadd a chydweithwyr nyrsio o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd, mewn digwyddiad nyrsio llwyddiannus, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, Angela Wood.

4.0 Materion gwasanaeth

Mae nifer o feysydd allweddol i'w dwyn i sylw'r Bwrdd, gan gynnwys y canlynol:

4.1 Y diweddaraf am Wasanaethau Fasgwlaidd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd Achos Busnes Fasgwlaidd a Rhwydwaith Fasgwlaidd Gogledd Cymru sydd hefyd yn cael ei adrodd yn

rheolaidd drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Bydd eitem strategol ar Lawfeddygaeth Fasgwlaidd yn cael ei hystyried gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024.

4.2 Dysgu o Ddigwyddiadau/Ymchwiliadau/Cwestau

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas ag adolygu ansawdd ac effeithiolrwydd ymchwiliadau yn cael ei nodi mewn man arall ar agenda'r Bwrdd. Mae'n bwysig nodi bod nifer yr hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol, a gyhoeddir gan Grwner Ei Fawrhydi, yn bryder sylweddol. Er bod datblygu a defnyddio System Rheoli Ansawdd newydd yn hanfodol wrth symud ymlaen, mae'r cyfle i edrych yn ôl a dysgu o'r digwyddiadau a'r ymchwiliadau sydd eisoes wedi digwydd yn bwysig hefyd. Fel Prif Weithredwr, rwy'n gwahodd y teuluoedd hynny, sy'n dymuno gwneud hynny, yr oedd sefyllfa eu hanwyliad yn destun hysbysiad Rheoliad 28 (Atal Marwolaethau yn y Dyfodol) i rannu eu profiad, i glywed am y gwelliannau sydd eisoes ar y gweill ac i ddylanwadu ar y ffordd y mae'r bwrdd iechyd yn gweithio yn y dyfodol. Mae nifer o gyfarfodydd eisoes wedi'u trefnu.

5.0 Diweddariadau gan Gyfarwyddwyr Gweithredol

Mae hon yn adran newydd o adroddiad y Prif Weithredwr a bydd yn golygu bod modd darparu diweddariadau byr i'r Bwrdd o bryd i'w gilydd.

Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi ymweld â Chlinig Bae Cinmel ac Ysbyty Bryn Beryl, a mynychu Gwobr Dysgwr y Flwyddyn, ac roedd yn brif siaradwr yn Nawns Ward y Plant Ardal y Dwyrain. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd wedi cynnal sawl ymweliad gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn ogystal ag ymweliad gan Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio Cymru.

Ar 10 Mai cynhaliwyd y Gynhadledd a'r Gwobrau Nyrsio a Bydwreigiaeth cyntaf erioed. Yn ystod y digwyddiad diwrnod cyfan, a noddwyd ac a gefnogwyd gan nifer o sefydliadau allanol, bu dros 150 o gydweithwyr o bob rhan o'r teulu Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cymryd rhan wyneb yn wyneb ac ar-lein. Gan gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol y Fydwaig a Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys, roedd y gynhadledd yn gyfle i gydnabod, dathlu a diolch i'n cydweithwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth am eu cefnogaeth a'u hymroddiad, gan ddarparu'r gofal gorau i'n cleifion ledled Gogledd Cymru. Roedd yn ddiwrnod pleserus iawn gyda nifer o siaradwyr gwadd allweddol gan gynnwys Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio (CNO), Helen Whyte, Coleg Brenhinol y Nyrsys (RCN), Julie Richards, Coleg Brenhinol y Bydwreigedd (RCM) a Sam Foster o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (RCN).

Daeth y diwrnod i ben drwy gyhoeddi a chyflwyno'r gwobrau blynyddol ynghyd â raffl gyda gwobrau a roddwyd gan gwmnïau lleol. Gellir gweld lluniau o'r diwrnod ar y fewnwyd - [Uchafbwyntiau o'n Cynhadledd a'n Gwobrau Nyrsio a Bydwreigiaeth 2024 \(sharepoint.com\)](https://sharepoint.com)

Casgliad

Bwriad yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r prif weithgareddau a gyflawnir gan y Prif Weithredwr yn ogystal â materion pwysig i dynnu sylw atynt a allai fod yn destun adroddiadau manylach eraill neu beidio. Byddai adborth ar yr adroddiad yn cael ei groesawu.



Teitl yr adroddiad: <i>Report title:</i>	Adroddiad yr Is-Gadeirydd			
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Y Bwrdd Iechyd			
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	30 Mai 2024			
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y prif feysydd ymgysylltu a gynhaliwyd ers cael ei benodi'n Is-gadeirydd			
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	Y Bwrdd i drafod a nodi cynnwys yr adroddiad			
Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i>	Is-gadeirydd			
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Is-gadeirydd			
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input checked="" type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Ar gyfer sicrwydd <i>For Assurance</i> <input type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: <i>Assurance level:</i>	Arwyddocaol <i>Significant</i> <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol <i>Acceptable</i> <input type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol <i>Partial</i> <input checked="" type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd <i>No Assurance</i> <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>Dim hyder / tystiolaeth o ran cyflawni</i>
Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gael sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn: <i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i>				
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: <i>Link to Strategic Objective(s):</i>	Mae'r cyfarfodydd yn ymdrin ag amrywiaeth o flaenoriaethau strategol.			
Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol: <i>Regulatory and legal implications:</i>	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn.			

<p>Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</i></p>	Amherthnasol ar hyn o bryd.
<p>Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</i></p>	Amherthnasol ar hyn o bryd.
<p>Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)</p> <p><i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</i></p>	Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau.
<p>Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn.
<p>Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn.
<p>Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori</p> <p><i>Feedback, response, and follow up summary following consultation</i></p>	Amherthnasol.
<p>Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)</p> <p><i>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</i></p>	Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau.
<p>Rheswm dros gyflwyno adroddiad i bwyllgor cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)</p> <p><i>Reason for submission of report to confidential Committee (where relevant)</i></p>	Amherthnasol.
<p>Y Camau Nesaf: <i>Implementation of recommendations</i> Amherthnasol i'r adroddiad hwn.</p>	

Adroddiad yr Is-gadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 30 Mai 2024

Yn ystod y ddau fis diwethaf, rydw i wedi parhau i ddysgu, ond ar ôl chwe mis yn y swydd rydw i bellach yn colli'r hawl i ddefnyddio fy mod i'n newydd fel esgus!

Iechyd Meddwl

O ran **Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLA)**, rwyf wedi cynnal nifer o ymweliadau sy'n canolbwyntio ar Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHTs). Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Nant y Glyn, Bae Colwyn (yn gwasanaethu Dwyrain Conwy)
- Ysbyty Alltwen a Hafod Hedd (yn gwasanaethu De Gwynedd)
- Tîm Gogledd Gwynedd yn Hergest
- Llys Dyfrig (yn gwasanaethu Gorllewin Conwy)

Mae'r timau hyn yn gwneud llawer o waith da ac fe wnaeth cyfleusterau rhagorol a gwaith tîm gwych y tîm pobl hŷn yn Hafod Hedd argraff arbennig arna i.

Ond roedd yr ymweliadau hyn hefyd yn tynnu sylw eto at y pwysau sylweddol ar ein Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, gyda chleifion mewn llawer o achosion yn aros cryn amser (nifer o wythnosau) i gael cydlynnydd gofal (gofyniad statudol o dan y Mesur Iechyd Meddwl). Mae hwn yn faes risg sylweddol, ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu wrth i dimau gwaith cymdeithasol awdurdodau lleol dynnu'n ôl yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd y rhain yn arfer cael eu cyd-leoli gyda'n Timau Iechyd Meddwl Cymunedol: roedd timau Gwynedd yn mynd drwy'r broses o 'ddatgysylltu' wrth i mi ymweld â nhw ddiwedd mis Ebrill. Yn achos Gwynedd, dywedwyd wrthyf fod adolygiad ar y cyd o gleifion/cleientiaid wedi golygu mai dim ond oddeutu chwarter o'r achosion a ddyrannwyd i'r Awdurdod Lleol, er eu bod eisoes wedi cyfrannu hanner y staff. Mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at fwy o bwysau ar staff a mwy o amser aros i gael cydlynnydd gofal

Mae ailsefydlu perthynas waith dda gydag awdurdodau lleol yn flaenoriaeth allweddol i mi. Rwyf wedi cytuno ag Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn Wrecsam ac is-gadeirydd y Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl) y byddwn yn cynnal ymchwil gyda Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Awdurdodau Lleol i ddeall cyflwr presennol gweithio ar y cyd a beth sydd wedi achosi tensiynau yn y gorffennol. Dylai'r canfyddiadau o hyn fod wedi dod i'r amlwg yn ein cyfarfod nesaf o'r Bwrdd a byddant yn gosod y sylfaen ar gyfer un neu nifer o weithdai gyda staff rheng flaen yr awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd.

Yn y cyd-destun hwn, fe wnes i gadeirio cyfarfod wyneb yn wyneb o'r Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, a oedd yn eithaf llwyddiannus yn fy marn i. Ar awgrym y Prif Weithredwr, rwyf hefyd yn dechrau ar gyfres o gyfarfodydd gydag Aelodau'r Cabinet dros Wasanaethau Oedolion (ac mewn rhai achosion, y rheini ar gyfer Gwasanaethau Plant hefyd) ym mhob un o'n chwe awdurdod lleol.

Cefais gyfarfod buddiol hefyd gyda chyfarwyddwyr Mind Conwy a Dyffryn Clwyd, ac mae hyn wedi ailsefydlu cysylltiadau gyda'r Bwrdd Iechyd - arferiad, mae'n debyg sydd wedi peidio â bod. Bydd Cyfarwyddwr Mind Conwy, sef Denise Roberts, yn ymuno â Phartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Yn fewnol, fe wnes i barhau â'm cyfarfodydd rheolaidd gyda Teresa Owen a gyda Ros Alstead, ein cynghorydd allanol a chw'rdd â Vicky Jones, Pennaeth Strategaeth IMAD.

Cefais ymweliad diddorol iawn â Gwasanaeth Pobl Ifanc Gogledd Cymru (NWAS) yn Abergele lle cefais gyfle i siarad ag amrywiaeth o uwch staff o **Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl**

Ifanc (CAMHS) a chlywed am y gwaith gwella strategol dwys sydd wedi bod ar y gweill. Byddaf yn ymweld â mwy o'r timau CAMHS cymunedol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Bûm hefyd mewn digwyddiad ymgynghori yng Ngogledd Cymru ar y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed ddrafft a digwyddiadau ymgynghori a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant ddrafft.

Yn olaf, eisteddais ar y Grŵp Pŵer Rhyddhau sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r Rheolwyr Ysbyty Cyswllt (unigolion annibynnol sy'n cael eu penodi sy'n adolygu penderfyniadau a wnaed o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) a oedd yn cysylltu'n dda â chyfarfod llawn cyntaf y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, ac roeddwn yn bresennol ar ddiwrnod cyntaf y gynhadledd ragorol ar '*Iechyd Meddwl sy'n Dda i Gleifion*' a drefnwyd gan y Bwrdd (ac yn benodol Dr Alberto Salmoraghi) gyda chymorth Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Gofal Sylfaenol a Chymunedol

O ran Gofal Sylfaenol a Chymunedol, rwyf wedi cynnal amrywiaeth eithaf eang o gyfarfodydd ac ymweliadau dros y ddau fis diwethaf. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Ffion Johnson - mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi gofyn iddi gydlynu gwaith ar Ofal Sylfaenol ac sydd, gyda Chris Stockport, wedi cynnull y Bwrdd Gofal Sylfaenol sydd wedi'i addo ers tro byd.
- Bethan Bailey - o'r Tîm Trawsnewid sy'n gweithio ar faterion gofal sylfaenol.
- Richard Price - Cynghorydd Optometreg y Bwrdd, sy'n hyrwyddo menter 'Hyfforddi a Thrin' bwysig, ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, i uwchsgilio optometryddion gofal sylfaenol i roi triniaeth a wneir fel arfer mewn gofal eilaidd wrth symud i'r rhestrau aros ar gyfer triniaeth o'r fath
- Simon Jones - Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal Sylfaenol yn y Dwyrain
- Prestatyn Iach, practis mawr a reolir, gydag amrywiaeth drawiadol o wasanaethau'n cael eu darparu gan dîm amlddisgyblaethol
- Practis Meddygol Gwyrch yn Abergele, practis sy'n cael ei gontractio gan y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac sy'n ffynnu
- Mae'r gwasanaeth Awdioleg, sydd wrthi'n cyflwyno gwasanaeth rheng flaen ym mhob practis meddyg teulu ar draws y rhanbarth (er ei fod wedi wynebu bwlch yn sgil cyfyngiadau ariannol.) Gallai hyn fod yn fodel ar gyfer gwasanaethau arbenigol eraill, yn fy marn i
- Y Tîm Adnoddau Cymunedol ym Mharc Eirias ac Ysbyty Cymuned Bae Colwyn

Mae llawer iawn o arferion da ac arloesedd i adeiladu arnyn nhw, ond mae llawer o'r rheini sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol (efallai'n arbennig y tu allan i ddarparu gwasanaethau meddygon teulu) yn teimlo'n ynysig, yn gymharol ddi-gymorth gan y sefydliad ehangach ac yn rhwystredig braidd bod ganddyn nhw botensial nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon i gyflawni'n sylweddol ar agenda ymyrraeth gynnar Llywodraeth Cymru.

Ar ben hynny, fel yr wyf wedi dweud eisoes, mae angen canolbwyntio'n gryf yn gyntaf ar ddatblygu a gweithredu dull cydlynol o ymdrin â phractisiau a reolir ac yn ail ar ddatblygu system lawer mwy cydlynol i ddarparu gofal y tu allan i oriau y tu allan i Adrannau Achosion Brys, drwy integreiddio'r gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, Ysbytai Cymunedol ac Unedau Mân Anafiadau, Timau Adnoddau Cymunedol a'r gwasanaeth 111 yn well.

Yn olaf, roeddwn yn bresennol yn y Gynhadledd Addysg a Hyfforddiant Gofal Sylfaenol a Chymunedol AaGIC cyntaf yng Nghaerdydd.

Rhwydwaith yr Is-gadeiryddion

Rwyf wedi parhau i gymryd rhan yn y Rhwydwaith Is-gadeirydd, a gynullwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru a gafodd gyfarfod wyneb yn wyneb buddiol iawn ddechrau mis Mai, ynghyd â chyfarfod ar wahân o grŵp gorchwyl a gorffen newydd ar bractisau a reolir. Rwyf yn parhau i ddosbarthu nodyn briffio ar faterion allweddol a drafodwyd mewn cyfarfodydd rhwydwaith yn ogystal â chyflwyniadau ar gyfer cydweithwyr a allai fod â diddordeb mewn eitemau ar yr agenda.

Gareth S. Williams
Is-gadeirydd

16 Mai 2024



Teitl adroddiad: <i>Report title:</i>	Adroddiad Archwilio Blynyddol ac Asesiad Ffurfiol			
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Y Bwrdd Iechyd			
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	Dydd Iau 30 Mai 2024			
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	<p>Mae'r adroddiad Archwilio Blynyddol (atodiad un) i aelodau'r Bwrdd yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan Archwilio Cymru yn 2023.</p> <p>Mae'r adroddiad Asesiad Ffurfiol (atodiad dau) yn edrych ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cefnogi llywodraethu da a gwneud defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau.</p>			
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	<p>Gofynnir i'r Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • DERBYN a chefnogi'r adroddiad archwilio blynyddol; • DERBYN a chefnogi'r adroddiad asesiad ffurfiol; • CYTUNO y bydd y tîm gweithredol yn rhoi sylw i'r cyfleoedd i wella a amlinellir yn ymateb y rheolwyr i'r asesiad ffurfiol (atodiad dau); • CYTUNO y bydd y Pwyllgor Archwilio'n parhau i graffu'r gwaith o weithredu'r argymhellion. 			
Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i>	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol			
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Philippa Peake-Jones, Pennaeth Materion Corfforaethol			
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Am Sicrwydd <i>For Assurance</i> <input checked="" type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: <i>Assurance level:</i>	Arwyddocaol Significant <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol Acceptable <input type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol Partial <input checked="" type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd No Assurance <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>No confidence / evidence in delivery</i>
<p>Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:</p> <p><i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i></p>				

Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:	Amcan 1 Creu Sefydliad Effeithiol
Link to Strategic Objective(s):	
Goblygiadau rheoleiddio a lleol:	N/A
Regulatory and legal implications:	
Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?	N/A
In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?	
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?	N/A
In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?	
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)	CRR-16 – Arweinyddiaeth / Mesurau Arbennig
Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)	BAF 2023/24 SP16 Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith	
Financial implications as a result of implementing the recommendations	Dim goblygiadau ariannol
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith	
Workforce implications as a result of implementing the recommendations	Dim goblygiadau gweithlu
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori	
Feedback, response, and follow up summary following consultation	N/A
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)	BAF 2023/24 SP16 Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd
Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)	
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)	
Reason for submission of report to confidential board (where relevant)	N/A
Camau Nesaf:	
<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu argymhellion 	
Next Steps:	
<ul style="list-style-type: none"> Implementation of recommendations 	

Rhestr o Atodiadau:

List of Appendices:

- Atodiad 1: Adroddiad Archwilio Blynyddol
- Atodiad 2: Aseiad Ffurfiol

ADRODDIAD ARCHWILIO BLYNYDDOL AC ASESIAD FFURFIOL

1. CEFNDIR

Mae'r adroddiad archwilio blynyddol sy'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau a gytunwyd i'r adroddiad asesiad ffurfiol, a chytunir bod yr adroddiad yn rhoi barn deg a chytbwys am y sefydliad, gan gydnabod yr agweddau positif y cyfeiriwyd atynt a'r pethau hynny sydd angen eu gwella ymhellach.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r canfyddiadau o dan dair thema:

- Trefniadau llywodraethu;
 - Dull y gwaith cynllunio strategol; a
 - Trefniadau ehangach i gynorthwyo gwneud defnydd effeithlon, effeithlon a darbodus o adnoddau.
-

2. ADRODDIAD ARCHWILIO BLYNYDDOL

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru ac yn cynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio'r cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd lechyd i wneud defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau.

Roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys:

- Lluniodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW) farn deg a chywir amodol am gyfrifon y Bwrdd lechyd ar gyfer 2022-23 oherwydd ni allai gael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch cywirdeb y balansau agoriadol oherwydd yr amheuon a gododd yn 2021-22.
- Roedd y farn deg a chywir ar gyfer 2022-23 hefyd yn amodol o ran gwariant a adroddwyd yn ystod y flwyddyn oherwydd na allai'r AGW gadarnhau gwerth y £122 miliwn o ansicrwydd a adroddwyd yn 2021-22 a ddylai fod wedi cael ei gynnwys yng ngwariant 2022-23.
- Roedd y farn am reoleidd-dra yn 2022-23 hefyd yn amodol ar ôl i'r Bwrdd achosi gwariant afreolaidd am daliadau a wnaed i aelod gweithredol dros dro o'r Bwrdd.
- Ynghyd â barn archwilio'r AGW, cyflwynodd hefyd adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd lechyd i dynnu sylw at yr amheuon uchod o ran barn deg a chywir a rheoleidd-dra a methiant y Bwrdd i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy yn ei le.
- Yn dilyn cyfnod o aflonyddwch a chorddi sylweddol yn 2023, mae'r Bwrdd bellach mewn sefyllfa fwy sefydlog. Nid yw'r diffygion gweithredol a ddisgrifiwyd yn fy adroddiad blaenorol ar effeithiolrwydd y Bwrdd i'w gweld mwyach ac mae'r perthnasoedd gweithio rhwng uwch-arweinwyr yn fwy positif ar y cyfan. Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd newydd rai heriau sylfaenol i'w datrys o hyd fel rhan o ymateb y sefydliad i fframwaith mesurau arbennig Llywodraeth Cymru.

- Fel rhan o waith ehangach i sefydlogi'r sefydliad, mae trefniadau sicrwydd corfforaethol allweddol yn cael eu cryfhau. Fodd bynnag, mae angen strategaeth glir ar y Bwrdd lechyd i'w gynorthwyo i ddatblygu modelau gwasanaeth ariannol gynaliadwy sy'n darparu gwasanaethau da i ateb y galw gofal iechyd presennol ac i'r dyfodol.
- Mae hefyd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau digon o sicrwydd o ran effaith y gweithredu a wnaed i ddarparu ei gynlluniau, lliniaru risg, gwella perfformiad gwasanaethau a mynd i'r afael â'r argymhellion archwilio.
- Mae angen gweithredu brys a chynaliadwy i fynd i'r afael â'r amseroedd aros hir am wasanaethau orthopedig. Mae ymrwymiad clir i wella amseroedd aros ond gallai gymryd tair blynedd neu fwy cyn i'r rhestr aros orthopedig ddychwelyd i lefelau cyn-bandemig.
- Dim ond peth cynnydd a wnaeth y Bwrdd lechyd yn gweithredu'r argymhellion blaenorol ar gyfer ôl-apwyntiadau i gleifion allanol ac mae risgiau clinigol sylweddol o hyd yn gysylltiedig ag aros am ôl-apwyntiadau ar draws nifer o arbenigeddau.
- Drwy Gymru gyfan, er bod gweithlu'r GIG wedi cynyddu, mae swyddi gwag o hyd mewn sawl maes allweddol, a salwch a throsiant staff uchel sy'n arwain at orddibynnu ar staff asiantaeth. Yn fwy positif, mae GIG Cymru yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.
- Er bod gan y Bwrdd lechyd strategaeth uchelgeisiol ac eithaf clir ar gyfer y gweithdy, mae angen iddo gryfhau'n sylweddol ei gynlluniau gweithredu ynghyd â'i gapasiti i gynllunio'r gweithlu.

Rhoddir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1.

3. ASESIAID FFURFIOL 2023

Roedd Asesiad Ffurfiol 2023 yn canolbwyntio ar ein trefniadau corfforaethol i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau.

Roedd yr asesiad yn gyffredinol yn casglu *“yn dilyn heriau sylweddol yn 2023, mae'r Bwrdd lechyd yn fwy sefydlog ac yn y broses o gryfhau ei drefniadau sicrwydd corfforaethol allweddol, ond mae angen strategaeth glir arno i'w gynorthwyo i ddatblygu modelau gwasanaeth ariannol gynaliadwy sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd i ateb y galw gofal iechyd presennol ac i'r dyfodol. Mae hefyd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau digon o sicrwydd o ran effaith y gweithredu a wnaed i ddarparu ei gynlluniau, lliniaru risg, gwella perfformiad gwasanaethau a mynd i'r afael â'r argymhellion archwilio”*

Mae prif ffocws y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd lechyd i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Mae prif negeseuon yr Asesiad Ffurfiol gan Archwilio Cymru'n cynnwys:

- **Bwrdd Tryloyw ac Effeithiol** - barnodd Archwilio Cymru fod y Bwrdd lechyd yn gynyddol yn dangos mwy o dryloywder i'r cyhoedd gyda busnes y Bwrdd ond mae cyfleoedd o hyd i wella a safoni'r trefniadau hyn ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd. Er bod gan y Bwrdd lechyd reolau sefydlog ffurfiol a diweddar a

chyfarwyddiadau ariannol sefydlog i gefnogi busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau, mae'r gwaith o adolygu polisiâu ar ei hôl hi o hyd.

- **Systemau Sicrwydd Corfforaethol** – Barnodd Archwilio Cymru fod y Bwrdd lechyd wedi diwygio ei fframweithiau risg a pherfformiad ac yn datblygu system rheoli ansawdd newydd. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i wreiddio'r trefniadau newydd hyn yn iawn, datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) ymhellach, cryfhau sut y rheolir cwynion a digwyddiadau, a chryfhau prosesau ar gyfer olrhain cynnydd argymhellion archwilio.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd yn diwygio ei drefniadau rheoli risg a BAF ond mae angen amcanion strategol clir arno i gyplysu'r risgiau strategol iddynt a ffocws cryfach ar effaith ei weithredu i liniaru risg. Mae trefniadau'r Bwrdd i glywed yn uniongyrchol gan gleifion yn gwella ac mae'n bwriadu creu mwy o gyfleoedd i glywed yn uniongyrchol gan staff drwy ymweliadau gwasanaeth a chlywed straeon staff yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

- **Dull Corfforaethol o Gynllunio** – Barnodd Archwilio Cymru fod gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth dda o'i risgiau a heriau strategol sylweddol ond yn cael trafferth cwrdd â'r galw am wasanaethau ac nid yw ei wasanaethau'n ariannol gynaliadwy ar hyn o bryd. Mae angen dull cynllunio cliriach a mwy hirdymor ar y Bwrdd sy'n ystyried yn briodol sut i ailwampio gwasanaethau i gwrdd â'r galw gofal iechyd presennol ac i'r dyfodol yn gynaliadwy. Mae hefyd angen ffocws ar adrodd, monitro a sicrwydd o ddarparu cynlluniau sy'n cyflawni'r amcanion ac effeithiau bwriedig yn llwyddiannus.
- **Dull Corfforaethol o Reoli Adnoddau Ariannol** – Barnodd Archwilio Cymru er bod y Bwrdd lechyd wedi cwrdd â'i ddyletswydd statudol i wario o fewn ei ddyraniad ariannol ar gyfer 2020-23, ei fod yn wynebu diffyg ariannol sylfaenol sylweddol. Mae'n glir bod angen strategaeth ariannol gadarn wedi'i chysylltu i fodel gwasanaeth clinigol cynaliadwy o ansawdd uchel.

Mae dull cynllunio ariannol y Bwrdd lechyd yn achosi dull trafodiadol o reoli ei sefyllfa ariannol, ac er bod hyn yn creu rhai arbedion yn ystod y flwyddyn, nid yw'n mynd i'r afael yn iawn â diffyg ariannol sylfaenol y Bwrdd lechyd. Mae'n glir bod angen strategaeth ariannol i ategu'r cynlluniau tymor canolig i hirdymor sy'n llawn ystyried y twf yn y galw am ofal iechyd a chefnogi modelau gwasanaeth clinigol sy'n ariannol gynaliadwy ond hefyd yn lleihau'r diffyg ariannol sylfaenol.

Teitl adroddiad: <i>Report title:</i>	Cynllun Cyflawni Blynyddol			
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Y Bwrdd Iechyd			
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	30 Mai 2024			
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	Pwrpas y papur hwn yw rhoi trosolwg o sefyllfa gyflawni diwedd blwyddyn Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24, yn ogystal â statws diweddaraf y gwaith o ddatblygu cynllun 2024/25.			
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd NODI'R cynnydd cyffredinol a wnaed ynghyd â'r heriau a amlygwyd.			
Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i>	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr (Swyddog Atebol) Dr Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Swyddog Gweithredol Arweiniol)			
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella			
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input checked="" type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Am sicrwydd <i>For Assurance</i> <input type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: <i>Assurance level:</i>	Arwyddocaol <i>Significant</i> <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol <i>Acceptable</i> <input type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol <i>Partial</i> <input type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd <i>No Assurance</i> <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>No confidence / evidence in delivery</i>
Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gael sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn: <i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i>				
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: <i>Link to Strategic Objective(s):</i>	Cefnogi'r Cynllun Blynyddol a'r Mesurau Arbennig			
Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol: <i>Regulatory and legal implications:</i>	Amherthnasol			

<p>Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal? <i>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</i></p>	Amherthnasol
<p>Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal? <i>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</i></p>	Amherthnasol
<p>Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol) <i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)</i></p>	Amherthnasol
<p>Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith <i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Amherthnasol
<p>Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith <i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Amherthnasol
<p>Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori <i>Feedback, response, and follow up summary following consultation</i></p>	Amherthnasol
<p>Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) <i>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</i></p>	Amherthnasol
<p>Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) <i>Reason for submission of report to confidential board (where relevant)</i></p>	Amherthnasol
<p>Y Camau Nesaf: <i>Y Camau Nesaf:</i> Implementation of recommendations</p>	
<p>Rhestr o Atodiadau: <i>List of Appendices:</i> Atodiad 1: Adroddiad Monitro Chwarter 4 2023/24 Atodiad 2: Cynllun Cyflawni Blynnyddol 2024-25</p>	

Diweddariad ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o sefyllfa gyflawni diwedd blwyddyn Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 i Aelodau'r Bwrdd, yn ogystal â statws diweddaraf y gwaith o ddatblygu cynllun 2024/25.

Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn 2023/24

Roedd Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 yn cynnwys 180 o gamau gweithredu allweddol i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2024. Yn dilyn hynny, ymgorfforwyd 42 o'r camau gweithredu hyn yng nghynllun ymateb Mesurau Arbennig 2023/24 ac adroddwyd arnynt drwy'r fframwaith adrodd ar y Mesurau Arbennig. Gan fod y rhain wedi cael eu hadrodd drwy'r dulliau Mesurau Arbennig, maent wedi cael eu heithrio o'r adroddiad hwn er mwyn osgoi dyblygu.

Mae'r tabl crynodeb lefel uchel a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r 138 cam gweithredu allweddol sy'n weddill yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol y disgwylir iddynt gael eu cyflawni erbyn diwedd Chwarter 4 2023/24.

Cyf	Cyfan swm	Maes Perfformiad Allweddol	Wedi ei gwblhau erbyn Ch4	Heb ei gwblhau erbyn Ch4
P1	23	Atal a Diogelu Iechyd	20	3
P2	19	Gofal Sylfaenol	10	9
P3	5	Gofal wedi'i Gynllunio	3	2
P4	1	Gofal Brys a Gofal Argyfwng	0	1
P5	10	Canser	4	6
P6	3	Iechyd Meddwl	3	0
P7	4	Camddefnyddio Sylweddau	3	1
P8	3	Anabledd Dysgu	3	0
P9	7	Gwasanaethau Merched	1	6
P10	2	Plant	1	1
P11	3	Darpariaeth Ehangach	0	3
P12	4	Y gweithlu	3	1
P13	12	Digidol, Data a Thechnoleg	9	3
P14	14	Ystadau a Chyfalaf	10	4
P15	13	Partneriaethau	9	4
P16	1	Arweinyddiaeth y Bwrdd a llywodraethu	1	0
P18	3	Ansawdd, Arloesi a Gwella	3	0
P19	11	Arweinyddiaeth a chyfrifoldeb Cymdeithasol a Dinesig	10	1
Cyfan swm	138		93	45

Tabl 1 – Trosolwg o gwblhau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24

Mae'r tabl yn dangos cyfradd gyflawni o **67%** (93/138) o ran y camau gweithredu sydd i fod i gael eu cyflawni erbyn Chwarter 4. Mae'r camau gweithredu hynny na chawsant eu cwblhau yn cael eu holrhain fel 'camau gweithredu hwyr 2023/24'

Mae Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r camau gweithredu unigol hwyr.

▪ Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25

Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Tair Blynedd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth, mae'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sylfaenol ar gyfer 2024/25 wedi cael ei ddatblygu ac mae wrthi'n cael ei roi ar waith. Mae'r cynllun hwn hefyd yn ymgorffori'r cynllun ymateb Mesurau Arbennig sydd ynddo, er mwyn creu un cynllun integredig a threfniadau monitro.

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cyd-fynd â'r heriau a'r cynlluniau diweddaraf i fynd i'r afael â nhw, bydd y broses rheoli newid a ddefnyddiwyd mewn Mesurau Arbennig yn cael ei defnyddio yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Bydd hyn yn galluogi'r cynllun i fod yn ddigon ystyth i ymgorffori, ymysg pethau eraill, ddisgwyliadau diweddaraf Mesurau Arbennig Llywodraeth Cymru wrth iddynt ddod i law.

Mae hwn yn gam pwysig yn nhaith Mesurau Arbennig y sefydliad, gan ei fod yn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r flwyddyn ddiwethaf i brosesau a gallu 'busnes fel arfer' sy'n rhan o ymdrechion i greu sefydliad effeithiol ar gyfer y tymor hir.

Mae Cynllun Cyflawni Blynyddol llawn 2024/25 ar gael yn Atodiad 2.

▪ Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd lechyd **NODI'R** cynnydd cyffredinol a wnaed ynghyd â'r heriau a amlygwyd.



Teitl adroddiad: <i>Report title:</i>	Papur Sicrwydd Lefelau Staffio Nyrsys		
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Y Bwrdd Iechyd		
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	Dydd Iau, 30 Mai 2024		
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	<p>Yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd gyfrifo a chymryd pob cam rhesymol i gynnal y lefelau staff nyrsio mewn wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt, a wardiau cleifion mewnol pediatrig gan ddefnyddio'r prosesau a ragnodir yn y Ddeddf.</p> <p>Mae'r papur hwn yn cyflwyno adroddiad sicrwydd blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) 2023/24 ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2023 – 5 Ebrill 2024.</p> <p>Mae Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan wedi cynhyrchu'r templed safonol y mae'n rhaid ei ddefnyddio i lunio'r adroddiad sicrwydd blynyddol i sicrhau cysondeb yn y wybodaeth gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.</p>		
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	<p>Gofynnir i'r Bwrdd</p> <ul style="list-style-type: none"> • dderbyn yr adroddiad hwn er mwyn cael sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol: <ol style="list-style-type: none"> 1. Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflawni ei "ddyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio" ymhob ward sy'n dod o dan feini prawf cynhwysiant Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. 2. Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu Cyflwyniad Blynyddol i'r Bwrdd yn manylu ar y lefelau staff nyrsio a gyfrifwyd • nodi bod asesiad ariannol sy'n deillio o ddyletswydd statudol y sefydliad i gyfrifo lefelau staff nyrsio wedi cael ei gyflwyno drwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i'w ystyried yn y cylch cynllunio ariannol ar gyfer 2024/25. 		
Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i>	Mrs Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth		
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Mrs Anne-Marie Rowlands, Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Addysg a Rheoleiddio Proffesiynol Miss Joanna Brown, Arweinydd y Rhaglen Staff Nyrsio		
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Am sicrwydd <i>For Assurance</i> <input checked="" type="checkbox"/>
Lefel sicrwydd:	Arwyddocaol <i>Significant</i>	Derbyniol <i>Acceptable</i>	Rhannol <i>Partial</i>
			Dim Sicrwydd <i>No Assurance</i>

Assurance level:	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>No confidence / evidence in delivery</i>

Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gael sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:

Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:

Mae Gweithgor System Rheoli Ansawdd ar waith gyda chynrychiolwyr o'r holl swyddogaethau arbenigol allweddol a chynhaliwyd gweithdy dylunio cyflym ym mis Ebrill 2024 gydag arweinwyr clinigol a chorfforaethol i gefnogi'r datblygiad.

Mae'r Fframwaith System Rheoli Ansawdd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Mai 2024 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Gwell mynediad at adnoddau lechyd Meddwl Amenedigol

Mae tua 1 o bob 4 merch yn y Deyrnas Unedig yn wynebu anawsterau iechyd meddwl amenedigol. I baratoi ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl Mamau, mae Bydwragedd Amenedigol, Ymwelwyr Iechyd a'r Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol wedi dod at ei gilydd i greu adran Iechyd Meddwl Amenedigol bwrpasol ar BetsiNet

Mae'r adran yn cynnwys padlet thematig sy'n cynnig amrywiol adnoddau fel taflenni a thudalennau gwe i'r staff eu harchwilio.

Mae'r adnoddau hyn yn cael eu cyfuno er mwyn i staff y Bwrdd Iechyd allu cael gafael arnyn nhw'n rhwydd, ac maen nhw'n ganolbwynt ar gyfer cael gafael ar ddeunyddiau gwerthfawr ar y thema amenedigol. Nod y fenter hon yw cefnogi staff i feithrin sgysiau ystyrlon ymysg teuluoedd sy'n wynebu heriau iechyd meddwl amenedigol, a allai godi o genhedlu a hyd at flwyddyn ar ôl rhoi genedigaeth.

Ar ben hynny, mae adran wedi'i chynnwys i ddarparu gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau hyfforddiant iechyd amenedigol sydd ar y gweill i staff, gan gynnwys rhywfaint o hyfforddiant ar-lein y gellir ei gwblhau ar adeg sy'n gyfleus i staff.

DIOGELWCH CLEIFION

Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (NRI)

Gellir dadansoddi'r digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol a ddigwyddodd yn ôl themâu fel a ganlyn:

- Briw pwyso a gafwyd drwy ofal iechyd (HAPU), Graddfa 3 neu uwch
- Cleifion mewnol yn cwmpo

Yn y cyfnod cyntaf, roedd prif themâu eraill y dulliau dysgu o ddigwyddiadau caeedig yn ymwneud ag atal heintiau, yr angen i ddilyn prosesau gwirio cywir i atal digwyddiadau 'byth' a monitro dilynol a/neu ymchwiliadau ar gyfer gofal a thriniaeth cleifion yn briodol.

Mae pob digwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol yn destun Adolygiad Cyflym Gwneud yn Ddiogel, Panel Dysgu Cyflym o bosibl (dan arweiniad swyddog gweithredol clinigol neu ddirprwy), ac ymchwiliad pellach. Mae'r dysgu a'r camau gweithredu sy'n deillio o bob un yn cael eu cofnodi ar fodiwl rheoli digwyddiadau Datix Cymru. Caiff ffurflenni dysgu eu drafftio ar gyfer pob ymchwiliad a'u cyflwyno'n genedlaethol i Weithrediaeth GIG Cymru i roi sicrwydd o ran dysgu a chamau gweithredu.

Cynhaliwyd adolygiad bwrdd gwaith y Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllun gwella Hysbysiad o Dramgwydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gyda phob Cymuned Iechyd Integredig gyda'r nod o adolygu cynnydd a chefnogaeth yn erbyn y camau gweithredu yn y cynllun gwella trosfwaol.

Dyletswydd Trais Difrifol

Cafodd y Ddyletswydd Trais Difrifol (SVD) ei chyflwyno fel rhan o Ddeddf Llysoedd a Dedfrydu Troseddau'r Heddlu 2022, ac mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau penodol yn gweithio gyda'i gilydd i atal a lleihau trais difrifol yn eu hardal leol. Mae'r Ddyletswydd yn cael ei chefnogi gan ganllawiau cenedlaethol, a gafodd eu cwblhau ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r canllawiau'n cynnwys pennod yn benodol ar gyflawni yng Nghymru oherwydd ei chyd-destun Partneriaeth a chyflawni unigryw. Yn y strategaeth hon, mae partneriaid yng Ngogledd Cymru wedi nodi sut y maent yn bwriadu cyflawni'r Ddyletswydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o'r Awdurdodau penodedig "sydd â dyletswydd i adnabod, lleihau ac atal trais difrifol yn ein cymunedau". Mae Awdurdodau penodedig eraill yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol, Tân ac Achub, Prawf, Gwasanaethau Ieuencid ac Addysg.

Mae'r Tîm Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd wedi bod yn ymwneud yn llawn â'r agenda hon, gan fynd i bob cyfarfod, gweithdy a darparu data yn ôl y gofyn. Nid creu gwasanaethau ychwanegol yw nod y gwaith hwn, ond sefydlu'r hyn sydd eisoes ar waith, cydweithio a chyd-gynhyrchu pan fydd cyfleoedd datblygu yn codi. Mae cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud tuag at fodloni gofynion y Ddyletswydd yng Ngogledd Cymru.

Camau Gweithredu Penodol i'r Bwrdd Iechyd oedd sicrhau bod data'n cael ei ddarparu i lywio'r asesiad anghenion strategol yng nghyswllt trais difrifol mewn Adrannau Achosion Brys sydd wedi arwain at gais datblygu Datix a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd gan y Grŵp Systemau Ansawdd i'w symud ymlaen i'r Tîm Datblygu Cenedlaethol. Bydd hyn yn golygu pan fydd trais wedi digwydd y bydd staff yn gallu dewis yr arf dan sylw, gan ddefnyddio cwmprestr. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i fonitro themâu a darparu data cywir.

Un Asesiad Diogelu Unedig (SUSR)

Dan arweiniad Llywodraeth Cymru, mae'r SUSR yn enghraifft o sut, drwy gydweithio a chyd-gynhyrchu ar draws ffiniau gwleidyddol, sefydliadol a daearyddol, y bydd sefydliadau'n mynd i'r afael â phroblem gymhleth ac yn darparu ymateb ar y cyd. Roedd bron i 200 o randdeiliaid yn ymwneud â chynllunio a darparu'r SUSR, ac mae pob un ohonynt wedi rhoi'r sawl sydd wedi cael ei niweidio, eu teuluoedd a'u cymunedau yn gyntaf.

Mae'r SUSR yn nodi fframwaith ar gyfer sut dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol weithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau eraill yn yr ardal fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddiogelu pobl rhag niwed – gan rannu gwersi a sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau llesiant pob unigolyn yng Nghymru.

Bydd y broses hon yn symleiddio'r sefyllfa adolygu yng Nghymru drwy gyfuno Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad o Laddiadau yn sgil Iechyd Meddwl, Adolygiad o Laddiadau Domestig a phrosesau Adolygu Lladdiadau yn sgil Arfau Ymosodol. Bydd yr SUSR yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2024. Mae staff y Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhan o'r cynllun peilot hyfforddiant cenedlaethol gyda rhaglen hyfforddi lawn i'w chyflwyno'n lleol o fis Ebrill ymlaen.

Rheoli ac Atal Heintiau

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud yn well na'r disgwyl ar gyfer yr holl organebau perfformiad allweddol, ond o'i gymharu â byrddau Iechyd darparwyr ysbytai aciwt eraill, o ran perfformiad mae ganddo'r gyfradd isaf ar gyfer heintiau llif gwaed MRSA a'r 2il isaf ar gyfer MSSA. Mae'r Bwrdd Iechyd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer C. difficile a'r pedwerydd uchaf yng Nghymru, ond yn adrodd llai o achosion nag ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.

Mae heintiau llif gwaed negyddol i brofion gram yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, gan eu bod yn 3ydd ar gyfer Klebsiella ac yn 4ydd uchaf ar gyfer E. coli a Pseudomonas; gyda chyfradd haint Pseudomonas yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae heintiau difrifol negyddol i brofion gram yn aml yn gysylltiedig â'r llwybr wrinol, felly mae'r Cymunedau Iechyd Integredig wedi sefydlu gweithgorau i edrych yn benodol ar leihau heintiau'r llwybr wrinol sy'n gysylltiedig â chathetrau (CAUTI). Cynhaliwyd archwiliad llawn o ymarfer cathetr wrinol ym mis Ionawr, gan dynnu sylw at rai gwelliannau ers yr archwiliad diwethaf ym mis Ebrill, ond mae angen gwneud rhagor o waith i leihau'r gyfradd CAUTI.

Mae'r Tîm Atal Heintiau a'r Gymuned Iechyd Integredig yn parhau i gysylltu â'r canlynol:

- Sicrhau bod yr hyn a ddysgir o adolygiadau ar ôl haint yn cael ei raeadru a bod gwelliannau'n cael eu monitro drwy grwpiau atal heintiau lleol yn adrodd i'r grŵp atal heintiau strategol.
- Darparu rhaglen archwilio gadarn o arferion sy'n gysylltiedig â'r prif heintiau ac adrodd ar ddata perfformiad i sicrhau gwelliannau.
- Cynyddu ymwybyddiaeth drwy'r ymgyrch "HABITS" newydd a lansiwyd ym mis Chwefror i ymgysylltu ymhellach â'n staff, ein cleifion a'r cyhoedd. Bydd mis Mawrth yn canolbwyntio ar 'H': Hylendid dwylo.

Mae ynysu pob claf sydd â haint mewn ystafell ochr yn parhau'n her barhaus, yn enwedig yn Ysbyty Maelor Wrecsam lle mae nifer yr ystafelloedd ochr yn isel iawn ac ychydig iawn ohonynt sy'n rhai en-suite. Mae'r tîm Atal Heintiau yn cefnogi staff clinigol i flaenoriaethu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac mae 'Matrics Risg Ynysu' manwl i gefnogi hyn.

Rhaglen COVID-19 Nosocomiaidd

Daeth y cyllid ar gyfer y prosiect i ben ddiwedd mis Mawrth 2024 a chwblhaodd y Bwrdd Iechyd yr holl ymchwiliadau.

PROFIAD CLEIFION

Cwynion

Mae'r Prif Weithredwr wedi uwchgyfeirio'r mater o'n perfformiad yn y maes hwn, gan ddod ag arweinwyr allweddol ar draws y sefydliad ynghyd i ganolbwyntio ar wella prydlondeb wrth ymateb i ymholiadau a chwynion ffurfiol. Mae'r gwaith dilynol yn dangos cynnydd positif a bydd rhagor o fanylion am hyn yn cael eu darparu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2024, derbyniodd y Bwrdd Iechyd 502 o gwynion, rheolwyd 394 o'r rhain o dan Gweithio i Wella, a chafodd 108 ychwanegol eu datrys fel Datrysiadau Cynnar.

Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Eilaidd. Mae'r prif themâu yn aros yr un fath: triniaeth ac asesu clinigol, cyfathrebu gwael, apwyntiadau a meddyginiaeth. Mae materion sy'n ymwneud ag agweddau ac ymddygiad yn themâu cyffredin ar draws yr holl wasanaethau sy'n gyson â'r materion cyfathrebu.

Roedd cyfanswm o 395 o gwynion hwyr ddiwedd mis Ebrill 2024.

Mae pob Cymuned Iechyd Integredig (IHC) wedi mabwysiadu Cyfarfod Gweithio i Wella wythnosol i reoli cynnydd o ran y cwynion a dderbynnir. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Cwynion yn gweithio ar drywyddau i leihau nifer y cwynion hwyr sy'n destun craffu gan y Tîm Gweithredol.

Mae'r Tîm Cwynion wedi mabwysiadu dull wedi'i dargedu o reoli cwynion i sicrhau bod cwynion newydd yn cael eu cau o fewn yr amserlen 30 diwrnod gwaith, gan symleiddio'r broses gymeradwyo, gan sicrhau bod y rheini sy'n hwyr yn cael blaenoriaeth i sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni.

Mae'r gyfradd cau o fewn 30 diwrnod gwaith wedi gwella o 39.5% i 42.93%, mae hyn yn amlwg yn dilyn mwy o graffu gan Gyfarwyddwyr y Gymuned Iechyd Integredig i hyrwyddo datrys a chau cwynion yn gynnar.

Yn ystod y cyfnod adrodd, hwylusodd y Gwasanaeth Cyswllt Cyngor i Gleifion (PALS) y gwaith o ddatrys 1,169 o ymholiadau rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2024. Mae'r themâu allweddol a nodwyd o ymholiadau PALS yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Oedi o ran apwyntiadau / amseroedd aros
- Oedi/diffyg triniaeth neu asesiad
- Cyfathrebu â theuluoedd

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyngor i Gleifion yn parhau i weithio gyda Chymunedau Iechyd Integredig a Gwasanaethau Arbenigol i ganfod a chefnogi meysydd lle mae cynnydd yn nifer yr ymholiadau PALS, gyda'r nod o annog datrys pryderon neu ymholiadau yn lleol.

Cyfathrebu a Gwybodaeth i Gleifion

Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwybodaeth o ansawdd, gan lynu wrth ddeddfwriaeth statudol wrth baratoi unrhyw fath o wybodaeth i gleifion boed ar lafar neu'n ysgrifenedig. Yn ystod y cyfnod adrodd, adolygwyd 19 o daflenni gwybodaeth i gleifion gan y Panel Darllenwyr. Mae enghreifftiau o daflenni gwybodaeth i gleifion a adolygwyd yn cynnwys:

- Sylw yn ôl Symptomau – gwybodaeth i gleifion a gofalwyr
- Apwyntiad Dilydol ar Gais y Claf (PIFU) - gwybodaeth i gleifion a gofalwyr
- Gwasanaeth Cymryd Gwaed – taflen wybodaeth i gleifion (Dwyrain)
- Canllaw i ymdrochi wedi'i lapio ar gyfer babanod

Mae gwaith parhaus yn parhau i gefnogi'r Gwasanaeth Radioleg sy'n adolygu ei holl ddogfennau gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys llythyrau cleifion a thafleini gwybodaeth i gleifion i sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi i gleifion ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Adran Profiad Cleifion a Gofalwyr yn gwella'r ffordd y mae'n cyfathrebu â chleifion a theuluoedd drwy wella mynediad at ei gwasanaethau ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar-lein. Er mwyn cefnogi'r gwaith o wella'r wefan, cyfwelwyd â 22 o gleifion a oedd wedi cysylltu â PALS yn ddiweddar drwy'r rhyngwyd i gael cymorth. Bydd adborth cleifion a gwelliannau a awgrymir gan gleifion yn helpu i lywio newidiadau i'r wefan fel bod mynediad at wasanaethau PALS/Cwynion yn fwy hygyrch ac yn haws i'r cyhoedd rannu canmoliaeth, darparu adborth, gwneud ymholiad a gwneud cwyn ffurfiol.

Ym mis Ebrill 2024, fe wnaeth yr Adran Profiad Cleifion a Gofalwyr ddechrau gweithredu system ffôn un pwynt cyswllt newydd ar gyfer y Tîm PALS a Chwynion. Bydd y system ffôn newydd yn gwella'r broses o ddelio â galwadau a'r profiad o aros wrth ffonio ar gyfer cleifion a theuluoedd, a bydd yn galluogi'r adran i fonitro'r gwaith o reoli ansawdd. Bydd gan y llinell ffôn arolwg ar y diwedd hefyd, a fydd yn galluogi galwyr i roi adborth i ni ar eu profiad wrth ffonio. Yn unol â'r gwelliant a wnaed i wefan PALS a theleffoni, fe wnaeth oriau agor y gwasanaeth PALS o fis Ebrill 2024 ymlaen newid i ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener 10am – 4pm ac ar ddydd Mercher 9am – 12.30pm. Mae'r newid mewn oriau gweithredu yn galluogi Swyddogion PALS i gynyddu gweithgarwch profiad wyneb yn wyneb cleifion, bod yn fwy gweladwy ar wardiau ac ar draws ysbtyai cymunedol gan gofnodi a dysgu o brofiadau cleifion a gofalwyr.

EFFEITHIOLRWYDD CLINIGOL

Mae archwilio clinigol yn gylch gwella ansawdd sy'n cynnwys mesur effeithiolrwydd gofal iechyd yn erbyn safonau ansawdd y cytunwyd arnynt ac a brofwyd, a chymryd camau i sicrhau bod ymarfer yn cyd-fynd â'r safonau hyn i wella ansawdd gofal a chanlyniadau iechyd.

Nod archwiliadau clinigol cenedlaethol (Haen 1) yw mesur a meincnodi'r gwaith o wella gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Archwiliadau Haen 2, sy'n cael eu pennu gan flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd, risgiau neu bryderon lefel uchel, ac maent yn canolbwyntio ar brif flaenoriaethau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd o ran risg, digwyddiadau a chwynion.

Er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol o fewn yr Adran Effeithiolrwydd Clinigol, anfonir ffurflenni Asesu Cydymffurfiaeth Gwasanaeth at yr holl wasanaethau sy'n cymryd rhan mewn Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol Haen 1 ac Adolygiadau o Ganlyniadau, i'w cwblhau yng nghyswllt yr argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiadau cyhoeddedig ar gyfer yr Archwiliad/Adolygiad Cenedlaethol gorfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ffurflenni hyn wedi cael eu hadolygu, eu monitro a'u haddasu i sicrhau y gofynnir am yr wybodaeth gywir er mwyn gallu darparu ymateb manwl. Lle mae canfyddiadau cenedlaethol yn datgelu materion cyffredin a nodwyd o'r archwiliadau, lle mae gofal iechyd cenedlaethol yn gyffredinol yn disgyn islaw'r safonau archwilio gofynnol, mae'n rhaid darparu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli a rhaid darparu amserlen realistig.

Mae'r system Rheoli a Thracio Archwilio (AMaT) bellach yn cael ei defnyddio i fonitro cydymffurfiaeth â chanllawiau NICE. Mae'r Tîm Effeithiolrwydd Clinigol yn gweithio i gefnogi adrannau gydag arweiniad a hyfforddiant lle bo angen, ac mae unrhyw ganllawiau hwyr yn cael eu huwchgyfeirio drwy'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Strategol pan fo angen.

Bydd y broses adolygu marwolaethau yn cael ei hymestyn ymhellach o fis Ebrill ymlaen. Mae deddfwriaeth newydd wedyn yn mynnu bod yr holl farwolaethau yn y gymuned/gofal sylfaenol, ynghyd â marwolaethau gofal eilaidd, yn awr yn cael eu hadolygu drwy'r Gwasanaeth Archwilywr Meddygol.

Mae'r broses adolygu marwolaethau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau bod Adolygiadau Craffu Arholwyr Meddygol a ddaw i law'r Bwrdd Iechyd yn cael eu rhannu'n effeithiol â phryderon, cwynion ac unrhyw ymchwiliadau parhaus i sicrhau bod y prosesau hyn yn cael eu hysbysu'n llawn.

CASGLIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd o weithgareddau gwella a sicrwydd allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd.

Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi:

- Prif themâu Digwyddiadau sy'n Adroddadwy'n Genedlaethol (NRI) yw cwmpïadau a briwiau pwyso a gafwyd mewn gofal iechyd. Mae gwaith gwella ar gyfer yr holl feysydd hyn yn mynd rhagddo o dan arweinyddiaeth uwch staff clinigol.
- Mae'r Crwneriaid yn parhau i godi pryderon mewn nifer o feysydd. Mae'r meysydd hyn yn cael eu hadolygu ac mae camau gweithredu'n cael eu cymryd.
- Mae'r Crwner wedi derbyn nifer o Hysbysiadau Rheoliad 28.
- Mae nifer y cwynion hwyr yn dal yn annerbyniol o uchel, gydag effaith ar gleifion, ac mae hynny'n effeithio ar gydymffurfio â'r targed cwblhau.
- Mae adolygiad o'r broses ymchwilio yn cael ei gomisiynu gan y Prif Swyddog Gweithredol ac mae polisi integredig newydd ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau, cwynion a marwolaethau i fod i gael ei gwblhau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r adroddiad.



Y Pwyllgor sy'n Adrodd:	Y Pwyllgor Archwilio
Cadeirydd y Pwyllgor:	Karen Balmer, Aelod Annibynnol
Dyddiad y cyfarfod diwethaf:	7 May 2024
Paratowyd y papur gan:	Jody Evans, Swyddog Llywodraethu Corfforaethol
PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR	
<p>Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7^{fed} Mai 2024.</p> <p>Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiadau a'r diweddariadau canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad diweddarar ar Argymhellion yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol – Fe wnaeth y Pwyllgor:<ul style="list-style-type: none">○ Ystyried y prosesau newydd arfaethedig ar gyfer cyflwyno Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol, ynghyd â'r broses newydd ar gyfer cymeradwyo cau argymhellion yr archwilwyr a datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol.○ Nodi'r sefyllfa bresennol o ran argymhellion agored ac argymhellion y bwriedir eu cau, ac argymhellion sicrwydd cyfyngedig.○ Nodi argymhellion yr Archwilwyr y cynigiwyd eu cau – i'w cyflwyno i'r Archwilwyr Mewnol i'w hadolygu.○ Nodi'r sefyllfa bresennol gydag argymhellion yr archwilwyr nad oeddent wedi cael sylw.○ Wedi'u cymeradwyo i'w cau; cymeradwywyd argymhellion (lonawr) gan y tîm Archwilio Mewnol, ac eitemau nad ydynt yn dod o fewn y Siarter Archwilio, ac felly nad oes angen cymeradwyaeth y tîm Archwilwyr Mewnol i'w cau. <p>Yn benodol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar argymhellion y tîm archwilio mewnol nad oeddent wedi cael sylw o'r adroddiadau sicrwydd cyfyngedig a dim sicrwydd, a chytunodd y dylid canolbwyntio ar leihau nifer yr argymhellion sydd heb gael sylw gan obeithio gwneud gwelliannau yn y systemau rheolaeth fewnol ar draws y Bwrdd Iechyd. Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn canolbwyntio ar geisio sicrwydd yn erbyn argymhellion yr Archwilwyr Allanol i'r dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none">• Diweddariad ar y Mesurau Arbennig - nododd a derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd derbynol ar gyfer y canlynol:<ul style="list-style-type: none">○ Y diweddaraf am y Mesurau Arbennig a'r broses o'u trosglwyddo i'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol, i adrodd arnynt, a'r diweddariad ar Adolygiadau Annibynnol.• Diweddariad ar Reoli Risgiau – Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol - Fe wnaeth y Pwyllgor: nodi a derbyn sicrwydd ar gyfer:<ul style="list-style-type: none">○ Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd gan y Grŵp Rheoli Risgiau a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2024.○ Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, Cofrestrau Risgiau Adrannol, a risgiau sy'n ymddangos.○ Cymeradwyodd newidiadau yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r broses o'i addasu i gyd-fynd ag amcanion y Bwrdd Iechyd a gymeradwywyd yn ddiweddar yng Nghyfarfod mis Mawrth y Bwrdd.○ Cefnogodd y dull o ystyried amlder adroddiadau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fel rhan o Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar Reoli Risgiau.	



- **Diweddariad ar gyllid a'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol 2023/24** – Nododd a thrafododd y Pwyllgor y perfformiad mewn perthynas â'r canlynol:
 - Archebion Prynu ddim yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
 - Datblygiadau gyda'r System E-heggor a'r broses Heggog Tendrau Unigol.
 - Symiau derbyniadwy a chydymffurfio â gweithdrefnau'r gyflogres.
 - Taliadau dyledus a chydymffurfio â Pholisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus.
 - Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Colledion a Thaliadau Arbennig o (Ionawr i Fawrth 2024) a chymeradwyodd y Pwyllgor golled ganlyniadol o £1,519.08.
- **Cyfrifon Blynyddol 2023/24** - Cytunodd y Pwyllgor ar y broses i drafod y cynnwys drafft ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 21 Mai 2024.
- **Adroddiad Cynnydd y tîm Archwilio Mewnol (1 Mawrth i 18 Ebrill 2024)** – *Fe wnaeth y Pwyllgor:*
 - Dderbyn a nodi'r adroddiad cynnydd, ynghyd â'r manylion yn ymwneud ag adroddiadau a gyhoeddwyd ar ffurf drafft ac fel gwaith ar y gweill.
 - Cydnabuwyd nad oedd ymateb wedi dod i law oddi wrth y rheolwyr o safbwynt lechyd a Diogelwch a'r Model Gweithredu, bydd yr ymateb yn cael ei gylchredeg i'r pwyllgor ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r Archwilwyr Mewnol a chyn y cyfarfod nesaf.
 - Nodwyd yr ôl-groniad o achosion na chawsant eu cau o ran argymhellion yr archwiliad.
 - Cymeradwywyd y bwriad i ohirio'r Gwasanaethau i Gleifion dan Contract am 6 mis: Trefniadau Ansawdd a Diogelwch (adolygiad dilynol), ond dim ond ar y sail y byddai'r rhain yn digwydd yn rhan olaf y flwyddyn ariannol h.y. Chwarter 3/Ch4.
- **Diweddariad gan yr Archwilwyr Allanol**
 - Cyflwynodd Arweinwyr Archwilio Cymru ddiweddariad i'r Pwyllgor am yr Archwiliad Allanol a hefyd eu diweddariad ar y gwaith ar berfformiad a chyfrifo.
 - Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau terfynol a roddai fanylion yr adolygiadau, y prif ganfyddiadau a'r argymhellion canlynol;
 - Aseiad Strwythuredig 2023
 - Adolygu Trefniadau Cynllunio'r Gweithlu
 - Derbyniodd y Pwyllgor hefyd y Cynllun Archwilio Manwl ar gyfer 2024.
- **Atal Twyll - Adroddiad Llafar (Materion i'r Cyhoedd)** –
 - Darparwyd y diweddariad llafar a thynnwyd sylw eto at y ffaith bod gofyn diweddarau'r Polisi Atal Twyll, Llwgrobwro a Llygredigaeth Lleol. Nodwyd y llwybr cymeradwyo a chytunwyd i ystyried y Polisi er mwyn i'r Pwyllgor ei gymeradwyo'n derfynol ym mis Medi, felly hefyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n ymwneud ag Atal Twyll.
 - Nodwyd y byddai'r arfer o gau achosion cyn eu cwblhau mewn perthynas ag ymchwiliadau parhaus i dwyll, a gweithwyr yn gadael, yn dod i ben, gyda'r ymchwiliadau'n cael eu canlyn i'w terfyn.



- Cytunwyd i ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar Atal Twyll mewn Cyfarfodydd Pwyllgor i'r dyfodol.
- I gydnabod ymddeoliad buan y Pennaeth Atal Twyll, mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad a'i diolch ar ran y Pwyllgor.
- **Eitemau i'w cyfeirio i Bwyllgorau eraill fel a ganlyn:**
 - Pwyllgor Llywodraethu Integredig – Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, eitemau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, adroddiadau'r adnodd Tracio Archwiliadau, a gosod y gwaith o adolygu Gwasanaethau i Gleifion a gwaith dilynol ar Contract.
- **Mewn Sesiwn Breifat, rhoddwyd Adroddiadau Cynnydd i'r Pwyllgor ynglŷn ag:**
 - Achosion o dorri'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (diweddarwyd Mai 2024) – Mewn adroddiad llafar cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am achosion o dorri'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a hysbyswyd ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf ar 15 Mawrth 2024.
 - Ymateb y Rheolwyr i'r Adolygiad Annibynnol (Adolygiad o Gaffael Contractau) – Darparwyd i'r Pwyllgor ymateb y Rheolwyr i'r Adolygiad Annibynnol o'r trefniadau Rheoli Contractau a Chaffael.
 - Gwasanaeth Atal Twyll Lleol – Rhoddwyd diweddariad ar gynnydd Gwaith Gweithredol y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol ac fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Gwaith Blynnyddol 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.
 - Datblygu'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer y cyfnod 2023/24 - Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y paratodau ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, ynghyd â throsolwg o'r broses sy'n cael ei chynnal ar gyfer Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol llawn 2023/24.

Mae'r papurau a'r cofnodion a gymeradwywyd ar gael ar wefan BIPBC: [Pwyllgor Archwilio - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr \(gig.cymru\)](#)

EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD

Y Risgiau sy'n gysylltiedig â:

- Diffyg cynnydd gyda'r argymhellion o'r adroddiad "dim Sicrwydd" ym mis Mai 2023. Cafodd yr adolygiad a drefnwyd ar gyfer 2023/24 ei ohirio tan 2024/25 a chafwyd cais i'w ohirio ymhellach. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cais i'w ohirio tan yn ddiweddarach eleni ac i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau fwrw ymlaen i roi'r argymhellion ar waith ar fyrder.
- Roedd yr oedi parhaus yn ymateb y rheolwyr o safbwynt lechyd a Diogelwch yn peri pryder, mae'r ymateb wedi cael ei gylchredeg ers hynny ond mae angen rhoi pwyslais ar roi sylw i'r argymhellion.

Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 18fed Gorffennaf 2024



Y Pwyllgor sy'n Adrodd:	Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Cadeirydd y Pwyllgor:	Gareth Williams, Aelod Annibynnol/Is-gadeirydd y Bwrdd
Dyddiad y cyfarfod diwethaf:	30.4.24
Paratowyd y papur gan:	Diane Davies, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2024 yn Ystafell y Bwrdd Llys Carlton:

22.2.24 Roedd y Pwyllgor

- yn bryderus ynghylch yr oedi wrth baratoi'r Cynllun Blynyddol yn erbyn yr amserlen wreiddiol a amlinellwyd.
- wedi cael sicrwydd, fodd bynnag, y byddai'n cael cyfle i drafod y Cynllun ar ei ffurf drafft
- yn croesawu cynnydd sylweddol o ran cyflawni arbedion o fewn y flwyddyn gyfredol, gan nodi nad oedd y dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r rhain yn gynaliadwy yn y tymor hwy os yw'r Bwrdd o ddifrif yn ei ymrwymiad i alluogi staff ar bob lefel i reoli adnoddau'n briodol
- yn ceisio archwilio pa mor gadarn yw prosesau rheoli'r sefydliad yn erbyn cyllidebau, ac ystyried y dystiolaeth o gynnydd sylweddol yn y sefydliad yn y flwyddyn gyfredol a chwestiynu a ddylid trafod hyn ymhellach yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant (PD)
- yn croesawu trafodaeth gydag uwch arweinwyr o Gymuned Iechyd Integredig y Dwyrain a oedd wedi cyflwyno eu hadroddiadau Cyllid a Pherfformiad; yn croesawu eu gonestrwydd ynghylch yr heriau niferus o ran perfformiad a rheoli ariannol; ac yn nodi'r cais ganddynt i gael mwy o gefnogaeth ar gyfer trawsnewid a rheolaeth ariannol
- yn gofyn am ragor o wybodaeth am y diffyg cynnydd o ran mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn cydymffurfio â Mynediad at Gofnodion Iechyd

30.4.24 Roedd y Pwyllgor

- yn ceisio eglurhad pellach ar rolau priodol y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG) a'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau o ran datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig/Cynllun Blynyddol yn y dyfodol.
- yn ceisio deall y berthynas rhwng y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd mewn perthynas ag adrodd ar fetrigau perfformiad.
- yn pryderu'n fawr am lefel wael y perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cael eu hadrodd, y risgiau i ddiogelwch a lles cleifion yn sgil hyn, a'r dystiolaeth roedd hyn yn ei rhoi o ddiffyg dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n digwydd 'ar lawr gwlad' gan y rheini sy'n datblygu'r Cynllun Blynyddol. Nid oedd y Pwyllgor yn hyderus bod gan y Bwrdd y dulliau ar waith i fynd i'r afael â'r holl faterion.
- yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â materion diwylliannol a strwythurol sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn er mwyn gwella perfformiad mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol.

Mewn sesiynau preifat, bu'r Pwyllgor yn



- ystyried Rhaglen Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig – Achos Busnes Llawn (EPMA) a chefnogi'r broses o'i chyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried
- ystyried risg Seiber ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol
- nodi adnewyddu Contractau Deintyddol
- cefnogi cyflwyno achos amlinellol strategol ar gyfer Canolfan Lles Bangor i'r Bwrdd
- nodi dyfarnu'r prif dendr ar gyfer gwasanaeth Orthopedig Llandudno
- nodi ymatebion y rheolwyr a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr Adolygiad o Gaffael Contractau Annibynnol
- cymeradwyo'r cynnig prosiect wedi'i gostio ar gyfer canolfan Argyfwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) – cynllun peilot sy'n cynnig dewisiadau eraill yn lle bod plant a phobl ifanc yn mynd i'r ysbyty

Cafodd gweithdy ei gynnal ar 7.3.24, gydag aelodau eraill o'r Bwrdd yn ymuno, er mwyn trafod drafft diweddaraf y cynllun blynyddol, ac ystyried diwygiadau pellach cyn eu cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 28.3.24.

Ar 21.3.24 bu'r Pwyllgor yn trafod yr adolygiad diweddaraf o'r Cynllun Blynyddol i lywio argymhellion terfynol Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd i'w trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau o ran cyfateb cyllid, a'r pwysau ar wasanaethau o ran gallu a galw, a sicrhau'r lefel iawn o uchelgais a realaeth o ran cyflawni.

Cafodd sesiwn datblygu Pwyllgor ei chynnal ar 21.3.24 hefyd i dderbyn dau Adolygiad Annibynnol, hynny yw, Cynllunio a Chontractau a Chaffael.

Mae'r papurau a'r cofnodion a gymeradwywyd ar gael ar wefan BIPBC:

[Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr \(gig.cymru\)](#)

EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD

Yr angen i ganolbwyntio'n fanylach ac yn ddyfnach ar agweddau penodol ar berfformiad, yn enwedig mewn perthynas â Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio gan y Bwrdd a'r Pwyllgor.

Yr angen i egluro rhai agweddau ar y berthynas rhwng gwahanol Bwyllgorau drwy gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu Integredig.

Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei gynnal ar 25.6.24



Y Pwyllgor sy'n Adrodd:	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
Cadeirydd y Pwyllgor:	Caroline Turner, Aelod Annibynnol
Dyddiad y cyfarfod diwethaf:	18.04.2024
Paratowyd y papur gan:	Philippa Peake-Jones, Pennaeth Materion Corfforaethol
PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR	
Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18.04.2024 yn Llys Carlton:	
<ul style="list-style-type: none">Adroddiad y Cadeirydd Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar gan y Cadeirydd newydd yn tynnu sylw at yr holl weithgarwch yr oedd hi wedi ymgymryd ag ef i ymgylfarwyddo â'r Pwyllgor a'i fusnes ac eglurodd y byddai sesiwn datblygu yn cael ei gynllunio ar gyfer y Pwyllgor cyn gynted â phosibl.Stori Claf Nododd y Pwyllgor stori gan glaf yn disgrifio'r daith yr oedd wedi'i chael wrth gael llawdriniaeth i osod clun newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn ddiweddar, yn dilyn cynnydd o ran y boen ac anhwylygrwydd. Derbyniwyd yr hyn a ddysgwyd wrth y claf yn rhannu ei brofiad.Adroddiad Ansawdd Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a deallwyd bod yr adroddiad yn rhoi naratif i'r Pwyllgor ar ddysgu sefydliadol, gwella ansawdd, y System Rheoli Ansawdd sydd ar y gweill, Diogelwch Cleifion a gwybodaeth am Ddiogelu a Rheoli Heintiau.Adroddiad Ansawdd Integredig Adolygodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'r camau gweithredu a oedd wedi'u cynnwys ynddo. Tynnodd yr adroddiad sylw at Berfformiad Ansawdd (Diogelwch, Effeithiolrwydd a Phrofiad), Perfformiad Mynediad a Gweithgarwch, Perfformiad Pobl a Datblygu Sefydliadol a Pherfformiad Ariannol.Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Ansawdd Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, a oedd yn tynnu sylw at y pwysau sydd ar wasanaethau a phryderon gan Gymunedau Iechyd Integredig. Nodwyd bod cefnogaeth gadarnhaol gan y Gweithlu, Cyllid a Data.Adroddiad Rheoleiddiol a Chyfreithiol Ystyriodd y Pwyllgor Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ac ymateb y Bwrdd Iechyd, a nodwyd y byddai'n sail i waith y Pwyllgor ar geisio sicrwydd ynghylch y broses delio â chwynion.Polisi Clinigol Nodwyd y byddai'r "Polisi ar gyfer Rheoli Polisiâu, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig eraill ar draws y Bwrdd Iechyd" yn cael ei dderbyn yn y Pwyllgor Archwilio ar 15 Mai 2024, a nodwyd y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran diweddarau polisiâu.Deddf Lefelau Staff Nyrsio Derbyniwyd cyflwyniad ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio.Adroddiad Ansawdd Gwasanaethau a Gomisiynwyd Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar ar yr adroddiad Ansawdd Gwasanaethau a Gomisiynwyd. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd adroddiad sicrwydd gan yr Archwilwyr Mewnol wedi cael ei dderbyn ac y byddent yn mynd ar ôl hynny. Roedd sgrysiâu parhaus yn cael eu cynnal gyda'r Tîm Gweithredol i symud hyn yn ei flaen.Adolygiad Wroleg	

Nododd y Pwyllgor adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Lloegr ac adroddiad *Getting it Right First Time*. Buont yn trafod y dull a ddefnyddiwyd i ymateb i'r argymhellion, a nodwyd y camau a gymerwyd yn barod. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r dull a amlinellwyd i nodi model gwasanaeth cynaliadwy a datblygu adnodd robotaidd priodol ar gyfer wroleg. Gofynnodd y Pwyllgor am Gynllun Gweithredu manylach a diweddariad ar weithredu yn ei gyfarfod ym mis Awst, a phwysleisiodd yr angen am gyflymder wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu, yn enwedig mewn perthynas â'r argymhellion yr ystyriwyd eu bod yn rhai brys yn y ddau adroddiad. Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor na fu llwyddiant wrth benodi arweinydd clinigol, ond nodwyd bod un o'r Dirprwy Gyfarwyddwyr Meddygol yn arwain y gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu.

- **Cofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

Nododd a derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch rheoli dwy risg fframwaith sicrwydd y bwrdd (BAF) a chwe risg gorfforaethol y mae'n gyfrifol amdanynt.

Er bod Adolygiad Manwl o Gymuned Iechyd Integredig y Dwyrain ar yr agenda, cytunwyd y byddai hyn yn dychwelyd i'r Pwyllgor nesaf.

Mewn sesiwn breifat, rhoddwyd Adroddiadau Cynnydd i'r Pwyllgor mewn perthynas â:

- **Adroddiad Ansawdd Cyfrinachol**

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar wybodaeth a dadansoddiad ar gynnydd o ran ymchwilio a chau Digwyddiadau a Adroddwyd yn Genedlaethol (NRI) a'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r rheini sydd wedi cael eu cau yn ystod y cyfnod adrodd, yn ogystal â gwybodaeth am y gwelliannau sydd ar y gweill.

- **Cwest / Diweddariad dysgu o ymchwiliadau**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ddiweddariad llafar ar yr adolygiad o'r achosion sy'n rhan o lwybr y crwner.

- **Cyflenwi mewnol**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ddiweddariad llafar ar gontractau cyflenwi mewnol.

Mae cofnodion a phapurau sydd wedi'u cymeradwyo ar gael ar wefan BIPBC: [Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru)

EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD

Nid oedd unrhyw eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd.

Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 6 Mehefin 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Pwyllgor Adrodd:	Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
Cadeirydd y Pwyllgor:	Clare Budden, Aelod Annibynnol
Dyddiad y cyfarfod diwethaf:	23 Ebrill 2024
Papur wedi'i baratoi gan:	Laura Jones, Rheolwr Cymorth Prosiectau (Llywodraethu Corfforaethol)

PRIF BENDERFYNIADAU / MATERION I'W HYSTYRIED GAN Y PWYLLGOR

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2024 yn Ystafell y Bwrdd, Carlton Court.

- Trosolwg ar y Ffrydiau Gwaith Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT)**
Derbyniodd y Pwyllgor drosolwg ar y chwe ffrwd waith digidol sy'n cysylltu i'r cynllun tair blynedd. Nodwyd bod risgiau Corfforaethol a risgiau Bwrdd ynghlwm wrth y ffrydiau gwaith hyn, yn bennaf yn ymwneud ag argaeledd adnoddau a diwylliant y sefydliad. Cafwyd trafodaeth am wella data a'r her o symud o ddata i ddeallusrwydd er mwyn gwella ansawdd. Cytunwyd y byddai adroddiad rheolaidd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ac y byddai cyfarfod mis Awst yn derbyn dadansoddiad dyfnach o faterion data a chyfleoedd.
- Diweddariad ar Bartneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu**
Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a chafwyd trafodaeth dda am bartneriaethau ac ymgysylltu. Cytunwyd bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu partneriaethau cryf a phositif er mwyn cynorthwyo mwy o weithio'n gydweithredol er lles preswylwyr a chymunedau Gogledd Cymru. Mae angen canolbwyntio'n benodol ar y trydydd sector a'r sector gwirfoddol. Cytunwyd y byddai'r eitem hon yn dod yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau gwaith pellach ar gynigion ar gyfer y camau nesaf a strategaeth i'r dyfodol. Nodwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn faes ffocws pwysig ar draws nifer o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth hefyd am ymgysylltu â'r cyhoedd, y newid positif sydd ar droed / pa wersi y gellir eu dysgu a sut y gellir parhau i ddatblygu hyn.
- Adroddiad Sicrwydd Iechyd y Boblogaeth**
Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn tynnu sylw at brif weithgareddau'r deuddeg mis diwethaf a'n sefyllfa bresennol. Trafodwyd bod angen dull system gyfan o ymdrin ag iechyd y cyhoedd drwy gydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth er mwyn creu cymunedau iachach a gwella lles. Awgrymwyd y dylai dadansoddiad dwfn o faes penodol fod yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf a chytunwyd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd yn tynnu sylw at sut y bwriedir gwella Iechyd y Boblogaeth, gan gyfeirio at Ofal Sylfaenol a Phresgripsiynau Cymdeithasol.
- Adroddiad Sicrwydd Gofal Sylfaenol**
Mae'r Bwrdd Gofal Sylfaenol wedi cael ei sefydlu a bydd yn strwythur allweddol ar gyfer gwella a datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol. Cytunwyd y dylai'r Bwrdd Gofal Sylfaenol roi adroddiad i'r Pwyllgor PPHP, ac ar ôl y cyfarfodydd cychwynnol y byddai adroddiad yn cael ei gynhyrchu i oleuo penderfyniad y Pwyllgor ar wybodaeth berfformiad y bydd yn ei derbyn a'i hadolygu'n rheolaidd.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

- **Astudiaeth Presgripsiynu Cymdeithasol Gogledd Cymru 2024**

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar waith Presgripsiynu Cymdeithasol Gogledd Cymru ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf i wreiddio hyn ymhellach ar draws yr ardal. Gyda chefnogaeth y Pwyllgor, bydd y papur a gyflwynir i'r PPHP yn cael ei roi gerbron y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w ystyried a'i gymeradwyo.

EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD

- Adroddiad Diweddariad Cynnydd Iechyd y Boblogaeth

Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 18 Mehefin 2024.

V2.00 Terfynol:



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Pwyllgor Adrodd:	Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Cadeirydd y Pwyllgor:	Dyfed Jones, Aelod Annibynnol
Dyddiad y cyfarfod diwethaf:	11 Ebrill 2024
Papur wedi'i baratoi gan:	Laura Jones, Rheolwr Cymorth Prosiectau (Llywodraethu Corfforaethol)

PRIF BENDERFYNIADAU / MATERION I'W HYSTYRIED GAN Y PWYLLGOR

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2024 yn Ystafell y Bwrdd, Carlton Court.

- Datblygu Sefydliadol**

Roedd y Pwyllgor wedi trafod y dull datblygu sefydliadol yn fanwl gan gyflwyno rhywfaint o her a rhai awgrymiadau i fwydo mewn i'r gwaith sy'n cael ei arwain gan y Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol. Cytunwyd y byddai diweddariad rheolaidd ar y cynnydd yn cael ei roi i'r Pwyllgor, gan gynnwys datblygu cynllun yn unol â'r disgwyliadau darparu a gyfunwyd fel rhan o'r cynllun tair blynedd.

- Adolygiad Annibynnol o'r Prif Feysydd Gweithlu**

Derbyniodd y Pwyllgor Adolygiad Annibynnol o'r Prif Feysydd Gweithlu a gwblhawyd gan Geraint Evans ym mis Mehefin 2023. Nodwyd nad oedd yr adolygiad yn Adolygiad Annibynnol ffurfiol ond ei fod wedi'i gwblhau'n unol â'r Mesurau Arbennig. Mae gwaith rŵan ar y gweill i ennill eglurder ar y canfyddiadau a sicrhau eu bod yn cael eu tracio drwy'r Cynllun Tair Blynedd. Cytunwyd y byddai diweddariad ar yr Adolygiad yn cael ei roi i gyfarfod y Bwrdd ar 30 Mai 2024.

- Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu, BCUHB**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad terfynol gan gynnwys ymateb rheolwyr i'r Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024. Awgrymwyd nad oes gan y Bwrdd Iechyd ddigon o gapasiti ar hyn o bryd i'w gynorthwyo i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol ac y gallai fod angen buddsoddi mwy yn hyn. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn monitro cynnydd yr adroddiad ac yn cyflwyno adroddiad sicrwydd canol blwyddyn / diwedd blwyddyn i'r Bwrdd Iechyd.

- Polisi Gweithio'n Hyblyg a Pholisïau Gweithlu**

Nododd y Pwyllgor y diweddariad ar y Polisiâu Gweithlu, gan gynnwys y polisi Gweithio'n Hyblyg. Cafwyd trafodaeth am ofynion a heriau posib gyda'r polisi gweithio'n hyblyg. Cytunwyd i gynnwys gweithio'n hyblyg fel eitem yng nghyfarfod mis Mehefin i gynorthwyo gyda thrafod ein sefyllfa bresennol, ein cynlluniau i'r dyfodol a sut orau y gallai'r sefydliad gefnogi staff i roi ffocws mwy strategol ar weithio'n hyblyg.

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) yng nghyswllt y Pwyllgor**

Derbyniodd y Pwyllgor Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. O ran y BAF, mae'r sgôr ar gyfer "P16 Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd" wedi gostwng o 16 i 12 gan adlewyrchu'r cynnydd a wnaed gyda recriwtio i'r Bwrdd a sefydlu Pwyllgorau. O ran y CRR, mae tair risg yn



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor. Nodwyd bod sgoriau'r tair risg wedi aros yr un fath.
Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y risg Iechyd a Diogelwch ar y gofrestr BAF gan nodi y bydd diweddariad ar waith gweithredu allweddol yn cael ei roi i Bwyllgorau yn y dyfodol.

EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD

- Adolygiad Annibynnol o'r Prif Feysydd Gweithlu
- Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu, BCUHB (adroddiad sicrwydd canol / diwedd blwyddyn)

Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Mehefin 2024.

V1.00 Terfynol:



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Pwyllgor Adrodd:	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
Cadeirydd y Pwyllgor:	Dyfed Edwards, Cadeirydd BIPBC
Dyddiad y cyfarfod diwethaf:	22.03.24
Papur wedi'i baratoi gan:	Llinos Roberts
PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR	
<p>Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi'u trafod yn y cyfarfod Pwyllgor a gynhaliwyd mewn sesiwn breifat ar 22 Mawrth, 2024:</p> <ul style="list-style-type: none">• Y diweddaraf gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr, gan gymeradwyo camau gweithredu i'w datblygu lle bo angen• Adroddiad gan y Prif Weithredwr ynglŷn ag Adeiladu Sefydliad Effeithiol• Adroddiad gan y Prif Weithredwr ar Fodel Gweithredu BIPBC• Y diweddaraf am Estyniadau a Phenodiadau Dros Dro'r Uwch Asiantaeth	
EITEMAU I'W HELAETHU I'R BWRDD	
Dim	
CYFARFOD NESAF	
11 Mehefin, 2024	



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Y Pwyllgor sy'n Adrodd:	Fforwm Partneriaeth Lleol
Cadeirydd y Pwyllgor:	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
Dyddiad y cyfarfod diwethaf:	26 Chwefror 2024
Paratowyd y papur gan:	Llinos Roberts, Rheolwr Busnes Gweithredol (Swyddfa'r Cadeirydd)

PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn ystod cyfarfod y Fforwm Partneriaeth Lleol ar 26 Chwefror 2024:

- Stori'r Claf – Llwybr Cleifion Orthopedig
- Cyflwyniad a thrafodaeth ar y Cynllun Tair Blynedd Integredig
- Diweddariad ar Ddatblygu Sefydliadol: Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad
- Adroddiad y gweithlu Chwefror 2024
- Grŵp Polisiâu'r Gweithlu Chwefror 2024
- Adroddiad ar y Rhaglen Gwerthuso Swyddi
- Diweddariad llafar Codi Llais yn Ddiogel
- Diweddariad y Tîm Cydraddoldeb
- Materion a Godwyd gan Undebau Llafur
- Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad
- Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol (materion o bwys)

EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD

Dim.

Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Fforwm Partneriaeth Lleol yn cael ei gynnal ar 1 Mai 2024.